Rhif ymchwil cymdeithasol: 129/2025

Dyddiad Cyhoeddi: 17/12/2025

# Gwerthusiad o gyllid cynllun peilot Model Ysgolion Rhithwir yng Nghymru

Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.

This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80633-813-9

Gwerthusiad o gyllid cynllun peilot Model Ysgolion Rhithwir yng Nghymru

Awduron: Kerry KilBride, Jessica Mann, Geof Andrews, Lili Thomas, Cameron Shields (Miller Research),Heledd Bebb, Nia Bryer (OB3 Research)

Adroddiad Ymchwil Llawn: KilBride, K; Mann, J; Andrews, G; Thomas, L; Shields, C; Bebb, H; Bryer, N (2025). Gwerthusiad o gyllid cynllun peilot Model Ysgolion Rhithwir yng Nghymru.  Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR rhif 129/2025

Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/gwerthusiad-o-gyllid-y-cynllun-peilot-model-ysgol-rhithwir

Safbwyntiau'r ymchwilydd yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn, ac nid rhai Llywodraeth Cymru o reidrwydd.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r:

Cangen Ymchwil Ysgolion

Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: YmchwilYsgolion@llyw.cymru

## Cynnwys

Geirfa

1. Cyflwyniad a chefndir ....................8

1.1. Cefndir a chyd-destun ....................8

1.2. Ysgolion Rhithwir fel cysyniad ....................9

1.2.1. Effeithiolrwydd VSM yn Lloegr a'r Alban ....................11

1.2.2. Cwmpas y cyllid ....................11

2. Methodoleg ....................13

2.1. Dull Gweithredu ....................13

2.1.1. Dadansoddiad ....................16

2.2. Cyfyngiadau a heriau ....................17

2.2.1. Dadgyfuno ffrydiau ariannu ....................18

3. Canfyddiadau ....................20

3.1. Sut mae Cyllid Ysgolion Rhithwir wedi'i ddefnyddio ....................20

3.1.1. Dyrannu cyllid y cynllun peilot ....................20

3.1.2. Amodau, egwyddorion ac elfennau'r grant. ....................22

3.1.3. Amcanion y cynllun peilot ....................26

3.1.4. Hwyluswyr gweithgaredd y cynllun peilot ....................27

3.1.5. Rhwystrau i weithgaredd y cynllun peilot ....................28

3.2. Dulliau gweithredu mewn ardaloedd nad oeddent yn rhan o'r cynllun peilot ....................29

3.2.1. Hwyluswyr mewn awdurdodau lleol nad ydynt yn rhan o'r cynllun peilot ....................32

3.2.2. Rhwystrau mewn awdurdodau lleol nad ydynt yn rhan o'r cynllun peilot ....................33

3.3. Cefnogi plant sy’n derbyn gofal ....................35

3.3.1. Data ....................35

3.3.2. Cydweithrediad awdurdodau lleol ....................37

3.3.3. Cynllunio strategol ac addysg cyfrwng Cymraeg ....................38

Cynlluniau peilot ....................38

3.3.4. Defnyddio llais y dysgwr i siapio dulliau gweithredu ....................40

3.4. Gwerth ymddangosiadol y cynllun peilot VSM ....................44

3.4.1. Canfyddiadau a phrofiadau plant sy'n derbyn gofal o gefnogaeth yn eu hawdurdod lleol ....................44

3.4.2. Canfyddiadau a phrofiadau rhanddeiliaid eraill o'r cymorth sydd ar gael yn eu hawdurdod lleol ....................46

3.5. Effaith cyllid y cynllun peilot ....................50

3.5.1. Mesur effaith ... 50
3.5.2. Effeithiau tymor byr ... 51
3.5.3. Effeithiau hirdymor a ragwelir ... 58
3.6. Cyflwyno'n genedlaethol ... 60
3.6.1. Barn rhanddeiliaid ar gyflwyno VSM yn genedlaethol ... 60
3.6.2. Yr angen am ofynion sylfaenol a phrosesau safonol ... 63
3.6.3. Nodweddion y gellir eu hefelychu mewn dulliau o gefnogi canlyniadau addysgol plant sy'n derbyn gofal ... 64
4. Casgliadau ... 66
4.1. Cymwysiadau a'r defnydd o gyllid cynllun peilot VSM ... 66
4.2. Sut mae ardaloedd nad oeddent yn rhan o'r cynllun peilot yn cymharu ag ardaloedd a dderbyniodd y cyllid peilot ... 68
4.3. Effeithiau a gynhyrchwyd gan ddulliau peilot y VSM ... 69
4.4. Profiadau plant sy'n derbyn gofal mewn addysg ... 70
4.5. Aliniad awdurdodau lleol ag egwyddorion VSM ... 70
5. Argymhellion ... 72
5.1. Dylunio fframwaith ar y cyd ar gyfer monitro a chasglu data sy'n ymgorffori'r mesurau cynnydd mwyaf gwerthfawr ar gyfer cefnogi plant sy'n derbyn gofal ... 72
5.2. Adolygu cyllid PDG-CLA gan ystyried effaith cynllun peilot VSM ... 73
5.3. Dylai awdurdodau lleol ddefnyddio'r NDG i gefnogi deialog genedlaethol ar gyfer rhannu arferion gorau a sefydlu safonau cyffredin ... 73
5.4. Cynnwys cymorth i ddysgwyr sydd wedi'u mabwysiadu a phlant a arferai fod mewn gofal 74
5.5. Ffurfioli set o hawliau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal (ni waeth a roddir VSM cenedlaethol ar waith ai peidio) ... 74
5.6. Cyflwyno rôl Pennaeth statudol i hyrwyddo hawliau plant sy'n derbyn gofal, ym mhob awdurdod lleol ... 75

## Geirfa

**Anghenion Dysgu Ychwanegol** (ADY)

Fel y nodir yn y Cod ADY (ffigur 1), mae hyn yn cyfeirio at:

(1) Mae gan berson anghenion dysgu ychwanegol os oes ganddo anhawster dysgu neu anabledd dysgu (pa un a yw'r anhawster dysgu neu'r anabledd yn deillio o gyflwr meddygol ai peidio) sy'n galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol.
(2) Mae gan blentyn o oedran ysgol gorfodol neu berson dros yr oedran hwnnw anhawster dysgu neu anabledd dysgu os oes ganddo ef neu hi:
- (a) anhawster dysgu sylweddol uwch na'r mwyafrif o blant eraill yr un oedran,
- (b) anabledd at ddibenion Deddf Cydraddoldeb 2010 sy'n ei atal neu'n ei lesteirio ef neu hi rhag defnyddio cyfleusterau addysg neu hyfforddiant o fath a ddarperir yn gyffredinol i eraill o'r un oedran mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir neu sefydliadau prif ffrwd yn y sector addysg bellach.

(3) Mae gan blentyn dan oedran ysgol gorfodol anhawster dysgu neu anabledd dysgu os yw ef neu hi, neu y byddai ef neu hi, pe na byddai darpariaeth ddysgu ychwanegol ar gael, yn debygol o berthyn i is-adran (2) pan fyddai ef neu hi yn cyrraedd oedran ysgol gorfodol.
(4) Nid oes gan berson anhawster neu anabledd dysgu dim ond oherwydd bod yr iaith (neu ffurf ar iaith) y dysgir neu y byddir yn dysgu ef neu hi ynddi yn wahanol i iaith (neu ffurf ar iaith) a ddefnyddir neu a ddefnyddiwyd gartref.

**Profiadau Plentyndod Niweidiol (ACE)**

Mae Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod yn cyfeirio at brofiadau llawn straen yn ystod plentyndod, sy'n digwydd cyn cyrraedd 18 oed ac sy'n gallu effeithio ar ddatblygiad cymdeithasol, emosiynol, corfforol a gwybyddol. Mae profiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn gysylltiedig ag amrywiaeth o anawsterau cymdeithasol, gan gynnwys perthnasoedd a chyrhaeddiad addysgol, mabwysiadu ymddygiad sy'n niweidio iechyd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, a gydag iechyd a lles corfforol a meddyliol gwaeth.

**Pobl ifanc / person â phrofiad o ofal** (CEYP)

Yn gyffredinol, mae'r term 'profiad o ofal' yn cyfeirio at unrhyw un sydd wedi bod mewn gofal neu sydd mewn gofal ar hyn o bryd neu o gefndir derbyn gofal ar unrhyw adeg yn eu bywyd, gan gynnwys plant wedi'u mabwysiadu a oedd yn derbyn gofal yn flaenorol.

**Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed** (CAHMS)

Mae hwn yn wasanaeth arbenigol gan y GIG sy'n darparu cymorth iechyd meddwl i blant a phobl ifanc hyd at 18 oed.

**Plant sy'n Derbyn Gofal** (CLA)

Mae'r term Plant sy'n Derbyn Gofal (CLA) bellach yn cael ei ddefnyddio'n gyffredin yng Nghymru yn lle Plant Mewn Gofal (LAC). Mae'n cyfeirio at blant o dan 18 oed sy'n cael gofal a llety gan awdurdod lleol o dan Ddeddf Plant 1989 neu Ddeddf Gwasanaethau

Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Gall hyn gynnwys amrywiaeth o drefniadau cyfreithiol, fel gorchmynion gofal, gorchmynion gofal interim, a chytundebau gwirfoddol o dan Adran 76. Yn bwysig, mae plant sy'n derbyn gofal yn cynnwys plant sydd wedi'u lleoli gyda gofalwyr maeth, mewn lleoliadau preswyl, a gyda'u rhieni dan leoliad gyda rheoliadau rhieni. Mae'r plant hyn yn parhau i fod yn “derbyn gofal" yn ffurfiol ac maent yn aml yn cynrychioli rhai o'r rhai mwyaf agored i niwed yn y system ofal.

Mae'r categori ehangach o blant â phrofiad o ofal yn cynnwys nid yn unig y rhai sy'n derbyn gofal ar hyn o bryd ond hefyd y rhai sydd wedi derbyn gofal yn y gorffennol. Mae hyn yn cynnwys plant sydd wedi cael eu mabwysiadu, plant sydd ar warcheidiaeth arbennig neu orchmynion preswylio yn dilyn gofal, a phobl ifanc sydd wedi'u diffinio yn y gyfraith fel rhai sy'n gadael gofal.

Er bod y cynlluniau peilot VSM wedi canolbwyntio'n bennaf ar blant sy'n derbyn gofal ar hyn o bryd, mae cyfeiriadau at blant sydd â phrofiad o ofal a'r rhai sy'n gadael gofal wedi'u cynnwys lle bo hynny'n berthnasol.

**Yr Adran Addysg** (DfE)

Y corff sy'n gyfrifol am wasanaethau plant ac addysg yn Lloegr. Maent yn gyfrifol am y gwasanaethau perthnasol yn y Blynyddoedd Cynnar, ADY, ôl-16 ac ati.

**Edukey**

Llwyfan digidol a ddefnyddir yn bennaf mewn ysgolion sy'n cysylltu sefydliadau addysgol â rhieni a myfyrwyr, gan hwyluso dewis a dethol gwasanaethau addysgol.

**Saesneg fel Iaith Ychwanegol** (SIY)

Dysgwyr nad yw'r Gymraeg na'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt.

**Datganiad o Ddiddordeb** (EOI)

Datganiad ffurfiol yn nodi bwriad unigolyn neu sefydliad i gymryd rhan mewn prosiect, cyfle neu broses gaffael.

**Cynorthwyydd addysgu lefel uwch** (CALU)

Mae rôl CALU yn ychwanegu cefnogaeth bellach i'r rhai sy'n addysgu mewn amgylchedd ystafell ddosbarth. Mae'r swydd yn swydd uwch na Chynorthwyydd Addysgu (TA) ac mae iddi gyfrifoldebau ychwanegol. Efallai y bydd angen i CALU addysgu dosbarthiadau ar eu pennau eu hunain ar adegau neu gyflenwi ar adegau o absenoldeb a gynlluniwyd i ganiatáu i staff addysgu gynllunio a marcio.

**Swyddog Adolygu Annibynnol** (SAA)

Mae'r Swyddog Adolygu Annibynnol (SAA) yn swyddogaeth statudol ym mhob awdurdod lleol. Rhaid i bob awdurdod lleol benodi Swyddog Adolygu Annibynnol ar gyfer yr holl Blant sy'n Derbyn Gofal y mae'r awdurdod yn gwybod amdanynt.

**Cynllun Datblygu Unigol** (IDP)

Cyfeirir ato weithiau fel y “cynllun” ac mae iddo'r ystyr a roddir gan adran 10 Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018t (y Ddeddf), sef dogfen sy'n cynnwys:

(a) disgrifiad o ADY person;

(b) disgrifiad o'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol y mae anhawster dysgu neu anabledd dysgu y person yn galw amdani;

(c) unrhyw beth arall sy'n ofynnol neu a awdurdodir gan neu o dan Ran 2 y Ddeddf.

**Gofalwr sy’n berthynas**

Mae gofalwr sy'n berthynas yn oedolyn sy'n gofalu am blentyn neu blant perthynas neu ffrind agos yn llawn amser.

**Cydlynydd Plant sy'n Derbyn Gofal mewn Addysg (LACE)**

Mae pob awdurdod lleol wedi cyflogi unigolyn i fod â chyfrifoldeb strategol dros anghenion addysgol plant sy'n derbyn gofal yn ardal yr awdurdod lleol. Mewn llawer o awdurdodau, cyfeiriwyd at y rôl hon fel arfer fel Cydlynydd Plant sy'n Derbyn Gofal mewn Addysg (LACE), ond gall eu teitl a'u hunion gyfrifoldebau amrywio ar draws pob awdurdod lleol unigol.

**Awdurdod Lleol**

Mae hyn yn cyfeirio at y cyngor perthnasol sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau llywodraeth leol mewn maes penodol e.e. iechyd, gofal cymdeithasol, addysg.

**Pobl nad ydynt mewn Cyflogaeth, Addysg na Hyfforddiant** (NEET)

Pobl ifanc 16 i 24 oed nad ydynt yn ymgysylltu ag unrhyw un o'r tri gweithgaredd hynny, sy'n golygu nad ydynt yn mynychu'r ysgol, yn gyflogedig nac yn cymryd rhan mewn hyfforddiant galwedigaethol.

**Canolbwyntio ar yr unigolyn**

Ffocws ar anghenion yr unigolyn ar sail amgylchiadau personol, gwerthoedd, anghenion a dewisiadau.

**Cynllun Addysg Personol** (PEP)

Rhaid i'r awdurdod lleol cyfrifol sicrhau bod gan bob plentyn sy'n derbyn gofal ganddo PEP effeithiol o ansawdd uchel. Cofnod o addysg a hyfforddiant y plentyn yw'r PEP. Dylai gofnodi'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt i'w helpu i gyflawni eu llawn botensial ac adlewyrchu (er nad oes angen iddo ddyblygu) unrhyw gynlluniau addysg presennol ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol. Gellir cyfeirio at PEPs rhithwir (lle mae gwybodaeth yn cael ei mewnbynnu ar-lein mewn llwyfan diogel) fel ePEPs.

**Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer plant sy'n derbyn gofal** (PDG-CLA)

Mae'r Grant Datblygu Disgyblion ar gael gan Lywodraeth Cymru i oresgyn y rhwystrau ychwanegol sy'n atal plant a phobl ifanc o gefndiroedd incwm isel rhag cyflawni eu llawn botensial. Mae'r Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal yn elfen benodol o'r Grant Datblygu Disgyblion sydd â'r bwriad o gefnogi cyrhaeddiad addysgol:

- plant sy'n derbyn gofal (CLA)
- plant sydd wedi cael eu mabwysiadu
- plant sy'n destun Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig (SGO).

**Uned Cyfeirio Disgyblion (PRU)**

Mae Uned Cyfeirio Disgyblion yn fath o ysgol sy'n cael ei sefydlu a'i chynnal gan awdurdod lleol i ddarparu addysg addas i blant a phobl ifanc na fyddant o bosibl, oherwydd salwch, gwaharddiad neu fel arall, yn cael addysg o'r fath mewn lleoliad prif ffrwd (adran 19 Deddf Addysg 1996).

**Rheoli Gwybodaeth Ysgolion** (SiMS)

Meddalwedd y mae ysgolion yn ei defnyddio i reoli amrywiaeth eang o wybodaeth, gan gynnwys cofnodion dysgwyr, presenoldeb ac asesiadau.

**Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig** (SGO)

Gorchymyn llys sy'n rhoi cyfrifoldeb rhiant i berson, perthynas yn aml, sy'n gofalu am blentyn nad yw'n gallu byw gyda'i rieni naturiol. Mae'r gorchymyn yn darparu lleoliad tymor hir cyfreithiol sicr a sefydlog i'r plentyn hyd nes y bydd yn 18 oed.

**Damcaniaeth Newid** (ToC)

Esboniad manwl o sut y disgwylir i ffactor rhyngol arwain at y canlyniadau a ddymunir.

**Dull Gweithredu sy’n Ystyriol o Drawma**

Mae dull gweithredu sy'n ystyriol o drawma yn cydnabod ac yn ystyried effaith eang adfyd a thrawma ac yn cydnabod bod gan bawb rôl o ran hwyluso cyfleoedd a chyfleoedd bywyd i'r rheini y mae trawma ac adfyd yn effeithio arnynt. Mae hefyd yn mabwysiadu ffyrdd o weithio sy'n atal ac yn helpu pobl i wella o adfyd a thrawma, a'u goresgyn

**CCUHP Hawliau'r Plentyn** (Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn)

Mae'n amlinellu hawliau sifil, gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol, iechyd a diwylliannol plant, gan gynnwys peidio â gwahaniaethu, buddiannau gorau plentyn, yr hawl i ofal iechyd ac addysg, ymysg llawer o hawliau eraill.

**Ysgol Rithwir (VS) / Model Ysgol Rithwir** (VSM)

Datblygwyd y dull Ysgol Rithwir i weithio gyda phlant sy'n derbyn gofal ac, mewn rhai achosion, pobl ifanc mewn darpariaeth ôl-16, fel pe baent mewn un ysgol ac i wella cyrhaeddiad addysgol, gwella presenoldeb a gwella sefydlogrwydd addysgol. Yn Lloegr,

mae'n gyfrifoldeb statudol ar bob awdurdod lleol i gael Pennaeth Ysgol Rithwir. Nid yw hyn yn wir yng Nghymru.

**Pennaeth Ysgol Rithwir** (VSH)

Mae eu rôl yn canolbwyntio ar wella canlyniadau addysgol plant sy'n derbyn gofal, sicrhau bod eu cynnydd yn cael ei fonitro, a bod eu cyfnod pontio i fod yn oedolion yn cael ei reoli. Mae'r VSH yn gweithredu fel gweithiwr proffesiynol blaenllaw, sy'n gyfrifol am ddatblygu a gweithredu strategaethau i wella profiadau addysgol plant sy'n derbyn gofal, gan gynnwys y rhai a leolir y tu allan i'w hawdurdod lleol gwreiddiol.

**System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS)**

Un system cofnodion iechyd a gofal cymdeithasol integredig sy'n helpu gwasanaethau cymdeithasol (oedolion a phlant) ac amrywiaeth o wasanaethau iechyd cymunedol (gan gynnwys iechyd meddwl, therapïau a nyrsio cymunedol) i sicrhau bod gofal a chymorth i unigolion, teuluoedd a chymunedau'n cael eu cynllunio, eu cydlynu a'u darparu'n fwy effeithiol.

Nodwch, os gwelwch yn dda, y bydd adroddiad technegol yn cael ei gyhoeddi maes o law a fydd yn cynnwys telerau ac amodau’r peilot, y model rhesymeg, y cwestiynau ymchwil, a'r canllawiau holi.

# 1. Cyflwyniad a chefndir

Ym mis Mawrth 2024, comisiynodd Llywodraeth Cymru Miller Research, mewn partneriaeth ag OB3 Research a Plant yng Nghymru, i gynnal gwerthusiad annibynnol o gyllid cynllun peilot Model Ysgolion Rhithwir (VSM). Nod y gwerthusiad oedd asesu a chymharu'r ffyrdd y defnyddiwyd y cyllid VSM gan awdurdodau lleol a oedd yn cymryd rhan yn y cynllun peilot i gefnogi plant sy'n derbyn gofal a phennu effeithiau cynnar y cyllid. Roedd y gwerthusiad hefyd yn archwilio'r dulliau o gefnogi plant sy'n derbyn gofal a ddefnyddiwyd gan awdurdodau lleol nad oeddent yn cymryd rhan yn y cynllun peilot VSM ac yn cyferbynnu'r rhain â'r dulliau a ddefnyddiwyd mewn awdurdodau lleol yn y cynllun peilot.

Nod y gwerthusiad llawn hwn yw rhoi cipolwg ar p'un a yw'r VSM yn fodel ymarferol o gymorth integredig i blant sy'n derbyn gofal yng Nghymru, ac ystyriaethau ar gyfer unrhyw gyflwyno cenedlaethol posibl. Gall canfyddiadau'r gwerthusiad hefyd lywio polisi ehangach Llywodraeth Cymru sydd â'r nod o wella canlyniadau addysgol plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru.

Prif bwrpas y gwerthusiad oedd:

- Sefydlu pa ddulliau gweithredu y mae pob awdurdod lleol sy'n derbyn cyllid VSM wedi'u rhoi ar waith, a sut roedd eu dull gweithredu'n cyd-fynd ag egwyddorion ac elfennau VSM.
- Cymharu natur ac effeithiolrwydd y dulliau a ddefnyddir gan awdurdodau lleol nad ydynt yn derbyn cyllid y cynllun peilot â'r rhai a sefydlwyd gan awdurdodau lleol yn y cynllun peilot.
- Archwilio effeithiau tymor byr a thymor hir disgwyliedig y dulliau gweithredu a fabwysiadwyd gan awdurdodau lleol yn y cynllun peilot ar randdeiliaid allweddol [troednodyn 1] - gan gynnwys ar blant sy'n derbyn gofal.
- Deall barn plant sy'n derbyn gofal.

## 1.1. Cefndir a chyd-destun

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wella canlyniadau addysgol i blant sy'n derbyn gofal. Fel rhan o'r ymrwymiad hwn, comisiynwyd Syr Alasdair Macdonald gan Lywodraeth Cymru i gynnal ymchwil cwmpasu rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2020 i sut y gellid defnyddio dull integredig i wella canlyniadau addysgol i blant sy'n derbyn gofal. Roedd yr adroddiad dilynol o'r ymchwil, 'Dull integredig o wella canlyniadau i blant sy'n derbyn gofal

[1] Plant sydd â phrofiad o ofal (gan gynnwys plant wedi'u mabwysiadu), rhieni mabwysiadol a gofalwyr maeth, arweinwyr ac athrawon ysgolion, swyddogion arweiniol awdurdodau lleol, swyddogion ehangach awdurdodau lleol, Consortia Rhanbarthol, a gweithwyr cymdeithasol

yng Nghymru,' yn cynnwys 5 argymhelliad; y cyntaf o'r argymhellion hyn oedd datblygu VSM i Gymru.

Yn y flwyddyn ganlynol, comisiynodd Llywodraeth Cymru IFF Research i gynnal ymchwil ddilynol i bob un o argymhellion adroddiad Syr Alasdair. Roedd hyn yn cynnwys archwilio strwythurau ac arferion presennol ar gyfer cefnogi canlyniadau addysgol plant sy'n derbyn gofal; barn rhanddeiliaid ar ddarpar VSM i Gymru a sut y gellid gweithredu model yng Nghymru; ac egwyddorion posibl i fod yn sail i ddull gweithredu integredig. Cyhoeddwyd yr adroddiad o'r ymchwil, 'Dull integredig o wella canlyniadau i blant sy'n derbyn gofal', ym mis Medi 2021 ac roedd yn cynnwys Damcaniaeth Newid ddrafft ar gyfer cynllun peilot arweinyddiaeth adferol, ochr yn ochr â nifer helaeth o argymhellion a oedd yn ceisio cefnogi canlyniadau addysgol plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru.

Mewn ymateb i ganfyddiadau'r ddau ymarfer ymchwil hyn, lansiodd Llywodraeth Cymru gynllun peilot VSM ym mis Mawrth 2021. Roedd pob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru yn gymwys i wneud cais am gyllid VSM o hyd at £100,000 fesul awdurdod lleol i'w ddosbarthu dros 2 flynedd (£40,000 ym mlwyddyn 1 a £60,000 ym mlwyddyn 2 [troednodyn 2]). Gwnaeth 13 awdurdod lleol gais llwyddiannus am gyllid drwy broses datganiad o ddiddordeb (EOI), a derbyniodd 12 ohonynt gyfanswm cyllid o £100,000 yr un. Derbyniodd un awdurdod lleol gyllid am y flwyddyn gyntaf ond ni wnaeth gais am gyllid yr ail flwyddyn. Yn ogystal, gwnaeth un awdurdod lleol gais am y cyllid ond ni fu eu cais yn llwyddiannus. Cynhaliwyd y cynllun peilot VSM rhwng mis Mawrth 2021 a mis Mawrth 2024. Yn ystod y cyfnod hwnnw, neilltuodd Llywodraeth Cymru gyfanswm o £1.24m ar draws yr holl awdurdodau lleol a oedd yn cymryd rhan. Cafodd rhai awdurdodau lleol eu 2 flynedd o gyllid rhwng 2021 a 2023, tra bod eraill wedi'i gael rhwng 2022 a 2024.

Yn 2023, cynhaliodd Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru ymarfer casglu tystiolaeth cychwynnol ar fewnwelediadau cynnar y cynllun peilot VSM yng Nghymru. Roedd hyn yn cynnwys adolygu data monitro’r cynllun peilot a oedd ar gael a chyfweliadau gydag arweinydd y cynllun peilot VSM mewn 4 awdurdod lleol yn y cynllun peilot. Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Ionawr 2024 ac roedd yn cynnwys nifer o argymhellion, gan gynnwys argymhellion ar gyfer gwerthusiad manylach o'r cynllun peilot VSM.

## 1.2. Ysgolion Rhithwir fel cysyniad

Daeth y cysyniad o Ysgolion Rhithwir (VS) yn Lloegr i'r amlwg ar ddechrau'r 2000au mewn ymateb i dystiolaeth bod plant sy'n derbyn gofal (neu ‘blant mewn gofal’, sef y term a ddefnyddiwyd bryd hynny) yn cyflawni canlyniadau addysgol sy'n gyson waeth na'u cyfoedion. Cydnabuwyd bod gan blant mewn gofal anfanteision sylweddol yn eu haddysg, gan gynnwys:

[2] Mewn gwirionedd, oherwydd oedi cyn cymeradwyo ceisiadau am gyllid ac oedi cyn rhoi gweithgarwch peilot VSM ar waith, gwariodd rhai awdurdodau lleol y grant cyfan o £100,000 ym Mlwyddyn 2.

- lefelau cyrhaeddiad is (er enghraifft, TGAU)
- cyfraddau uwch o waharddiadau parhaol a chyfnod penodol
- presenoldeb gwaeth na'u cyfoedion.

Mae achos sylfaenol yr anfantais hon yn deillio o amrywiaeth o ffactorau gan gynnwys symud lleoliadau maeth yn aml, gan arwain yn aml at newid ysgol; diffyg darpariaeth addas ar gyfer unrhyw anghenion dysgu ychwanegol (ADY); effeithiau trawma emosiynol; a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod a allai fod wedi digwydd cyn eu rhoi mewn gofal, yn ogystal â'r trawma sy'n gysylltiedig â chael eu tynnu oddi wrth eu teulu biolegol (ac, o bosibl, ffrindiau).

I gydnabod yr heriau y mae plant sy'n derbyn gofal yn eu hwynebu, cyflwynodd y llywodraeth yn Lloegr ymyriadau wedi'u targedu i fynd i'r afael â'u hanfantais addysgol. Dechreuodd VS fel mentrau lleol mewn rhai awdurdodau lleol yn Lloegr, cyn cael ei wreiddio'n ffurfiol mewn deddfwriaeth. Yn dilyn cynllun peilot llwyddiannus ddiwedd y 2000au, creodd Deddf Plant a Theuluoedd 2014 gyfrifoldeb statudol i bob awdurdod lleol yn Lloegr gael 'Pennaeth Ysgol Rithwir' (VSH).

Roedd yr ymyriad polisi hwn yn nodi newid yn y ffordd yr oedd polisi'r llywodraeth yn ceisio mynd i'r afael â'r heriau addysgol y mae plant sy'n derbyn gofal yn eu hwynebu, drwy greu rôl benodol i hyrwyddo eu hanghenion ar draws y system addysg a thu hwnt.

Mae rôl y VSH yn Lloegr yn cynnwys:

- goruchwylio cynnydd addysgol yr holl blant sy'n derbyn gofal o dan ofal eu hawdurdod lleol, ni waeth ble mae'r plentyn yn cael ei leoli neu ei addysgu
- sicrhau bod Cynlluniau Addysg Personol (PEP) ar waith a'u bod o ansawdd uchel
- monitro cynnydd academaidd a phresenoldeb
- lleihau gwaharddiadau
- hwyluso mynediad at gymorth addysgol wedi'i dargedu.

Mae VSHs yn Lloegr hefyd yn gweithio'n agos gydag 'Athrawon Dynodedig' mewn ysgolion [troednodyn 3], gweithwyr cymdeithasol, gofalwyr maeth a rhanddeiliaid eraill i sicrhau dull amlddisgyblaethol o gynllunio a chefnogi addysg.

Dros amser, mae cylch gwaith y VS wedi ehangu yn Lloegr, yn yr un modd â rolau pob VSH. Yn 2018, roedd canllawiau statudol yn ymestyn cyfrifoldebau cynghori i "Plant Sydd Wedi Derbyn Gofal". Yn y canllawiau hyn, rhestrwyd y VSH fel ffynhonnell allweddol o gyngor a gwybodaeth i helpu rhieni maeth a rhanddeiliaid perthnasol eraill i eirioli dros blant sy'n derbyn gofal mor effeithiol â phosibl.

---

[3] Mae athro dynodedig yn aelod dynodedig o staff sy'n gyfrifol am hyrwyddo cyflawniad addysgol plant sy'n derbyn gofal ac wedi derbyn gofal (h.y. plant sydd â phrofiad o ofal) ym mhob ysgol yn Lloegr. Rhaid i'r person hwn fod yn athro cymwysedig, yn bennaeth neu'n bennaeth dros dro.

Yn 2021, roedd canllawiau pellach gan yr Adran Addysg (DfE) wedi aseinio VSHs â rôl strategol o ran cefnogi pob plentyn sydd â gweithiwr cymdeithasol (h.y. nid dim ond y rheini sy'n blant sy'n derbyn gofal), gan gydnabod bod y plant hyn yn aml yn wynebu risgiau tebyg o ran canlyniadau addysgol gwael oherwydd gwendidau diogelu. Llwyddodd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol i ymestyn rôl eu VSH penodedig yn unol â'r canllawiau hyn, gydag ymgysylltiad cadarnhaol gan ysgolion a gweithwyr gofal cymdeithasol proffesiynol.

Yn yr Alban, sefydlwyd yr Ysgol Rithwir gyntaf yn 2015 yn Aberdeen. Cafodd ehangu i awdurdodau lleol eraill ei alluogi drwy lansio Cronfa Plant a Phobl Ifanc sydd â Phrofiad o Ofal (CECYP) Llywodraeth yr Alban yn 2018. Mae'r canllawiau cyllido yn cyfarwyddo y dylid cefnogi'r garfan gyfan o bobl ifanc sydd â phrofiad o ofal, gan gynnwys pobl ifanc a fabwysiadwyd a phobl ifanc eraill rhwng 0 a 26 oed a oedd wedi derbyn gofal. Nid yw rôl VSHT (Pennaeth Ysgol Rithwir) wedi'i mandadu'n gyfreithiol fel y mae yn Lloegr; fodd bynnag, fe'i harweinir gan fframwaith VSHT penodol y gellir ystyried ei fod wedi esblygu mewn partneriaeth rhwng y llywodraeth ac awdurdodau lleol. Mae hyn wedi cael ei alluogi drwy rannu ymarfer a dylanwadau polisi cenedlaethol (e.e.: dyletswyddau rhianta corfforaethol a The Promise, 2020), a oedd yn galw am gymorth sy'n ystyriol o drawma ac sy'n canolbwyntio ar y plentyn ar draws systemau addysg a gofal.

### 1.2.1. Effeithiolrwydd VSM yn Lloegr a'r Alban

Mae tystiolaeth ymchwil bresennol (Harrison et al. (2023), Sebba et al.(2022) yn awgrymu bod VS wedi gwella atebolrwydd, wedi codi disgwyliadau, ac wedi arwain at gydlynu cymorth addysgol yn well i blant sy'n derbyn gofal (ac mewn rhai achosion, plant eraill sy'n agored i niwed) yn Lloegr ac yn yr Alban. Mae'r canlyniadau allweddol a welwyd yn cynnwys presenoldeb gwell yn yr ysgol, mwy o sefydlogrwydd mewn lleoliadau ysgol, ac enillion cynyddrannol mewn cyrhaeddiad academaidd ymhlith plant sy'n derbyn gofal. Mae VS hefyd wedi bod yn ganolog wrth leihau gwaharddiadau a sicrhau cynllunio effeithiol ar gyfer pontio rhwng cyfnodau addysgol allweddol, fel mynd i'r ysgol gynradd a phontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.

Canfuwyd bod gweithgareddau fel mentora, hyfforddiant sy'n ystyriol o drawma, a Chynlluniau Addysg Personol (PEP) gwell wedi cyfrannu at ganlyniadau gwell. Ystyriwyd bod y ffactorau sy'n arwain at VS effeithiol yn cynnwys arweinyddiaeth strategol gref, VSH â digon o adnoddau, defnydd cadarn o ddata a chydweithio ystyrlon rhwng asiantaethau.

### 1.2.2. Cwmpas y cyllid

Mae ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gefnogi plant sy'n derbyn gofal yn cynnwys plant sydd â phrofiad o ofal, gan gynnwys y rhai sydd wedi pontio o ofal drwy fabwysiadu a gwarcheidiaeth, drwy'r gronfa PDG-CLA (Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer dysgwyr sydd â phrofiad o ofal[4]). Bwriad penodol y ffrwd ariannu hon yw cefnogi'r garfan lawn o ddysgwyr sydd â phrofiad o ofal yng Nghymru, y rhai sydd mewn gofal ar hyn o bryd a'r rhai a oedd mewn gofal yn flaenorol.

[4]Mae rhagor o wybodaeth am gyllid PDG-CLA ar gael yn 2.2.1

Nod y cynllun peilot VSM oedd darparu tystiolaeth o wahanol ddulliau y gellir eu defnyddio i gefnogi pob plentyn sydd â phrofiad o ofal mewn addysg. Fodd bynnag, dylid nodi bod y gwerthusiad hwn wedi canfod bod gweithredu lleol wedi canolbwyntio'n bennaf ar blant sy'n derbyn gofal ar hyn o bryd. Edrychir yn fanylach ar hyn yn yr adran canfyddiadau.

# 2. Methodoleg

## 2.1. Dull Gweithredu

Nod y gwerthusiad oedd deall sut y defnyddiodd pob un o'r awdurdodau lleol yn y cynllun peilot gyllid VSM i gefnogi canlyniadau addysgol plant sy'n derbyn gofal ac i gofnodi rhai o effeithiau cynnar y cyllid yn yr ardaloedd hyn. Roedd y gwerthusiad hefyd yn ceisio archwilio'r dulliau a ddefnyddiwyd gan awdurdodau lleol na chawsant y cyllid. Yn Dull integredig o wella canlyniadau addysgol i blant sy'n derbyn gofal yng Nghymru, nododd Syr Alasdair Macdonald fod "amrywiad sylweddol mewn ymarfer o [awdurdod lleol] i [awdurdod lleol] a ... mae llawer o'r amrywiad hwn yn deillio o'r gwahanol strwythurau y mae'r LACEs[5] yn gweithredu oddi mewn iddynt." Felly, roedd yn bwysig bod y gwerthusiad yn cyfleu darlun cynhwysfawr o'r ffyrdd amrywiol y mae pob awdurdod lleol yng Nghymru yn cefnogi plant sy'n derbyn gofal, er mwyn deall gwerth cymharol y cymorth ychwanegol a ddarperir drwy gyllid VSM. Ar ben hynny, roedd y dystiolaeth gan awdurdodau lleol nad oeddent yn cymryd rhan yn darparu mesur ansoddol o'r sefyllfa wrthffeithiol; hynny yw, yr hyn a ddigwyddodd yn absenoldeb cyllid VSM.

Bwriad canfyddiadau'r gwerthusiad yw llywio penderfyniadau Llywodraeth Cymru ynghylch a yw VSM yn fodel ymarferol o gymorth integredig i blant sy'n derbyn gofal yng Nghymru ac a ddylid ei gyflwyno ar lefel genedlaethol. Gellir defnyddio'r canfyddiadau hefyd i lywio polisi ehangach Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â gwella canlyniadau addysgol plant sy'n derbyn gofal.

Ehangwyd diben cyffredinol y gwerthusiad i 16 cwestiwn ymchwil (gweler atodiad C, adroddiad technegol). Er mwyn bodloni gofynion y briff ac ateb y cwestiynau ymchwil hyn, defnyddiodd y gwerthusiad ddull Damcaniaeth Newid yn seiliedig ar Lyfr Magenta Trysorlys EF gan archwilio:

- mewnbynnau (h.y.: nodau ac amcanion polisi'r VSM, adnoddau, sgiliau ac ati)
- gweithgareddau (e.e.: datblygu arferion newydd/gwell sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ifanc, rhannu data rhwng rhanddeiliaid, trefniadau rheoli a monitro ac ati)
- effeithiau (h.y. canlyniadau tymor byr a thymor canolig fel presenoldeb gwell yn yr ysgol a mwy o hunan-barch ymysg plant sy'n derbyn gofal yn ogystal â chyfraniad at effeithiau tymor hwy, e.e.: cyrchfannau ôl-addysg gwell).

Datblygwyd y Ddamcaniaeth Newid o ganfyddiadau'r cam cwmpasu ac fe'i hysbyswyd gan y Ddamcaniaeth Newid ar gyfer cynllun peilot arweinyddiaeth adferol a gynhwyswyd yn y ddogfen Dull integredig o wella canlyniadau i blant sy'n derbyn gofal. Roedd adolygiad desg cychwynnol yn ymdrin ag ymchwil berthnasol a gomisiynwyd yn flaenorol gan Lywodraeth Cymru, telerau ac amodau'r grant ar gyfer 2022 i 2023 a 2023 i 2024, datganiadau o ddiddordeb gan 4 awdurdod lleol peilot, cynlluniau gweithredu ar gyfer 3 awdurdod peilot a

[5]Mae pob awdurdod lleol wedi cyflogi unigolyn i fod â chyfrifoldeb strategol dros anghenion addysgol plant sy'n derbyn gofal yn ardal yr awdurdod lleol. Mewn rhai awdurdodau, cyfeirir at hyn fel Cydlynydd Plant sy'n Derbyn Gofal mewn Addysg, ond gall eu teitl a'u hunion gyfrifoldebau amrywio ar draws pob awdurdod lleol unigol.

data monitro cryno ar gyfer blwyddyn ariannol 2022 i 2023 ar gyfer 12 o'r 13 awdurdod lleol peilot.

Yn dilyn yr adolygiad hwn o ddogfennau, cynhaliwyd cyfweliadau cwmpasu gydag 11 o randdeiliaid strategol yn seiliedig ar eu gwybodaeth am gyd-destun a chefndir y cynllun peilot VSM, gan gynnwys:

- pedwar gyda swyddogion Llywodraeth Cymru
- un gyda'r Rhwydwaith Maethu
- un gyda Adoption UK
- un gyda Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru
- un gyda Chonsortiwm Rhanbarthol
- un gyda Syr Alasdair Macdonald.

Defnyddiwyd model rhesymeg i gyfleu'r Ddamcaniaeth Newid. Trafodwyd y model rhesymeg hwn gydag aelodau'r Grŵp Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc sydd â Phrofiad o Ofal (a elwir o hyn ymlaen yn NDG) ac fe'i haddaswyd wedi hynny. Mae'r model terfynol, a oedd yn cynnwys yr adborth gan yr NDG, wedi'i gynnwys yn Atodiad B, adroddiad technegol. Datblygwyd fframwaith gwerthuso a oedd yn mapio adrannau o'r model rhesymeg i gwestiynau ymchwil perthnasol ar gyfer pob grŵp rhanddeiliaid (arweinwyr cynllun peilot VSM mewn ardaloedd peilot, Cydlynwyr LACE/yr hyn sy'n cyfateb mewn ardaloedd nad ydynt yn rhan o'r cynllun peilot, rhanddeiliaid eraill mewn ardaloedd peilot, rhanddeiliaid eraill mewn ardaloedd nad ydynt yn rhan o'r cynllun peilot a phlant sy'n derbyn gofal mewn ardaloedd peilot a'r ardaloedd nad ydynt yn rhan o'r cynllun peilot). Yna, cafodd y cwestiynau ymchwil hyn eu hehangu i 6 chanllaw pwnc ar gyfer y prif gamau gwaith maes. Roedd y canllawiau pwnc hyn ar gyfer:

- Arweinwyr cynllun peilot VSM mewn ardaloedd peilot
- Cydlynwyr LACE/yr hyn sy’n gyfatebol mewn ardaloedd nad ydynt yn rhan o'r cynllun peilot,
- rhanddeiliaid eraill yn ardaloedd peilot yr astudiaethau achos
- rhanddeiliaid eraill mewn ardaloedd nad ydynt yn rhan o'r astudiaeth achos
- Rhieni a gofalwyr sy'n mabwysiadu mewn ardaloedd peilot astudiaeth achos
- Plant sy’n Derbyn Gofal.

Mae canllawiau pwnc a chwestiynau ymchwil a ddefnyddiwyd ar gyfer y gwerthusiad yn cael eu rhannu yn Atodiad D yr adroddiad technegol.

Roedd y dull gwerthuso yn cynnwys 2 gam o ymchwil ansoddol, sylfaenol. Defnyddiwyd dulliau ansoddol, o ystyried ystod a chymhlethdod y dulliau a ddefnyddiwyd i gefnogi plant

sy'n derbyn gofal, a oedd i gyd yn cael eu cyflwyno mewn amrywiaeth o gyd-destunau gwahanol. Byddai wedi bod yn anymarferol casglu'r adborth cynnil hwn drwy ddulliau meintiol, er enghraifft arolwg.

Roedd cam cyntaf y gwaith maes yn cynnwys cyfweliadau gyda'r unigolyn 'arweiniol' mwyaf priodol ar addysg plant sy'n derbyn gofal ym mhob un o'r 22 awdurdod lleol, er enghraifft y cydlynydd LACE / swydd gyfatebol neu'r VSH (lle'r oedd y rhain yn bodoli)[troednodyn 6]. Roedd dwy brif swyddogaeth i'r cyfweliadau hyn:

- casglu dealltwriaeth fanwl o'r canlynol:
    - y ffordd y defnyddiwyd arian y cynllun peilot, a chyd-destun ei ddarparu (yn achos awdurdodau lleol yn y cynllun peilot)
    - y dull presennol o gefnogi addysg plant sy'n derbyn gofal (yn achos awdurdodau lleol nad ydynt yn rhan o'r cynllun peilot).
- archwilio gallu o fewn yr awdurdod lleol i gymryd rhan yn ail gam y gwaith maes.

Roedd ail gam yr ymchwil yn cynnwys cyfweliadau ag amrywiaeth o wahanol randdeiliaid mewn sampl o awdurdodau lleol peilot a rhai nad oeddent yn rhan o'r cynllun peilot. Roedd sampl (gweler Atodiad E, adroddiad technegol) yr awdurdodau lleol ar gyfer gwaith maes yr astudiaeth achos hon yn cynnwys cymysgedd o boblogaethau trefol/gwledig, gwahanol lefelau o amddifadedd, ac awdurdodau lleol gyda niferoedd uchel ac isel o blant yn derbyn gofal ledled Cymru. Roedd yr awdurdodau peilot a gynhwyswyd yn sampl yr astudiaeth achos (8 allan o 11) yn cwmpasu pob un o'r gwahanol ffyrdd y defnyddiwyd yr arian peilot (gweler Pennod 3.1 isod).

Ym mhob un o'r 11 ardal awdurdod lleol a oedd yn rhan o'r ymchwil astudiaeth achos, cynhaliodd y gwerthuswyr gyfweliadau un-i-un a chyfweliadau mewn grwpiau bach gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid. Gwnaed hyn i greu darlun o'r hyn sy'n cael ei wneud ym mhob awdurdod lleol (naill ai gyda chyllid peilot neu hebddo) i gefnogi addysg plant sy'n derbyn gofal o amrywiaeth o safbwyntiau gwahanol, gan gynnwys gweithwyr proffesiynol mewn ysgolion, adrannau addysg awdurdodau lleol a gwasanaethau cymdeithasol plant, yn ogystal â gofalwyr maeth. Gan fod y dulliau o gefnogi addysg plant sy'n derbyn gofal a'r rolau a'r swyddogaethau sy'n gysylltiedig â'r dulliau hyn yn amrywio ar draws yr awdurdodau lleol, nodwyd rhanddeiliaid perthnasol ar y cyd â'r arweinydd addysg plant sy'n derbyn gofal (h.y.: VSH / Cydlynydd LACE / cyfatebol). Cynhaliwyd y rhan fwyaf o gyfweliadau o bell drwy MS Teams, er eu bod wedi cael eu cynnal wyneb yn wyneb mewn nifer fach o achosion. Recordiwyd cyfweliadau (lle rhoddwyd caniatâd) a chymerwyd nodiadau gan y cyfwelydd. Yna defnyddiwyd y trawsgrifiad (lle roedd ar gael) a'r nodiadau yn y dadansoddiad.

[6] Roedd hyn yn cynnwys ardaloedd peilot a benododd VSH/rôl strategol gyfatebol fel rhan o gynllun peilot VSM (4), ardaloedd peilot a oedd eisoes â VSH cyn y cynllun peilot (1) ac ardaloedd nad oeddent yn rhan o'r cynllun peilot a oedd â VSH (1).

Dyma ardaloedd peilot yr astudiaeth achos:

- Ynys Môn
- Blaenau Gwent
- Caerdydd
- Casnewydd
- Powys
- Rhondda Cynon Taf
- Bro Morgannwg
- Wrecsam

Yr ardaloedd nad oeddent yn rhan o'r cynllun peilot yn yr astudiaeth achos oedd:

- Sir y Fflint
- Merthyr Tudful
- Sir Benfro

Ar draws yr 11 ardal beilot, cyfwelwyd â chyfanswm o 89 o randdeiliaid.

Gwahoddwyd pob ardal astudiaeth achos i gydlynu grwpiau o blant sy'n derbyn gofal yn eu hawdurdodau lleol, a fyddai'n gyfforddus yn rhannu eu profiadau â Phlant yng Nghymru i lywio'r gwerthusiad hwn. Dim ond 3 awdurdod lleol oedd yn gallu cydlynu grwpiau dysgwyr; Merthyr Tudful, Sir Benfro a Phowys. Roedd y plant a oedd yn derbyn gofal a gymerodd ran yn yr ymchwil o oedran ysgol uwchradd, gyda'r dysgwyr hynaf yn dechrau mewn ac yn derbyn addysg ôl-16.

Cyfrannodd cyfanswm o 24 o blant sy'n derbyn gofal at y gwerthusiad.

### 2.1.1. Dadansoddiad

Dadansoddwyd data ansoddol o'r gwaith maes gan ddefnyddio techneg Dadansoddi Templed Thematig, gan gynnal y broses godio â llaw gan ddefnyddio Miro i ddatblygu templed cychwynnol i nodi themâu allweddol (e.e.: 'mynediad at ddata', 'llais y dysgwr' a 'chydweithio'). Nodwyd themâu ac is-themâu ychwanegol yn ystod y broses o ychwanegu data cyfweliad at y templed. Ni ddefnyddiwyd unrhyw offeryn AI yn y dadansoddiad. Bu i ddau ymchwilydd godio sampl gychwynnol o nodiadau cyfweliad a thrawsgrifiadau yn annibynnol, gan drefnu'r data'n gyfres o fyrddau gweledol neu 'fapiau meddwl' gan ddefnyddio meddalwedd Miro. Roedd y byrddau hyn wedi'u strwythuro o amgylch themâu allweddol a chwestiynau ymchwil, gyda mapiau unigol yn cael eu creu ar gyfer pob ardal awdurdod lleol, yn ogystal â mapiau thematig ar wahân a oedd yn casglu tystiolaeth ar draws pob ardal awdurdod lleol.

## 2.2. Cyfyngiadau a heriau

Gan fod y gwaith maes yn gwbl ansoddol, roedd maint y samplau'n gymharol fach, yn enwedig o'u dadansoddi yn ôl grŵp rhanddeiliaid (er enghraifft athrawon). Felly, nid yw'n bosibl dod i gasgliadau mesuradwy ar sail y dystiolaeth a gasglwyd. Ar ben hynny, gan fod pob awdurdod lleol peilot wedi cynllunio ei ddull peilot ar sail cyd-destunau a blaenoriaethau lleol, prin yw'r gymhariaeth uniongyrchol bosibl rhwng awdurdodau lleol, ac nid yw'r rhai nad ydynt yn gynlluniau peilot yn ffurfio gwir sefyllfa wrthffeithiol empirig oherwydd nad ydynt yn grŵp rheoli cadarn. Roedd her ychwanegol i'r gwerthusiad yn ymwneud â phriodoli canlyniadau; mae'r rhan fwyaf o'r gwaith a wnaed drwy'r cynlluniau peilot (a'r manteision a ddaeth yn sgil hyn) wedi cael ei alluogi gan weithgareddau a ariannwyd o ffynonellau eraill - naill ai o ran systemau a rolau a oedd eisoes ar waith cyn y cynllun peilot neu brosesau neu swyddogaethau newydd a gyflwynwyd ar adeg debyg ond a ariannwyd o ffynhonnell arall. Trafodir y mater hwn mewn perthynas â'r Grant Datblygu Disgyblion yn benodol yn fanylach isod. Disgrifir goblygiadau'r mater hwn o ran cyflwyno'r cynlluniau peilot yn adran 3.

Her arall i'r gwerthusiad fu diffyg dangosyddion monitro wedi'u diffinio ymlaen llaw ar gyfer y cynlluniau peilot (gan gynnwys mesurau llinell sylfaen), i wneud asesiadau meintiol cadarn o effeithiau'r cyllid peilot. Roedd hwn yn fater a nodwyd yn yr ymchwil casglu tystiolaeth gychwynnol ac roedd yn sail i argymhelliad penodol ar fonitro cynnydd cynlluniau peilot.[troednodyn 7] Mae hyn wedi arwain at y gwerthusiad yn canolbwyntio ar ganfyddiadau ansoddol o adborth gan randdeiliaid ac, ar gyfer rhai canfyddiadau, mae mwy o ffocws yn cael ei roi ar rai ardaloedd awdurdodau lleol o'u cymharu ag eraill, ar sail faint o fanylion a ddarparwyd gan randdeiliaid yn ystod cyfweliadau.

Nid yw maint y gwaith maes yn unffurf ar draws yr holl awdurdodau lleol, gan adlewyrchu'r amrywiaeth o ddulliau peilot a natur archwiliadol yr ymchwil. Roedd argaeledd rhanddeiliaid yn amrywio ac yn aml nid oedd rolau rhanddeiliaid yn cwmpasu'r un cyfrifoldebau, gan fod y rhain yn cael eu siapio gan gyd-destun lleol. Felly, nid yw'r ddarpariaeth o ran mathau o randdeiliaid yn gyson ar draws pob maes. Nid yw'r adroddiad hwn yn priodoli adborth rhanddeiliaid yn uniongyrchol i'r 11 awdurdod lleol nad ydynt yn rhan o'r astudiaethau achos, er mwyn sicrhau bod y nifer fach o randdeiliaid sy'n cymryd rhan (yn aml 1-2 o randdeiliaid arweiniol fesul awdurdod lleol) yn aros yn ddienw mewn ardaloedd nad ydynt yn rhan o'r astudiaeth achos.

Mae natur bod yn rhan o'r ymchwil astudiaethau achos - sy'n berthnasol i'r 11 awdurdod lleol arall - hefyd yn golygu ei bod yn anochel bod mwy o adborth yn yr adroddiad hwn o ardaloedd yr astudiaethau achos.

Roedd yr amserlen ar gyfer y cynllun peilot, a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2024, pryd y dechreuodd y gwerthusiad, yn golygu nad oedd rhanddeiliaid a oedd yn rhan o'r cynllun peilot yn eu swyddi mwyach a/neu nad oeddent ar gael i'w cyfweld.

[7] Yn benodol: “Dylid datblygu un set o ddogfennau monitro ar gyfer awdurdodau lleol i fonitro cynnydd gweithredu'r Model Ysgolion Rhithwir yn gliriach ac yn fwy cywir yn amodol ar unrhyw werthusiad pellach o'r cynllun peilot.”

Roedd nifer y plant sy'n derbyn gofal a rhieni/gofalwyr mabwysiadol a gymerodd ran yn yr ymchwil yn is na'r disgwyl. Canfu'r gwerthusiad y teimlwyd bod y 'gofyniad' ychwanegol i awdurdodau lleol gysylltu ag ysgolion a chydlynu grwpiau dysgwyr, yn ogystal â gwahodd rhieni a gofalwyr mabwysiadol i ymgysylltu, yn feichus, ochr yn ochr â chwblhau cyfweliadau â rhanddeiliaid. Er mai nod y gwerthusiad oedd cynnal y gwaith maes fesul cam fel y byddai cyfweliadau â gweithwyr proffesiynol yn cael eu cwblhau yn gyntaf, ac yna trefnu gwaith maes ehangach, roedd blaenoriaethau a llwythi gwaith a oedd yn cystadlu â'i gilydd yn cynhyrchu dull mwy addasol ar gyfer tua hanner yr ardaloedd astudiaeth achos a ddewiswyd.

### 2.2.1. Dadgyfuno ffrydiau ariannu

Un o'r heriau canolog a wynebwyd wrth werthuso'r cynllun peilot VSM oedd datgysylltu defnyddiau penodol - ac effaith - cyllid cynllun peilot VSM o ffynonellau cyllid eraill, gan gynnwys y Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal (cyllid PDG-CLA) a chyllid craidd awdurdodau lleol. Mae dyraniad y Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal yn seiliedig ar nifer y plant a'r bobl ifanc 3-15 oed cymwys sydd yng ngofal yr awdurdod lleol o Gyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal y flwyddyn flaenorol. Bwriad gwariant PDG-CLA yw:

- rhoi budd i blant sy'n derbyn gofal ac sydd â phrofiad o ofal (e.e. dysgwyr sydd wedi'u mabwysiadu a'r rhai sydd dan drefniant Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig),
- cefnogi cynwysoldeb ac addysg deg, gyda chyllid ar gyfer clystyrau o ysgolion a lleoliadau i feithrin capasiti a darparu ymyriadau pwrpasol,
- sicrhau dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n seiliedig ar farn dysgwyr.[8]

Mae'r cyllid yn cael ei dderbyn gan awdurdodau lleol, sy'n gyfrifol am ystyried sut y gellir defnyddio'r grant yn effeithiol i gynllunio, gosod targedau ar gyfer dysgwyr a chefnogi dysgwyr sy'n derbyn gofal ac sydd â phrofiad o ofal. Gall awdurdodau lleol ddewis naill ai drosglwyddo'r holl gyllid i ysgolion, lleoliadau a chlystyrau; cadw rhywfaint o'r cyllid ar gyfer gweithgareddau sydd o fudd i grŵp penodol (neu'r cyfan) o blant yr awdurdod sy'n derbyn gofal; neu gadw rhannau o'r cyllid i gyflogi swyddi fel cydlynwyr plant sy'n derbyn gofal awdurdodau lleol neu ranbarthol.

Mae'r canllawiau presennol yn nodi'r 'disgwyliad' y gellir parhau i ddefnyddio cyllid y Grant Datblygu Disgyblion i dalu'r costau sy'n gysylltiedig â chydlynu a goruchwylio'r Grant Datblygu Disgyblion yn strategol.

Gan fod gan y ddwy gronfa amcanion tebyg, a'u bod yn mynd ati'n fwriadol i ddefnyddio strwythurau cyllido hyblyg, mae dadgyfuno'r defnydd o gyllid cynllun peilot VSM o wariant PDG-CLA wedi bod yn heriol drwy gydol y gwerthusiad. Mae anghysondeb y mecanweithiau monitro ac adrodd hefyd yn cyfyngu ar y gallu i olrhain rhwng y ddwy ffrwd ariannu, gan ei gwneud yn anodd pennu llwyddiant y cronfeydd unigol yn annibynnol.

[7] Trosolwg o'r Grant Datblygu Disgyblion (PDG)

Ar ben hynny, mae'r amrywiad mewn dulliau awdurdodau lleol (boed yn awdurdodau peilot ai peidio) wedi creu heriau yn yr ymarfer gwerthuso wrth geisio ynysu effeithiau'r cyllid peilot. Mae gwaith maes yn helpu i ddangos hyn, gan fod ffactorau fel asedau neu seilwaith presennol, staffio a chyd-destun lleol wedi dylanwadu ar benderfyniadau i naill ai integreiddio'r model mewn systemau presennol, neu i ddatblygu dulliau newydd.

# 3. Canfyddiadau

## 3.1. Sut mae Cyllid Ysgolion Rhithwir wedi'i ddefnyddio

### 3.1.1. Dyrannu cyllid y cynllun peilot

Gan fyfyrio ar y defnydd o gyllid peilot VSM ar ôl cwblhau, nododd y gwerthusiad bedwar model gwahanol a fabwysiadwyd ar draws yr 13 awdurdod lleol peilot, yn benodol:

- 4 awdurdod lleol a greodd VSH neu rôl strategol gyfatebol (Powys, Rhondda Cynon Taf, Caerdydd, Ynys Môn
- 4 awdurdod lleol a greodd swyddi gweithredol ychwanegol i gyflawni amrywiaeth o swyddogaethau ar sail cyfnod penodol, gan gynnwys darparu hyfforddiant i ymarferwyr ysgolion, creu a chynnal system ddata newydd a darparu cymorth yn uniongyrchol i blant sy'n derbyn gofal (Wrecsam, Blaenau Gwent, Casnewydd, Sir Gaerfyrddin)
- 3 awdurdod lleol a fuddsoddodd mewn system ePEP (Castell-nedd Port Talbot, Bro Morgannwg, Abertawe)
- 2 awdurdod lleol a oedd yn bwriadu penodi VSH ond nad oeddent wedi gwneud hyn yn ymarferol (Gwynedd, Conwy) - mewn un achos defnyddiwyd y cyllid i ôl-lenwi swyddi presennol a fyddai, gyda'i gilydd, yn cyflawni rôl y VSH, gyda'r bwriad o benodi VSH yn y dyfodol. Yn yr achos arall, tynnodd yr awdurdod lleol yn ôl o'r peilot i bob pwrpas.

Un her allweddol i'r gwerthusiad oedd diffyg data monitro peilot manwl a oedd yn cynnwys dadansoddiad o sut roedd y cyllid wedi cael ei ddefnyddio, a oedd yn fater a nodwyd yn y gwaith casglu tystiolaeth cychwynnol (Llywodraeth Cymru, 2024, t. 12). Roedd rhanddeiliaid y cynllun peilot hefyd yn cydnabod diffyg eglurder ynghylch gwariant: "Mae'n ddryslyd sut mae pobl wedi defnyddio'r arian. Hyd yn oed wrth ddadansoddi ein defnydd ni, mae mor anniben."

Gwaethygwyd y broblem hon gan y ffaith bod cyllid y cynllun peilot, mewn llawer o achosion, wedi cael ei ddefnyddio i ategu rolau a swyddogaethau presennol a oedd yn cael eu hariannu drwy ffynonellau eraill, neu ffrydiau cyllido eraill (PDG-CLA fel arfer neu fuddsoddiad o gyllideb graidd awdurdodau lleol, fel addysg neu wasanaethau plant neu gyfuniad o'r ddau). Dyrannwyd y rhain ochr yn ochr â chyllid VSM gan Lywodraeth Cymru i roi'r cynllun peilot ar waith. Mewn rhai awdurdodau lleol, defnyddiwyd cyfran o'r cyllid VSM i ôl-lenwi rolau uwch presennol, er mwyn eu galluogi i gymryd rhan yn y cynllun peilot, er enghraifft mewn rhinwedd oruchwylio neu i ddadansoddi data.

Roedd Caerdydd yn enghraifft lle cafodd cyllid ar wahân ei gynnwys yn y model peilot; yn ogystal â'r VSH (a ariannwyd yn rhannol gan y cynllun peilot VSM), defnyddiwyd cyllid craidd awdurdodau lleol i dalu costau cyflog rheolwr tîm ychwanegol, gweithiwr cymorth busnes, swyddog gwaith achos ac athro arbenigol a oedd yn goruchwylio ADY.

Fel y dywedodd un rhanddeiliad lleol: "allwch chi ddim dweud bod y cynllun peilot wedi ariannu'r tîm cyfan. Mae'r cynllun peilot wedi ariannu pennaeth yn rhannol."

Mewn awdurdodau lleol eraill, roedd rhai aelodau o'r tîm a oruchwyliwyd gan y VSH eisoes yn eu swyddi cyn y cynllun peilot a ffurfio'r VSM. Yn Rhondda Cynon Taf, er enghraifft, cafodd y swydd VSH ei hariannu'n rhannol drwy'r cynllun peilot, ac roedd y tîm VS ehangach yn cynnwys cydlynydd addysg ar gyfer plant sydd â phrofiad o ofal, gweithiwr cymorth i blant sydd â phrofiad o ofal, seicolegydd addysg arbenigol ar gyfer plant sydd â phrofiad o ofal a chynorthwyydd gweinyddol.

Am amryw o resymau, dewisodd llawer o'r awdurdodau lleol peilot beidio â phenodi VSH.  Roedd hyn yn cynnwys:

- pryder ynghylch dyblygu rolau presennol, yn enwedig y cydlynydd LACE / cyfatebol,
- ansicrwydd ynghylch sut y gellid ariannu rôl VSH yn barhaol o ystyried natur tymor byr y cyllid,
- amheuon ynghylch gwerth buddsoddi mewn rôl strategol yn hytrach na defnyddio'r adnodd i ddarparu gweithgarwch ymarferol (er enghraifft, hyfforddi'r person dynodedig ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn yr ysgol, neu fentora un-i-un i ddysgwyr).

Mae'r farn uchod wedi'i chyfleu yn y sylw canlynol gan randdeiliad: “defnyddiwyd cyllid [cynllun peilot VSM] gennym i roi hwb i'r tîm sy'n cynnig cymorth yn uniongyrchol i ddysgwyr CLA. Cafodd hyn effaith enfawr, ac roedd yn fwy buddiol yn fy marn i na chael rhywun mewn rôl gefn swyddfa.”

Roedd enghreifftiau o fuddsoddi mewn rolau mwy gweithredol yn amlwg yn y canlynol:

- Blaenau Gwent: defnyddiwyd arian peilot, ymhlith pethau eraill, i benodi 2 weithiwr cymorth addysg a oedd yn ymgysylltu â phlant sy'n derbyn gofal a'u gofalwyr maeth i helpu plant sy'n derbyn gofal i gyrraedd y targedau addysgol a nodir yn eu cynllun addysg personol.
- Casnewydd: defnyddiwyd cyllid yn rhannol i dalu am unigolyn i greu cronfa ddata monitro ar System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS) o'r holl wybodaeth a gasglwyd ar gyfer PEPs.
- Sir Gaerfyrddin: arian peilot wedi ariannu'r gwaith o ddarparu hyfforddiant i ysgolion ar strategaethau sy'n ystyriol o drawma a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod.

Ymysg y 3 awdurdod lleol a fuddsoddodd mewn datblygu PEP electronig (ePEP), roedd gan ddau ohonynt VSH parhaol (neu gyfatebol) yn eu swyddi'n barod. Roedd y trydydd wedi “ymgorffori” rôl VSH “mewn rôl Rheolwr Tîm Cymorth i Ddisgyblion sy'n aelod o'r uwch dîm arwain yng nghyfarwyddiaeth addysg y cyngor, gan fodloni'r meini prawf a nodwyd yn wreiddiol yn argymhellion Syr Alasdair Macdonald.” (Data monitro cynllun peilot VSM).

Comisiynodd Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot CACI, y cwmni gwasanaethau TG a greodd y system gwybodaeth addysg a ddefnyddir gan rai awdurdodau lleol yng Nghymru i ddatblygu IDP, i ddatblygu eu meddalwedd ePEP. Mae amrywiaeth o wahanol randdeiliaid ym maes addysg (e.e. y person dynodedig ar gyfer plant sy'n derbyn gofal mewn ysgolion) a gwasanaethau plant (e.e. gweithwyr cymdeithasol) yn gallu mewnbynnu data i'r ePEP drwy borth diogel. Mae plant unigol sy'n derbyn gofal yn gallu cael mynediad at eu ePEP eu hunain ac mae'r system yn cynnwys proffil 'Fy PEP' un dudalen, sy'n cofnodi profiadau a dewisiadau'r dysgwr. Cynhaliodd Bro Morgannwg broses adolygu gan gymheiriaid - ar ffurf ymchwiliad gwerthfawrogol a oedd yn cynnwys arweinwyr plant sy'n derbyn gofal o awdurdodau lleol eraill - i sicrhau ansawdd eu system ePEP newydd, a ddisgrifiwyd fel proses “werthusol a myfyriol iawn”.

### 3.1.2. Amodau, egwyddorion ac elfennau'r grant.

Roedd telerau ac amodau'r grant yn ymgorffori canfyddiadau adroddiad ymchwil IFF ac OB3, 'Dull integredig o wella canlyniadau addysgol i blant sy'n derbyn gofal yng Nghymru'. Roedd hyn yn cynnwys set gyffredinol o egwyddorion a'u helfennau. Gofynnwyd i ymgeiswyr ddefnyddio'r egwyddorion canlynol wrth ddylunio eu dulliau gweithredu:

- **cynllunio strategol:** dylai ALlau fynd ati'n rhagweithiol i gychwyn a nodi arferion gorau a'u defnyddio i ddatblygu gwasanaethau sy'n cefnogi addysg plant sy'n derbyn gofal
- **dull gweithredu cymuned gyfan ar gyfer rhianta corfforaethol**: defnyddio adnoddau hanfodol ac agor y cyfleoedd ehangaf posibl i blant sy'n derbyn gofal
- **cynnig cymorth yn gyson**: ar gyfer addysg a llesiant plant sy'n derbyn gofal nad yw'n destun newidiadau yn adnoddau awdurdodau lleol nac yn dibynnu ar yr ardal y maent wedi'u lleoli ynddi.
- **gosod safonau uchelgeisiol**

Mae 'cydrannau' yr egwyddorion hyn, sy'n seiliedig ar adolygiadau o arferion gorau mewn dulliau integredig o gefnogi plant sy'n derbyn gofal, yn cynnwys gweithio'n unol â chanlyniadau eang (y tu hwnt i addysg); arweinyddiaeth adferol; mynediad teg at adnoddau; darparu cymorth hygyrch; a chymorth sy'n seiliedig ar dystiolaeth.
Yn ogystal â'r egwyddorion systemig, roedd yr adroddiad hefyd yn rhannu egwyddorion lefel unigol (ar gyfer ymarferwyr) a oedd yn cynnwys gweithio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, cydweithio, ac atebolrwydd.

Yn benodol, roedd telerau'r peilot yn nodi y dylid defnyddio cyllid i gynllunio a pharatoi i weithredu model Cymorth i Ddioddefwyr, gan ystyried:

- datblygu eich dull a'ch strwythurau presennol i ymgorffori rôl y VSH yn unol â'r egwyddorion a nodir ar gyfer VSM Cymru
- sicrhau bod eich strwythurau, eich prosesau a'ch arferion yn canolbwyntio ar blant a phobl ifanc ac yn ystyried llais y plentyn
- sicrhau bod pawb sy'n gweithio yn y VSM yn gallu cael gafael ar y data sydd ei angen arnynt i allu cefnogi plant sy'n derbyn gofal yn effeithiol
- monitro effaith ac effeithiolrwydd y rôl a'r dull gweithredu yn yr awdurdod lleol er mwyn cefnogi gwerthusiad annibynnol yn y dyfodol
- sicrhau ymrwymiad i'r rôl a'r dull gweithredu newydd gyda rhanddeiliaid perthnasol
- cynaliadwyedd rôl y VSH y tu hwnt i oes cyllid grant sefydlu

Mae'n amlwg o adran 3.1.1 bod amrywiaeth sylweddol yn y ffordd y defnyddiodd y 13 awdurdod lleol a gymerodd ran yn y cynllun peilot VSM y cyllid a ddyrannwyd iddynt. Ymysg rhanddeiliaid cenedlaethol a gymerodd ran yng ngham cwmpasu'r gwerthusiad, roedd canfyddiad cyffredinol bod y cyllid wedi cael ei ddefnyddio'n anghyson, gyda chynrychiolydd o un sefydliad cenedlaethol yn honni: “Dydw i ddim wir yn gwybod sut mae wedi gweithio ym mhob ardal.”
Roedd rhanddeiliaid cenedlaethol yn cwestiynu a oedd y buddsoddiad yn cynrychioli cynllun peilot o gwbl, gan ddweud:

“Efallai nad oedd y canllawiau'n ddigon tynn ... roeddent yn rhoi llawer o hyblygrwydd ... bu rhai ymdrechion i gael rhywfaint o gysondeb ond nid oedd yn gynllun peilot go iawn mewn gwirionedd gan eu bod i gyd yn treialu ffurfiau gwahanol.”

Gwnaeth tri rhanddeiliad sydd â dealltwriaeth o fodelau VS ledled y DU gymariaethau rhwng y cynllun peilot yng Nghymru a sut mae wedi gweithio mewn mannau eraill: “Yn Lloegr, yr unig beth a oedd yn statudol oedd cael VSH - roedd gan awdurdodau lleol ryddid i benderfynu sut roedd hyn yn gweithio.” (Cyfweliad cwmpasu).

Mewn cymhariaeth, roedd y telerau ac amodau (gweler Atodiad A, adroddiad technegol) ar gyfer y peilot VSM yng Nghymru mewn perthynas â sefydlu VSH yn aneglur, gan ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol cyfranogol “ymgorffori rôl Pennaeth Ysgol Rithwir yn unol â'r egwyddorion a nodir ar gyfer Model Ysgolion Rhithwir Cymru”. Fodd bynnag, roedd y telerau ac amodau hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol peilot “fonitro effaith ac effeithiolrwydd rôl Pennaeth Ysgol Rithwir” ac “adolygu cynaliadwyedd rôl Pennaeth Ysgol Rithwir” ac roedd yr EOI ar gyfer y peilot yn cynnwys disgrifiad swydd amlinellol ar gyfer VSM.

Roedd gweddill amodau'r cyllid peilot yn ymwneud â datblygu dulliau sy'n canolbwyntio ar y plentyn, cael mynediad at ddata a sicrhau ymrwymiad rhanddeiliaid perthnasol i'r cynllun peilot. Mae adrannau diweddarach yr adroddiad hwn yn ymdrin â dulliau awdurdodau lleol peilot o gofnodi llais y plentyn a sicrhau mynediad at ddata ac felly nid yw hyn yn cael ei drafod yn fanwl yma. Fodd bynnag, at ddibenion yr adran hon, roedd y

rhan fwyaf o gynlluniau peilot yn blaenoriaethu'r ddau weithgaredd, er bod eu llwyddiant yn amrywio.

O ran yr amod cyntaf, nid oedd yn ymddangos bod rhanddeiliaid yn gyfarwydd â'r egwyddorion sy'n sail i ddull integredig o weithredu ar gyfer plant sy'n derbyn gofal [troednodyn 9]. Fodd bynnag, cyfeiriwyd at y rhan fwyaf o'r egwyddorion lefel system[troednodyn 10] a'r egwyddorion lefel unigol[troednodyn 11] ar ryw ffurf yn adborth y rhanddeiliaid. Mae hyn yn awgrymu, er nad yw'r rhai sy'n gyfrifol am y cynlluniau peilot o bosibl yn gallu dyfynnu'r egwyddorion hyn air am air, bod yr egwyddorion, yn gyffredinol, wedi'u gwreiddio yn arferion a diwylliant modelau peilot.

Er enghraifft, nododd y rhan fwyaf o arweinwyr peilot elfen o gynllunio strategol yn eu model mabwysiedig: "[rydym] yn symud o ddiffodd tân i gael dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn uniongyrchol ... gan sicrhau bod canlyniad i bob CLA ...sy'n mesur effaith a chynnydd dysgwyr." (Rhanddeiliad mewn ardal beilot)

Disgrifiodd rhanddeiliaid bwysigrwydd cynnal addysg fel y ffynhonnell ddibynadwy a chyson o gymorth i blant sy'n derbyn gofal, sydd fel arfer yn profi lefel uwch na'r cyfartaledd o darfu a diffyg dilyniant: "... helpu i sicrhau bod addysg CLA yn gadarn ... yr un cysondeb hwnnw wrth iddynt symud i mewn i'r system ofal." (Rhanddeiliad mewn ardal beilot)

Nodwyd pwysigrwydd annog uchelgais mewn addysg ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn eang, er mwyn gwrthbwyso canfyddiadau y gall dyheadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal fod yn gymharol is, dim ond oherwydd eu statws fel plant sy'n derbyn gofal. Er nad yw'n amlwg ym mhob model peilot, mae'r ffocws ar hyfforddiant sy'n ystyriol o drawma mewn rhai ardaloedd yn adlewyrchu dull ymlyniad-ymwybodol o gefnogi plant sy'n derbyn gofal.

Yr unig egwyddor ar lefel system a oedd yn ymddangos fel pe bai ar goll o'r modelau peilot oedd yr egwyddor o ddull gweithredu cymuned gyfan o ran rhianta corfforaethol; yn hytrach, roedd y ffocws yn bennaf ar wasanaethau cymdeithasol ac addysg a'r rhanddeiliaid sy'n gweithio yn y disgyblaethau hyn.

Roedd y tair egwyddor unigol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn amlwg i ryw raddau ar draws yr holl awdurdodau lleol peilot a gymerodd ran yn y gwerthusiad [troednodyn 12]. Pwysleisiwyd yn eang yr angen i'r model peilot "ganolbwyntio ar yr unigolyn" ac i gymorth gael ei yrru gan lais ac anghenion y plentyn, yn hytrach na chan y strwythurau a'r systemau o'u cwmpas, ac fe'i trafodir yn fanylach yn adran 3.4. Yn y bôn, mae dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn gofyn am hyblygrwydd yn y system: "Nid yw un ateb

[9] Fel y'i diffinnir yn Dull integredig o wella canlyniadau addysgol i blant sy'n derbyn gofal yng Nghymru
[10] Mae'r egwyddorion ar gyfer y system yn cynnwys: cynllunio strategol, dull gweithredu ar gyfer y gymuned gyfan, system gyson, cymorth dibynadwy, ymwybyddiaeth o ymlyniad a safonau uchelgeisiol.
[11] Mae'r egwyddorion ar gyfer plant unigol sy'n derbyn gofal yn cynnwys: canolbwyntio ar yr unigolyn, cydweithio ac atebolrwydd.
[12] Mae hynny'n 12 allan o 13 posib.

sy'n addas i bawb yn gweithio i blant sy'n derbyn gofal - yn enwedig os oes ganddynt ADY - mae angen dull gweithredu sydd wedi'i deilwra'n well arnynt.”

Roedd llai o bwyslais amlwg ar gydweithio fel egwyddor ar gyfer y modelau peilot. Roedd adroddiad 2021 Llywodraeth Cymru ar ddull integredig ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn diffinio cydweithio fel rhywbeth sy'n ymwneud â chydweithio “o fewn ac ar draws awdurdodau lleol” er mwyn “defnyddio adnoddau prin yn effeithlon” a “dull gweithredu trawsffiniol mwy cydlynol” (t.61). Yn hanesyddol, mae rhanddeiliaid wedi ystyried bod cydweithio rhwng addysg a gwasanaethau plant (mewn awdurdodau lleol lle maent yn adrannau ar wahân) yn digwydd wrth “ddatrys problemau”, sy'n cael ei sbarduno gan yr angen brys i rannu data, yn hytrach na fel cam gweithredol bwriadol tuag at gydlynu gwasanaethau'n well. Serch hynny, roedd yr amserlen ar gyfer y cynllun peilot (llai na 2 flynedd yn y rhan fwyaf o achosion) gan ystyried yr amser ar gyfer cynllunio a chynefino - yn golygu bod newid strwythurol i sefydliad mor fawr ag awdurdod lleol yn cael ei ystyried yn ddisgwyliad afrealistig yn gyffredinol.

Mae'r drydedd egwyddor lefel unigo, a'r olaf, sy'n sail i ddull integredig o gefnogi addysg plant sy'n derbyn gofal yn ymwneud ag atebolrwydd rhanddeiliaid perthnasol i ddysgwyr. Awgrymwyd y dylai'r gweithgarwch peilot - ac unrhyw gyflwyno VSM yn dilyn hynny - gael ei “fonitro ar lefel prif swyddogion fel bod ymyriadau'n effeithiol, ac y gellir ymrwymo adnoddau.” Unwaith eto, gwnaeth rhanddeiliaid gymariaethau â Lloegr, lle penodir pwyllgor rheoli i oruchwylio'r VSH ac “fel corff llywodraethu ysgol, maent yn gyfrifol am gefnogi ond hefyd am ddal VSH i gyfrif”.

Dim ond 2 awdurdod lleol peilot (y ddau a fuddsoddodd mewn swydd VSH) a sefydlodd strwythurau llywodraethu clir ar ffurf pwyllgor neu fwrdd rheoli. Yn y ddau achos, roedd paratoi ar gyfer y peilot VSM wedi cynnwys ymchwil i fodelau VS yn Lloegr a/neu'r Alban. Mewn un achos, disgrifiwyd y pwyllgor rheoli fel un a oedd yn debyg o ran strwythur a fformat i'r trefniadau llywodraethu ar gyfer Uned Cyfeirio Disgyblion (PRU), er ei bod yn gymharol gynnar yn ei ddatblygiad.

Yn ogystal â'r egwyddorion a bennwyd ar lefel genedlaethol, cafodd y modelau a fabwysiadwyd ym mhob awdurdod lleol peilot eu llywio -  i wahanol raddau - gan egwyddorion ar lefel leol, a rhai ohonynt yn amlwg mewn mwy nag un awdurdod lleol peilot.

O ystyried y byrhoedledd y mae llawer o blant sy'n derbyn gofal yn ei brofi, o ran ble maen nhw'n byw a ble maen nhw'n mynd i'r ysgol, ystyriwyd ei bod yn arbennig o bwysig cael “wyneb cyfarwydd”, ni waeth a yw'n VSH, yn addysgwr neu'n fentor. Soniodd rhanddeiliaid mewn 3 ardal am werth darparu dilyniant o ran unigolion sy'n cefnogi dysgwyr a blaenoriaethu dulliau perthynol: “Dydw i ddim yn cyfeirio ato fel y model Ysgolion Rhithwir ... gan nad yw'n sefydliad pell sy’n trin rhifau ... mae'n ymwneud â chyfranogiad personol... empathi a dealltwriaeth.” Roedd hyn yn cynnwys rhanddeiliaid a oedd wedi buddsoddi mewn rôl strategol, rhanddeiliaid a oedd wedi creu swyddi gweithredol ac un a oedd eisoes â VSH ac a oedd wedi ariannu meddalwedd ePEP.

Am resymau tebyg, roedd cyfleu neges gyson gan y tîm cyfan o amgylch y plant sy'n derbyn gofal yn egwyddor bwysig i rai o'r cynlluniau peilot. Roedd gofalwr maeth mewn un awdurdod lleol peilot yn rhagweld gostyngiad mewn negeseuon achlust a “negeseuon croes” gan wahanol weithwyr proffesiynol, o ganlyniad i'r buddsoddiad mewn system ePEP sy'n fwy “syml”.

### 3.1.3. Amcanion y cynllun peilot

Er bod adran 3.1.1 yn dangos bod model a ffocws cyffredinol y buddsoddiad a fabwysiadwyd gan y gwahanol awdurdodau lleol peilot yn amrywio'n eithaf sylweddol, roedd cysondeb cyffredinol yn yr amcanion sylfaenol i gefnogi canlyniadau addysgol plant sy'n derbyn gofal. Mae angen i awdurdodau lleol, beth bynnag fo'u rhan yn y cynllun peilot VSM, weithredu yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n Cael eu Lletya fel rhan o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae hyn yn cynnwys mewn perthynas â chynnwys a phroses PEP, a blaenoriaethu llais y plentyn. Mae llawer o'r amcanion hyn yn adlewyrchu'r egwyddorion a nodir yn adroddiad 2021 ar ganlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru ac a drafodir yn adran 3.1.3 uchod.

Amcan allweddol ar gyfer pob awdurdod lleol peilot sy'n ymwneud â gwella cydweithrediad rhwng gwahanol weithwyr proffesiynol ac adrannau awdurdodau lleol sy'n gysylltiedig: “pontio'r bwlch rhwng addysg a gweithwyr cymdeithasol” (Rhanddeiliad mewn ardal beilot).

Pwysleisiwyd bod codi proffil plant sy'n derbyn gofal mewn ysgolion hefyd yn flaenoriaeth ac fe'i hadlewyrchir yn yr amcanion mesuradwy ar gyfer rhai awdurdodau lleol peilot. Er enghraifft, sefydlu athro plant sy'n derbyn gofal dynodedig[13], polisi plant sy'n derbyn gofal a “llywodraethwr cyswllt” plant sy'n derbyn gofal ym mhob ysgol, a cheisio darparu hyfforddiant sy'n seiliedig ar drawma i athrawon ym mhob ysgol. Y rhesymeg dros hyn oedd cynyddu dealltwriaeth o'r anfanteision y mae plant sy'n derbyn gofal yn eu hwynebu a sicrhau bod cefnogaeth ragweithiol iddynt yn yr ysgol yn barhaol.

Yn gysylltiedig â hyn roedd amcan allweddol mewn perthynas â chefnogi presenoldeb yn yr ysgol ac atal gwahardd o'r ysgol. Er bod canllawiau Llywodraeth Cymru yn gosod disgwyliadau i ysgolion fod ‘yn arbennig o sensitif i faterion gwahardd lle mae gan blant weithiwr cymdeithasol'[14], ac yn annog ysgolion i weithio gyda'r awdurdod lleol i gynnal eu lle yn yr ysgol, mae rhanddeiliaid yn dal i ystyried bod gwahardd plant sy'n derbyn gofal yn risg. Roedd llawer o randdeiliaid - ar lefel awdurdod lleol a chenedlaethol - yn argymell atal gwahardd plant sy'n derbyn gofal yn barhaol o ystyried y goblygiadau i'w trefniadau byw[15] a'r ffaith eu bod eisoes yn wynebu cymaint o drallod. O'r herwydd, roedd awdurdodau lleol peilot yn olrhain cyfraddau gwahardd a phresenoldeb plant sy'n

[13]Mae yna eisoes gyfrifoldeb statudol ar bob ysgol i gael person dynodedig ar gyfer plant sy'n derbyn gofal
[14]Gwahardd o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion
[15]Er enghraifft, mae’n golygu bod y plentyn sydd wedi'i wahardd ac sy'n derbyn gofal gartref yn ystod oriau ysgol neu fod angen iddo deithio i ysgol newydd sydd ymhellach i ffwrdd o'i gartref.

derbyn gofal fel mesur canlyniad yn eu cynllun peilot, ac yn ceisio archwilio ymyriadau cynharach i wella presenoldeb (gweler adran 3.5 am ragor o fanylion).

Roedd blaenoriaethu llais plant sy'n derbyn gofal (er enghraifft wrth gynhyrchu PEPs a gosod targedau PEP) yn cael ei nodi'n gyffredinol fel un o amcanion cynlluniau peilot VSM ac mae gweithgareddau a gynhaliwyd yn unol â'r amcan hwn yn cael eu disgrifio yn adran 3.4.

Yn olaf, er bod angen cydnabyddedig i ganiatáu modelau hyblyg o gefnogaeth ar gyfer anghenion ac amgylchiadau plant unigol sy'n derbyn gofal, cyfeiriodd ardaloedd peilot at bwysigrwydd cyflwyno mwy o gysondeb o ran cefnogaeth o fewn ac ar draws awdurdodau lleol. Fodd bynnag, cynigiodd rhanddeiliaid ddehongliadau gwahanol ynghylch i ba raddau y dylid rhagnodi dull cyson. Ymhelaethir ymhellach ar y farn am hyblygrwydd a chysondeb y VSM yn adran 3.6.

#### 3.1.4. Hwyluswyr gweithgaredd y cynllun peilot

Holwyd cydlynwyr 'arweiniol' y cynllun peilot VSM am ffactorau a ystyriwyd er mwyn gallu cyflwyno eu dulliau o gefnogi dysgwyr yn llwyddiannus. Fodd bynnag, roedd yr ymatebion yn amrywio, gan fod rhai cyfranogwyr yn cael trafferth ynysu rhinweddau y gellid eu hystyried yn unigryw ac yn ddylanwadol yn eu cyd-destunau.

O'r ymatebion a rannwyd, ystyriwyd bod pwysigrwydd meddwl systemig er mwyn cydbwyso swyddogaethau a blaenoriaethau strategol a gweithredol yn gosod sylfeini naturiol ar gyfer cyflwyno'r VSM, fel model integredig. Teimlwyd bod aliniad diwylliannol sydd eisoes wedi'i sefydlu â'r cysyniad, gan gynnwys gweithio mewn ffyrdd amlasiantaeth sy'n ystyriol o drawma, wedi bod yn ddefnyddiol wrth gyflwyno'r model peilot.

Gwelwyd bod lefelau uchel o gefnogaeth i'r VSM (a'i egwyddorion) ar lefel strategol yn yr awdurdod lleol yn ffactor galluogi mewn saith ardal beilot, yn enwedig lle adlewyrchwyd hyn mewn buddsoddiad ariannol i gynyddu'r gweithgarwch a ariannwyd drwy'r cyllid peilot. Cyfeiriodd un arweinydd peilot VSM at "gytundeb ymlaen llaw i gynyddu capasiti" yn y tîm fel hwylusydd pwysig ar gyfer yr hyn roeddent yn ei wneud drwy'r cynllun peilot. Teimlwyd bod cefnogaeth gyffredinol i'r VSM yn cyfrannu at ethos adeiladol, a oedd wedi cofleidio'r dull gweithredu yn gynnar a sefydlu dealltwriaeth gyffredin o bwrpas a'r canlyniadau a ddymunir ymysg cydweithwyr. Mewn un ardal beilot, dyrannwyd cyllid ychwanegol gan wasanaethau addysg a phlant, a theimlai rhanddeiliaid fod hyn yn dystiolaeth bwysig o ymrwymiad i'r cysyniad gan y ddwy adran sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant sy'n derbyn gofal.

Roedd arweinwyr peilot VSM hefyd yn myfyrio ar bwysigrwydd dewis yr ymgeiswyr iawn ar gyfer y rolau a sefydlwyd gyda'r cyllid peilot. Er y gallai'r sylw hwn fod yn berthnasol i unrhyw swydd, ystyriwyd ei fod yn arbennig o bwysig yng nghyd-destun cefnogi dysgwyr, lle'r oedd sgiliau rhyngbersonol - o ran cydweithredu â gweithwyr proffesiynol eraill a chyfathrebu'n uniongyrchol â phlant sy'n derbyn gofal (a gofalwyr maeth) - yn hollbwysig i lwyddiant unrhyw gymorth. Ystyriwyd bod hyn yn bwysig ar bob lefel gan gynnwys VSH (neu rôl strategol gyfatebol) a rolau gweithredol.

Pan oedd VSH yn cael ei gyflogi, ystyriwyd ei bod yn fanteisiol bod gan y sawl a benodir brofiad addysg uwch, fel pennaeth yn ddelfrydol, ac yn ddelfrydol wedi bod yn bennaeth mewn ysgol gyda chyfran fawr o blant sy’n derbyn gofal. Roedd y profiad hwn yn eu galluogi i gefnogi a herio ysgolion lle bo angen, a hynny rhwng cymheiriaid sy’n benaethiaid: “mae statws pennaeth yn herio pennaeth ... wedi gwneud llawer o wahaniaeth [i sefyllfa flaenorol o gael cydlynydd LACE yn unig].”

Ar lefel strwythurol, roedd rhanddeiliaid mewn un ardal beilot o'r farn y byddai'n fuddiol pe bai staff VSM yn bodoli y tu allan i addysg a gwasanaethau cymdeithasol, gan eu galluogi i frocera cytundeb rhwng rhanddeiliaid mewn gwahanol adrannau.

Gwelwyd hefyd fod y gwahaniaeth rhwng y VSH a phenaethiaid mewn ysgolion unigol yn fantais. Roedd gweithiwr cymdeithasol mewn un awdurdod lleol yn cydnabod eu bod yn fwy agored i drafod a chytuno ar drefniadau addysg gwahanol oherwydd ei fod yn dod gan staff VS sydd â dealltwriaeth arbenigol o anghenion plant sy'n derbyn gofal, yn hytrach na'r ysgol brif ffrwd.

Dywedodd 6 rhanddeiliad fod lefel dda o gyfathrebu, wedi'i alluogi gan y cynllun peilot, yn fantais yn yr hyn yr oedd cynlluniau peilot VSM yn ceisio'i gyflawni. Roedd rhan o hyn yn ymwneud â chael rôl wedi'i neilltuo'n llwyr i ddysgwyr a oedd yn hysbys i wasanaethau plant ac ysgolion unigol ac a allai sicrhau bod cyfarfodydd yn cael eu cynnal a bod gwybodaeth yn cael ei rhannu yn ôl y bwriad. Roedd hyn yn wahanol i'r sefyllfa mewn awdurdod lleol nad oedd yn rhan o'r cynllun peilot, lle'r oedd rôl cydlynydd LACE (neu rôl gyfatebol) yn cael ei chyflawni gan rywun â chylch gwaith llawer ehangach, gan leihau eu gallu i gefnogi plant sy'n derbyn gofal yn benodol.

Cyfeiriwyd hefyd at sefydlu a chynnal y Grŵp Cyflawni Cenedlaethol (NDG) gan Lywodraeth Cymru fel ffactor galluogi a oedd yn ategu'r gwaith o gyflwyno'r cynllun peilot. Dywedwyd bod hyn wedi bod yn 'ddefnyddiol iawn ar gyfer goruchwyliaeth strategol' a chefnogi deialog a chydweithio rhwng awdurdodau lleol yn y cynllun peilot.

Gwelwyd bod monitro rhagweithiol a rheolaidd wedi helpu i roi gweithgareddau peilot ar waith. Roedd gosod nodau penodol ar gyfer y plentyn, y gofalwr maeth a'r gweithiwr cymdeithasol yn caniatáu addasu'r cymorth yn gywir lle bo angen. Roedd gwell systemau data a oedd yn rhoi mynediad i bawb (fel yr ePEP) a oedd ei angen yn cefnogi hyn ymhellach.

### 3.1.5. Rhwystrau i weithgaredd y cynllun peilot

Roedd y rhwystrau a nodwyd gan arweinwyr peilot VSM yn canolbwyntio ar ddisgwyliadau cyfathrebu, dyraniadau cyllid, a heriau cyd-destunol. Roedd camsyniadau ynghylch y rhesymeg dros y VSM yn arbennig o amlwg mewn un enghraifft, sy'n tynnu sylw at y ddadl ynghylch y teitl 'Pennaeth Ysgol Rithwir':

“Roedd yr ychydig gyfarfodydd cyntaf yn rhewllyd, a dweud y lleiaf! Roedd LACEs dan yr argraff y byddent yn colli eu swyddi... roedd [rhai] yn poeni y byddai ymdeimlad o'u disodli drwy gyflwyno'r rôl 'pennaeth'.”

Tybiwyd hefyd bod y term 'Ysgol Rithwir' yn creu camddealltwriaeth ynghylch ei swyddogaeth, yn enwedig ymhlith y rhai sy'n anghyfarwydd â'r model yn Lloegr. Roedd tybiaethau cynnar yn cynnwys ei fod yn fenter dysgu o bell, barn y dylanwadwyd arni gan 'rhithwir' ar ôl cael ei ddefnyddio i ddisgrifio trefniadau addysgu cyfnod clo COVID. Ar ben hynny, nodwyd bod y cydlynydd statudol LACE / rôl gyfatebol barhaus sy'n bodoli ochr yn ochr â'r cynllun peilot, yn achosi dryswch ynghylch cyfrifoldebau o fewn y maes ar gyfer cefnogi plant sy'n derbyn gofal.

Cyfeiriwyd at adnoddau a chyllid fel heriau parhaus, wrth i arweinwyr cynlluniau peilot VSM wneud cymariaethau â'r hyn sy'n cyfateb i'r cyllid PDG-CLA sydd ar gael yn Lloegr (Premiwm Disgybl a Mwy) a'r Alban (Cronfa Plant a Phobl Ifanc sydd â Phrofiad o Ofal). Roedd hyn yn cyfrannu at ganfyddiadau o gyfyngiadau'r cyd-destun cyllido ehangach ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac i ba raddau y mae'n cael ei flaenoriaethu ar lefel polisi. Roedd y prif wendid a achoswyd gan y diffyg capasiti hwn yn ymwneud â gallu'r awdurdod lleol i gefnogi achosion cymhleth. Codwyd swm (cymharol fach) y cyllid a ddyrannwyd i'r cynllun peilot hefyd gan bum rhanddeiliad cenedlaethol yn ystod y camau cwmpasu: “Mae cyllid a buddsoddi yn Lloegr yn teimlo'n sylweddol, ond yng Nghymru mae'n teimlo fel pe bai'r cynllun peilot ond yn 'rhoi cynnig arni'.”

Yn olaf, nodwyd bod natur dros dro y cynllun peilot wedi peri anawsterau o ran recriwtio aelodau staff addas mewn lleiafrif o achosion. Roedd y rhai a gyfwelwyd yn rhannu bod cyfyngiadau o ran amserlenni a natur tymor byr y rolau yn gwneud yr agwedd hon ar adeiladu tîm o amgylch y VSM yn heriol. Yn yr un modd, mae gwahanol systemau'n dal i fodoli ar wahân rhwng gwasanaethau plant ac addysg, sy'n peri heriau o ran datblygu ffyrdd integredig o weithio.

## 3.2. Dulliau gweithredu mewn ardaloedd nad oeddent yn rhan o'r cynllun peilot

Datgelodd y gwaith maes mewn awdurdodau lleol nad oeddent yn rhan o'r cynllun peilot nodau ac uchelgeisiau tebyg iawn mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal i rai'r cynlluniau peilot VSM. Y nodau hyn oedd:

- darparu cymorth wedi'i dargedu i blant sy'n derbyn gofal yn seiliedig ar angen
- sicrhau bod PEPs yn cael eu cwblhau
- tracio presenoldeb a chyrhaeddiad plant sy'n derbyn gofal
- cydweithio ag ysgolion i gefnogi'r broses bontio, i osgoi gwaharddiadau ac i gofnodi llais dysgwyr.

O fewn un ardal awdurdod lleol roedd pwyslais ar bontio i lwybrau ôl-16 a lleoliadau gwaith. Ystyriwyd bod y flaenoriaeth hon yn hollbwysig er mwyn galluogi llwyddiant person ifanc yn y dyfodol.

Serch hynny, er bod y canlyniadau y mae ardaloedd nad ydynt yn rhan o'r cynllun peilot yn ceisio eu cyflawni yn debyg i'r rhai a nodwyd mewn ardaloedd peilot, mae'r

mecanweithiau ar gyfer cymorth yn amrywio'n fawr, ac yn aml wedi esblygu dros amser ac mewn ymateb i gyd-destun lleol. Dywedodd arweinydd addysg plant sy'n derbyn gofal mewn un awdurdod lleol “yng nghyfarfodydd LACE, rydych chi'n gweld pobl o gefndiroedd gwahanol iawn”, sy'n arwydd bod eu sgiliau a'u profiad yn amrywio'n fawr, hyd yn oed o fewn yr un rôl i bob pwrpas. Adlewyrchir hyn hefyd yn yr amrywiaeth o deitlau a ddefnyddir i ddisgrifio'r person sy'n gyfrifol am addysg plant sy'n derbyn gofal mewn ardaloedd nad ydynt yn rhan o'r cynllun peilot, sy'n cynnwys 'Swyddog Cynhwysiant Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal', 'Cydlynydd Addysg ar gyfer plant sy'n derbyn gofal' ac 'Athro Ymgynghorol ar gyfer Pobl Ifanc sy'n Derbyn Gofal'.

O ran strwythur sefydliadol, mewn rhai awdurdodau lleol ceir tîm a oruchwylir gan yr arweinydd addysg plant sy'n derbyn gofal. I eraill, yr arweinydd plant sy'n derbyn gofal yw'r unig swydd sy'n gyfrifol am ganlyniadau addysgol dysgwyr yn yr awdurdod lleol, rhywbeth y tynnodd nifer o'r rhai a gyfwelwyd fel rhan o'r gwerthusiad sylw ato. Mewn un awdurdod lleol, dywedodd yr arweinydd addysg plant sy'n derbyn gofal eu bod yn “teimlo fel band un dyn i raddau helaeth” ond y gallai'r “VSM fod yn fodel anhygoel.”

Fodd bynnag, dylid nodi hefyd bod capasiti a strwythur cymorth awdurdodau lleol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn cael eu harwain gan gyd-destun lleol, sy'n golygu bod ardaloedd nad ydynt yn rhan o'r cynllun peilot sydd â llai o leoliadau plant sy'n derbyn gofal yn cynnig lefelau adnoddau sy'n gyfrannol is oherwydd llwythi achosion is.

Mewn awdurdod lleol arall, mae'r rôl sy'n cwmpasu plant sy'n derbyn gofal - sef yr unig rôl a ddynodwyd tan yn ddiweddar i gefnogi canlyniadau addysgol plant sy'n derbyn gofal - yn rhan o rôl ehangach i gefnogi pob dysgwr agored i niwed, gan gynnwys ADY, Saesneg fel iaith arall (EAL), a gwrth-fwlio, ymysg cyfrifoldebau eraill. Mewn cymhariaeth, mewn awdurdod lleol arall mae 2 berson yn gyfrifol am addysg plant sy'n derbyn gofal - un yn gwasanaethu gogledd y sir ac un yn gwasanaethu de'r sir a siaradwyr Cymraeg.

Er nad oedd gan yr un o'r ardaloedd nad oeddent yn rhan o'r cynllun peilot VSH yn swyddogol, roedd tair ohonynt wedi buddsoddi mewn model tebyg iawn. Awgrymwyd mewn un awdurdod lleol bod yr arweinydd addysg plant sy'n derbyn gofal yn “VSH i bob pwrpas” ac “mae'n [gwneud] beth fyddai VSH yn ei wneud.”

Yn yr un modd, disgrifiwyd y dull gweithredu mewn awdurdod lleol arall nad oedd yn rhan o'r cynllun peilot fel un “eithaf agos at fodel VSH”. Teitl yr arweinydd yw “Athro Ymgynghorol”, er ei fod wedi bod yn bennaeth o'r blaen, ac awgrymwyd bod hynny “yn helpu [ac] yn rhoi hygrededd” o fewn yr awdurdod lleol ac ysgolion unigol. Mae athrawon dynodedig sy'n monitro canlyniadau addysgol plant sy'n derbyn gofal, yn unol â gofynion statudol o dan Adran 20 Deddf Plant a Phobl Ifanc 2008[16], yn cyfathrebu'n rheolaidd â'r holl blant sy'n derbyn gofal yn eu hysgol ac yna byddant yn cyfeirio unrhyw faterion at yr Athro Ymgynghorol sydd wedi'i leoli yn y cyngor. Fel arfer, yr athro dynodedig hwn yw'r pennaeth, y dirprwy bennaeth neu'r Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY) mewn ysgolion cynradd, a rhywun ar yr Uwch Dîm Arwain (UDA),

[16] Deddf Plant a Phobl Ifanc 2008

gyda chymorth cynorthwyydd addysgu lefel uwch (CALU) mewn ysgolion uwchradd. Roedd manteisio i'r eithaf ar werth y rôl athro dynodedig bresennol hon wedi galluogi'r Athro Ymgynghorol i ganolbwyntio ar blant sy'n derbyn gofal sy'n cael trafferth. Cyn hyn, roedd yr Athro Ymgynghorol wedi gwneud y canlynol: "roeddwn yn arfer eistedd mewn cyfarfodydd [gofal cymdeithasol] [lle] roedd y rhan fwyaf o [blant sy'n derbyn gofal] yn gwneud cynnydd rhagorol...roeddem yn eistedd mewn cyfarfodydd gyda llawer o bobl gymwys iawn eraill, heb fod angen mewn gwirionedd." Yn ddiweddar, mae'r Athro Ymgynghorol wedi "dod i ddibynnu ar y person dynodedig mewn ysgolion a lleoliadau ar gyfer rhai o'r cyfarfodydd hyn". Bydd yr Athro Ymgynghorol yn "derbyn y cofnodion [o'r cyfarfodydd hyn] ac os oes unrhyw faterion, byddaf yn eu codi."

O ran gweithrediadau, mae anghysondeb hefyd rhwng awdurdodau lleol o ran sut mae prosesau statudol, fel cwblhau PEPs, yn cael eu rheoli. Mae rhai awdurdodau lleol nad ydynt yn rhan o'r cynllun peilot yn defnyddio systemau electronig cwbl integredig, tra bo eraill yn dibynnu ar ddogfennau ar wahân na ellir eu rhannu na'u coladu'n hawdd, sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt "gopïo a gludo ffurflenni i'r system".

Mae arferion sy'n ystyriol o drawma yn cael eu blaenoriaethu gan rai awdurdodau lleol nad ydynt yn rhan o'r cynllun peilot drwy hyfforddiant a buddsoddi mewn rolau seicolegwyr addysg. Nid yw hyn yn gyffredinol ac ni chafodd ei grybwyll gan randdeiliaid sy'n gweithio mewn awdurdodau lleol sydd â chapasiti mwy cyfyngedig na chan y rheini a fynegodd gyfyngiadau ar adnoddau.

Er bod arweinwyr plant sy'n derbyn gofal ym mhob awdurdod lleol nad oeddent yn rhan o'r cynllun peilot wedi cyfeirio at eu rôl yn ceisio lleihau gwaharddiadau plant sy'n derbyn gofal, yn enwedig gwaharddiadau parhaol, roeddent yn adrodd am wahanol raddau o lwyddiant yn y maes hwn. Lle mae anawsterau'n bodoli, roedd y rhain yn aml yn cael eu priodoli i agweddau a diffyg dealltwriaeth ystyriol o drawma ymysg arweinwyr ysgolion. Er enghraifft, os teimlid ei bod yn anos atal gwaharddiadau pan oedd ysgolion dan bwysau i gael gwared ag achosion anodd.

Mewn pedair ardal nad oeddent yn rhan o'r cynllun peilot, nododd rhanddeiliaid fod maint yr angen ymysg dysgwyr yn anghymesur â maint y tîm sydd ar waith i gefnogi eu canlyniadau addysgol. Mewn un awdurdod lleol, teimlai'r arweinydd addysg plant sy'n derbyn gofal fod eu gwaith yn cefnogi plant sy'n derbyn gofal yn effeithiol ond nad oes ganddynt y gallu i gyrraedd yr holl blant ag anghenion cymhleth: "Rwyf ond yn delio gyda'r achosion mwyaf cymhleth, [sy'n] hynod o rwystredig."

Lle'r oedd rhanddeiliaid mewn awdurdodau lleol nad oeddent yn rhan o'r cynllun peilot yn ymwybodol o'r cynllun peilot VSM [troednodyn17], roeddent yn deall mai diffyg VSH dynodedig oedd y prif wahaniaeth rhwng eu dull o gefnogi canlyniadau addysgol plant sy'n derbyn gofal a model VS. Mewn rhai ardaloedd nad oeddent yn rhan o'r cynllun peilot, roedd yna ymwybyddiaeth bod awdurdodau lleol peilot wedi buddsoddi mewn ffyrdd eraill, er enghraifft, mewn system ePEP. Yn gyffredinol, fodd bynnag, yn

[17] Roedd yr holl arweinwyr addysg CLA yn ymwybodol o'r cynllun peilot.

nodweddiadol prin oedd yr ymwybyddiaeth o'r dulliau a ddefnyddiwyd gan awdurdodau lleol eraill, boed yr awdurdodau hynny yn rhan o’r cynllun peilot ai peidio.

Mynegodd arweinwyr addysg plant sy'n derbyn gofal mewn ardaloedd nad oeddent yn rhan o'r cynllun peilot amrywiaeth eang o resymau dros beidio â chymryd rhan yn y cynllun peilot VSM, er bod lleiafrif yn teimlo na allent wneud sylwadau gan nad oeddent wedi bod yn eu swyddi ar adeg y cais. Mewn un achos, roedd gan yr arweinydd addysg plant sy'n derbyn gofal farn ffafriol am y VSM fel cysyniad ac roedd wedi argymell gwneud cais; fodd bynnag, roedd rheolwyr wedi anghytuno ac nid oeddent wedi bwrw ymlaen. Barnwyd mai'r rheswm dros beidio â gwneud cais oedd “i raddau helaeth roedd yn [ganlyniad i] rwystrau strwythurol a mewnol.”

Mewn un awdurdod lleol, dywedodd yr arweinydd addysg plant sy'n derbyn gofal nad oeddent wedi gwneud cais am gyllid VSM oherwydd mai dim ond nifer fach o blant sy'n derbyn gofal oedd ganddynt, ac nad oeddent yn “gallu gweld sut y byddai o fudd iddynt.”

Roedd arweinwyr addysg plant sy'n derbyn gofal eraill yn fwy negyddol agored am y cynllun peilot VSM. Mewn un achos, roedd hyn o leiaf yn rhannol oherwydd eu bod wedi cael profiad negyddol o weithio gyda VSHs yn Lloegr. Mewn achos arall, nid oedd yr arweinydd plant sy'n derbyn gofal yn credu y byddai VSH yn creu ag unrhyw fuddion penodol y tu hwnt i'r gwaith yr oeddent eisoes yn ei wneud i gefnogi plant sy'n derbyn gofal. Mewn ymateb i gael ei holi am y gwahaniaeth y byddai'n ei wneud i'r cymorth y mae'n ei gynnig i blant sy'n derbyn gofal, dywedodd un arweinydd addysg plant sy'n derbyn gofal “na fyddai'n newid gweithrediadau mewn gwirionedd.”

Mewn awdurdod lleol arall, roedd yr arweinydd addysg plant sy'n derbyn gofal wedi bod dan yr argraff bod sefydlu VSH yn un o ofynion y cyllid, ac ni fyddai'r awdurdod lleol wedi gallu recriwtio rhywun â Chymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth (CPCP) ar rybudd mor fyr. Fodd bynnag, erbyn i Lywodraeth Cymru “wanhau’r meini prawf” ac egluro nad oedd recriwtio VSH yn rhagofyniad, roedd yn rhy hwyr i wneud cais. Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd agweddau negyddol ynghylch cynllun peilot VSM yn canolbwyntio'n bennaf ar (gam)ddealltwriaeth bod VSH yn ganolog i fodelau peilot, a rôl y VSH yr oedd llawer o'r rhanddeiliaid hyn yn ei gwrthwynebu.

### 3.2.1. Hwyluswyr mewn awdurdodau lleol nad ydynt yn rhan o'r cynllun peilot

Mewn sawl achos, soniwyd hefyd am ffactorau y credid eu bod wedi galluogi darpariaeth effeithiol mewn awdurdodau lleol peilot gan arweinwyr addysg plant sy'n derbyn gofal mewn ardaloedd nad ydynt yn rhan o'r cynllun peilot, gan adlewyrchu'r cyd-destunau a'r heriau a wynebir ganddynt wrth gefnogi plant sy'n derbyn gofal.

Nodwyd bod cyfathrebu effeithiol rhwng sefydliadau a rhanddeiliaid yn allweddol i gefnogi plant sy'n derbyn gofal, ac mae ei absenoldeb yn cynyddu rhwystrau (gweler isod). Mae cyfathrebu'n digwydd orau pan geir un pwynt cyswllt sy'n hysbys i bawb ac sy'n gallu gweithredu fel canolbwynt ar gyfer gwybodaeth ac sy'n gallu helpu i oresgyn heriau wrth iddynt godi. Mae dealltwriaeth o flaenoriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd yn arwain at barch rhwng gweithwyr proffesiynol, sy'n hybu perthnasoedd ac yn helpu i reoli disgwyliadau ymysg gwahanol grwpiau o randdeiliaid. Fel yn yr awdurdodau lleol peilot,

gall unigolion allweddol sydd â phrofiad neu gyfrifoldeb mewn addysg a gofal cymdeithasol fod yn hanfodol i feithrin perthynas ehangach rhwng y ddau sector hyn a allai fod â blaenoriaethau gwahanol ac sy'n wynebu heriau gwahanol mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal.

Mae rhoi gwybod yn amserol am newidiadau mewn amgylchiadau plentyn sy'n derbyn gofal, er enghraifft newidiadau mewn trefniadau byw, yn caniatáu i bartïon eraill addasu'n briodol a rhagweld materion cymdeithasol ac emosiynol a allai godi o ganlyniad. Mewn un ardal nad yw'n ardal beilot, mae'r arweinydd plant sy'n derbyn gofal wedi'i leoli mewn addysg ond mae'n gweithio'n agos gyda gwasanaethau cymdeithasol plant ac mae'n cael gwybod gan y gwasanaethau cymdeithasol am symudiadau sydd ar fin digwydd at ofalwr maeth newydd. Mae hyn yn eu galluogi i fod yn barod ar gyfer unrhyw oblygiadau y gallai hyn eu cael ar addysg plant sy'n derbyn gofal.

### 3.2.2. Rhwystrau mewn awdurdodau lleol nad ydynt yn rhan o'r cynllun peilot

Mewn ardaloedd nad ydynt yn rhan o'r cynllun peilot, roedd arweinwyr addysg plant sy'n derbyn gofal yn rhannu heriau cyffredinol tebyg i awdurdodau lleol peilot o ran cefnogi plant sy'n derbyn gofal.

Mae heriau mawr yn dod i'r amlwg lle mae cyfathrebu gwael rhwng gwahanol dimau, er enghraifft rhwng addysg, gwasanaethau plant, a chydag asiantaethau, fel darparwyr addysg arbenigol.

Nodwyd hefyd rwystrau i gyfathrebu'n effeithiol rhwng awdurdodau lleol oherwydd gweithdrefnau gweithredu a systemau anghydnaws a gwahaniaethau sefydliadol. Dywedodd un arweinydd addysg plant sy'n derbyn gofal fod cydweithio ag awdurdodau lleol eraill yn “anodd iawn” o ran cael gafael ar y data sydd ei angen arnynt i olrhain plant sy'n derbyn gofal sy'n cael eu lleoli mewn ysgolion mewn awdurdodau lleol eraill. Mae'r her hon yn arbennig o amlwg pan fydd plant sy'n derbyn gofal sy’n 'perthyn' i awdurdod lleol (h.y. y rhiant corfforaethol), yn dychwelyd i'r ardal ar ôl cael eu lleoli mewn awdurdod lleol arall:

“Un o'r pethau mwyaf i mi yw, hyd yn oed os yw'r plentyn yn dychwelyd o [awdurdod lleol cyfagos] does gen i ddim mynediad at unrhyw ddogfennau ysgol [yn uniongyrchol gan y cyngor], rydw i'n gwbl ddibynnol ar yr ysgol wreiddiol yn anfon gwybodaeth am bethau fel presenoldeb.”

Hefyd, codwyd diffyg statws neu awdurdod ar gyfer rhai arweinwyr addysg plant sy'n derbyn gofal, sydd wedi arwain at achosion lle gwnaed penderfyniadau heb iddynt allu cyfranogi, neu lle gwrthodwyd eu barn. Disgrifiodd un arweinydd addysg plant sy'n derbyn gofal her ynghylch diffyg dylanwad eu hunain ar wneud penderfyniadau a “bod heb yr awdurdod uwch ond bod angen yr awdurdod arnynt i wthio pethau ymlaen.”

Cyfeiriwyd yn aml at gyllid fel her. Gellid codi hyn fel mater cyfyng, er enghraifft o fewn yr awdurdod lleol ar gyfer nifer y swyddi i gefnogi addysg plant sy'n derbyn gofal, ac yn ehangach, gan gwmpasu cyllid sy'n effeithio ar hygyrchedd darpariaeth arbenigol.

Roedd gwahaniaethau rhwng polisi ADY Cymru a pholisïau Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) Lloegr yn creu heriau ar gyfer cydweithio trawsffiniol. Roedd hyn yn amlwg nid yn unig mewn awdurdodau lleol a oedd yn rhannu ffin â Lloegr, ond ledled Cymru. Er enghraifft, nid yw'r CDU statudol o dan bolisi ADY Cymru yn bodoli yn Lloegr, sy'n gofyn am gynllun addysg, iechyd a gofal yn lle hynny, gan ddilyn fformat gwahanol. Ar y llaw arall, dywedodd dau randdeiliad fod cydweithwyr yn Lloegr yn disgwyl i gyllid PDG-CLA ddilyn yr un gweithdrefnau a bod ar yr un lefel â'r Premiwm Disgybl a Mwy yn Lloegr.

Roedd anghysondeb gweithwyr cymdeithasol sy'n ymgysylltu â phlant unigol sy'n derbyn gofal yn thema a oedd yn codi dro ar ôl tro, wrth i gydlynwyr gydnabod problemau recriwtio yn y sector, cadw staff, trosiant staff, a lludded staff yn eang, gan arwain at fwy o weithwyr asiantaeth. Nodwyd hefyd bod llai o gapasiti mewn ysgolion i gefnogi plant sy'n derbyn gofal yn her. Cyfeiriwyd at fynediad at ofalwyr maeth, a lleoliadau addysg i gyd fel heriau i gefnogi canlyniadau addysgol plant sy'n derbyn gofal, yn enwedig y rhai ag ADY.

Mewn un awdurdod lleol, nododd rhanddeiliaid y gall ysgolion fod yn amharod i newid ac i dderbyn cynigion o hyfforddiant sy'n seiliedig ar drawma. Cafodd hyn ei fframio fel mater ehangach sy’n ymwneud â diffyg dealltwriaeth ymhlith rhai nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol â'r sector gofal cymdeithasol o'r heriau a'r anfanteision y mae plant sy'n derbyn gofal yn eu hwynebu. Er enghraifft, roedd diffyg ymwybyddiaeth yn y gymdeithas ehangach o oblygiadau statws plentyn sy'n derbyn gofal yn gysylltiedig â rhagfarn yng nghyd-destun sicrhau cyflogaeth a chyfleoedd prentisiaeth.

Gall newidiadau mewn lleoliad ar gyfer y plentyn sy'n derbyn gofal fod yn rhwystr i gymorth, sy'n cael ei waethygu ymhellach os yw'r cyfathrebu rhwng sefydliadau perthnasol yn wael cyn unrhyw newidiadau. Esboniodd dau randdeiliad, o safbwynt y plentyn unigol sy'n derbyn gofal, y gall anghysondeb mewn lleoliadau ac ysgolion achosi iddynt ymddieithrio oddi wrth y cymorth sydd ar gael, gan adlewyrchu'r diffyg diddordeb canfyddedig ynddynt gan weithwyr proffesiynol. Yn y bôn, mae angen goresgyn presenoldeb gwael cyn i gymorth addysg fod yn effeithiol ac mae hyn yn rhywbeth na ellir ei gyflawni gan arweinydd addysg plant sy'n derbyn gofal yn unig.

## 3.3. Cefnogi plant sy’n derbyn gofal

Mae'r adran hon yn cwmpasu ardaloedd awdurdodau lleol peilot ac ardaloedd awdurdodau lleol nad ydynt yn rhan o'r cynllun peilot.

### 3.3.1. Data

Mae defnyddio data'n effeithiol wedi cael ei nodi fel elfen allweddol o sefydlu cymorth priodol i blant sy'n derbyn gofal, gan fod data'n gallu helpu i ddangos problemau ac olrhain gwelliannau o ran presenoldeb a chynnydd dysgwyr. Yn ddelfrydol, gellir defnyddio data yn y cyd-destun hwn i lywio'r gwaith o ddarparu a gweithredu cymorth i blant sy'n derbyn gofal; drwy nodi tueddiadau a all gyfeirio at ble mae angen ymyriadau wedi'u targedu. Mantais arfaethedig y VSM mewn perthynas â data yw symleiddio gwybodaeth sy'n ymwneud â dysgwyr, a all roi cipolwg manylach ar nodweddion, amgylchiadau, cynnydd ac anghenion unigol, gan alluogi dull o ddarparu sy'n canolbwyntio ar y plentyn.

Mewn ardaloedd peilot ac ardaloedd nad ydynt yn rhan o'r cynllun peilot, nododd arweinwyr addysg plant sy'n derbyn gofal fod diffyg mynediad at ddata ar gyfer plant a phobl ifanc a fabwysiadwyd yn rhwystr i ymestyn eu cymorth i blant a oedd yn derbyn gofal yn flaenorol, ochr yn ochr â diffyg adnoddau digonol. Ym Mhowys, roedd rhywfaint o awgrym y gobeithid y byddai diweddariadau polisi ehangach i gefnogi plant dan Orchmynion Gwarchodaeth Arbennig (SGO) yn gwella mynediad at ddata a llwybrau ar gyfer cefnogi plant a fabwysiadwyd yn y flwyddyn nesaf. Yng Nghastell-nedd Port Talbot, cydnabuwyd y byddai addasu'r PEP i gynnwys plant a fabwysiadwyd yn fuddiol, ond ni ellid ymestyn yr adnodd hwnnw o fewn cylch gwaith y cynllun peilot i wneud hynny'n effeithiol. Mewn awdurdodau eraill lle ceir nifer gymharol fawr o blant sy'n derbyn gofal (e.e. Caerdydd a RhCT), yn syml iawn, nid oedd yna gapasiti i ymestyn y cylch gwaith i blant a fabwysiadwyd hefyd.

Nododd awdurdodau lleol peilot hyder cyson yn eu gallu i gyrchu, o leiaf, ddata ar bresenoldeb a gwaharddiadau plant sy'n derbyn gofal drwy'r system addysg. Dim ond un awdurdod lleol peilot a soniodd am heriau yn y maes hwn, oherwydd dibyniaeth ar yr ysgolion i ddarparu diweddariadau amserol, a allai gael eu heffeithio gan systemau TG gwael neu amryfusedd ar ran staff yr ysgol. Yn yr achosion hyn, mae hwyrni neu anghywirdeb data yn tanseilio ymdrechion VSH (neu gyfatebol) i fabwysiadu dull ataliol.

Drwy integreiddio â gwasanaethau plant, roedd awdurdodau lleol peilot hefyd yn gallu cael gafael ar gyfeiriadau lleoliadau. Mewn enghreifftiau o arfer gorau, dywedodd arweinwyr peilot VSM ei bod yn bosibl cael gafael ar ddata lleoliad ar blant y tu allan i'r sir, er y nodwyd rhywfaint o ansicrwydd ynghylch cywirdeb a pha mor gyfredol yw'r data hwn.

Roedd rhanddeiliaid y cynllun peilot a oedd wedi cyflwyno ePEP neu wedi gwella eu proses PEP fel rhan o'r cynllun peilot VSM, yn gallu cyfeirio at ddata ychwanegol a oedd ar gael i ddysgwyr yn eu hawdurdodau lleol, er enghraifft, gan gynnwys ymatebion i holiaduron llesiant. Y gwahaniaeth allweddol a welwyd rhwng awdurdodau cyfranogol a oedd wedi buddsoddi cyllid yn eu gwaith rheoli data, a'r rhai nad oeddent wedi gwneud

hynny, oedd lefel yr integreiddio a gyflawnwyd. Dywedodd y rhai nad oeddent wedi buddsoddi'n benodol yn eu systemau, er eu bod yn credu bod y wybodaeth angenrheidiol ar gael, ei bod yn bodoli mewn mannau ar wahân, er enghraifft o fewn gwasanaethau cymdeithasol plant, sy'n arafu mynediad at ddata. Fodd bynnag, roedd dal angen casglu'r wybodaeth hon â llaw, a oedd yn golygu nad oedd modd cael cipolwg 'byw' ar gynnydd dysgwyr. Felly, roedd y modelau peilot sy'n canolbwyntio ar ddata (Castell-nedd Port Talbot, Bro Morgannwg ac Abertawe) yn gallu darparu adroddiadau gwell ar lefel awdurdod lleol, gan fesur nifer o ffactorau ar gyfer 'carfannau' eu plant sy'n derbyn gofal, a fydd yn gwella'r gwaith o dargedu ymyriadau yn y dyfodol.

Dywedodd dau awdurdod lleol peilot fod y Cwricwlwm i Gymru yn ddylanwadol o ran ei gwneud yn anoddach casglu data ar gynnydd addysgol na chyn ei gyflwyno. Roeddent yn gresynu at golli "data caled" o ran lefelau a chanlyniadau o dan CiG, gan egluro ei bod bellach yn fwy heriol iddynt fesur yr effaith ar gynnydd academaidd, rhywbeth y mae ysgolion yn ei gasglu ond nad yw efallai ar gael ar lefel awdurdod lleol ym mhob achos.

Gyda'i gilydd, cyfeiriodd arweinwyr addysg plant sy'n derbyn gofal nad oeddent yn rhan o'r cynllun peilot at fwy o broblemau a heriau mewn perthynas â chasglu data na chyfranogwyr y cynllun peilot. Mewn o leiaf dri achos, nododd awdurdodau lleol rwystrau rhag cael data a allai atal cymorth priodol rhag cael ei dargedu at ddysgwyr. Roedd hyn yn cynnwys diffyg data cyfun ar gyfer gwaharddiadau (amlder, uwchgyfeirio, pryderon ymddygiadol); darparu data anghywir neu hen ddata; diffyg rhannu data rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd i gefnogi pontio rhwng blynyddoedd 6 a 7; ac mewn un achos, diffyg data ar ddewis iaith.

Nododd rhanddeiliaid nad oeddent yn rhan o'r cynllun peilot ddyheadau i wella'r gwaith o gasglu a monitro data, gan gydnabod nad yw'r dulliau presennol yn darparu "digon o ddata i ddweud a yw plentyn yn gwneud yn dda ai peidio". Mewn 3 awdurdod lleol, nododd arweinwyr addysg plant sy'n derbyn gofal y gallai olrhain pellach gefnogi gwell dealltwriaeth o gynnydd dros amser, a datblygiad tymor hwy. Dywedodd un y gallai data llesiant fod yn ddefnyddiol i ganfod ymyriadau addas ond nad yw'n cael ei gasglu ar hyn o bryd. Mewn ardal arall, dywedodd yr arweinydd addysg plant sy'n derbyn gofal y dylent "fod yn olrhain ac yn monitro [data ar blant sy'n derbyn gofal] yn agosach" ond "nid ydym yn gallu gwneud hynny gyda'n capasiti". Felly, nid ydynt yn "olrhain data y gellid ei ddefnyddio i hysbysu mesurau ataliol sy'n cael eu rhoi ar waith". Yn hytrach, mae'r cyfan yn "fesurau adweithiol'.

Fodd bynnag, roedd ardaloedd nad oeddent yn rhan o'r astudiaeth achos beilot yn adrodd yn fwy hyderus ar eu mynediad at ddata angenrheidiol sy'n cefnogi canlyniadau addysgol. Ym Merthyr Tudful, dywedodd rhanddeiliaid fod rheolwr tîm gwasanaeth LACE yn gyfrifol am rannu data critigol yn effeithiol, gan gynnwys PEPs a data ADY.

Mewn ardal astudiaeth achos arall nad yw'n rhan o'r cynllun peilot, dywedodd rhanddeiliaid fod mesurau cyrhaeddiad yn cynnwys mynediad at raddau disgwyliedig a chynnydd academaidd, rhesymau a briodolir i bresenoldeb isel, ac asesiadau ysgolion cynradd, i helpu i roi darlun manylach o lwybr dysgwr. Roedd rhanddeiliaid yn hyderus y gellid cael data o fewn y sir, fodd bynnag, roedd diffyg cyfathrebu rhwng gofal

cymdeithasol ac addysg yn dal i atal gweithwyr proffesiynol rhag gweld y 'ddwy ochr' i statws plentyn sy'n derbyn gofal.

### 3.3.2. Cydweithrediad awdurdodau lleol

Mewn awdurdodau peilot, rhoddodd rhanddeiliaid arweiniol fwy o adborth ynghylch cydweithio, yn bennaf ar lefel ranbarthol rhwng awdurdodau lleol cyfagos. Dywedodd rhanddeiliaid fod mynychu cyfarfodydd NDG, yn ogystal â chyfarfodydd grwpiau rhanbarthol sefydledig, wedi gwella'r berthynas â chydweithwyr. Ystyriwyd bod ymdeimlad o gyfrifoldeb ar y cyd a gweithio mewn partneriaeth i gyflawni'r canlyniadau cywir yn hanfodol i ddatblygu ethos o gydweithio rhwng awdurdodau lleol. O ran y manteision y gellid eu priodoli i'r cyllid peilot, roedd yr ymatebion yn canolbwyntio ar ddull strategol gwell, ac mewn dau achos, rhoddodd rhanddeiliaid enghreifftiau o rannu arferion gorau. Fodd bynnag, nodwyd y gellid gwneud mwy i gefnogi anghenion cymhleth.

Mynegodd dau brif randdeiliad bryderon bod y cynllun peilot VSM wedi 'cymylu'r dyfroedd' mewn perthynas â chyfathrebu rhwng awdurdodau lleol, oherwydd yr amrywiad a welwyd mewn rolau, teitlau a swyddi. Mewn rhai achosion, roedd canfyddiad bod y gwahaniaeth mewn strwythur rhwng dulliau VSM wedi achosi dryswch rhwng gweithwyr proffesiynol. Mewn un achos, gwelwyd bod y cynllun peilot ei hun wedi creu "system ddwy haen", yn hytrach na "dod â phlant sy'n derbyn gofal at ei gilydd", gan nodi canlyniadau anfwriadol y cyllid.

Mewn awdurdodau nad oeddent yn rhan o'r cynllun peilot, ystyriwyd bod cydweithio ymysg awdurdodau lleol yn fwy adweithiol na rhagweithiol, wrth i randdeiliaid sôn am gydlynu i gefnogi symud plant sy'n derbyn gofal rhwng ardaloedd. Mewn lleiafrif o achosion, nododd rhanddeiliaid arweiniol brofiadau negyddol, yn amrywio o 'dim cydweithio' i rai awdurdodau lleol lle nodwyd bod cydweithio'n fwy heriol. Cyfeiriodd un arweinydd addysg plant sy'n derbyn gofal at "rwystrau enfawr i weithio gydag ALlau eraill oherwydd gwahanol weithdrefnau gweithredu."

Mewn rhai achosion, datgelwyd bod ymwybyddiaeth o arferion gwael fel 'rhwystro derbyn' plant sy'n derbyn gofal fel eu bod yn cael eu symud i awdurdod lleol arall, yn destun pryder, a nodwyd bod hyn yn digwydd "ar draws Cymru", er nad yw hyn yn cydymffurfio â'r dyletswyddau a nodir yn y Cod Derbyn i Ysgolion.

Yn gyffredinol, roedd heriau i gydweithio rhwng awdurdodau lleol yn parhau i rai a oedd yn rhan o'r cynllun peilot a rhai nad oeddent, a phriodolwyd hyn i'r amrywiaeth rhwng dulliau gweithredu; anawsterau cael gafael ar wybodaeth pan fo angen; a gallu gweithwyr proffesiynol i ffurfio perthnasoedd effeithiol y gellir ymddiried ynddynt.

Tynnodd rhanddeiliaid sylw hefyd at y ffaith, er bod Llywodraeth Cymru yn darparu canllawiau ar gydweithio ac y bydd yn cynnig darpariaeth a chymorth yn unol â hynny, y gall ffactorau fel mwy o ddibyniaeth ar y sector preifat i ddarparu addysg arbenigol i blant sy'n derbyn gofal effeithio ar i ba raddau y dilynir canllawiau.

Dywedodd tri awdurdod lleol nad oeddent yn rhan o'r cynllun peilot eu bod yn wynebu mwy o heriau wrth gydweithio ag awdurdodau lleol yn Lloegr na'r rheini yng Nghymru. Yn benodol, nid oedd yr un o'r awdurdodau lleol nad oeddent yn rhan o'r cynllun peilot yn teimlo bod y cynllun peilot VSM wedi cael effaith gadarnhaol ar gydweithio ag awdurdodau lleol eraill. Mewn lleiafrif o achosion, awgrymodd rhanddeiliaid o awdurdodau nad oeddent yn rhan o'r cynllun peilot fod y cynllun peilot VSM wedi "cymhlethu" cyfathrebu.

### 3.3.3. Cynllunio strategol ac addysg cyfrwng Cymraeg

Prin oedd y dystiolaeth a'r adborth ynghylch cynllunio strategol ar gyfer darparu a chyflenwi gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd awdurdodau lleol â phoblogaethau uwch o siaradwyr Cymraeg yn naturiol gymwys i sicrhau darpariaeth, tra bod awdurdodau â chyfran is o ddysgwyr Cymraeg eu hiaith yn gweld galw isel iawn am ddarpariaeth. Ni chofnodwyd unrhyw wahaniaethau nodedig rhwng cyfranogwyr y cynllun peilot a'r rhai nad oeddent yn rhan o'r cynllun peilot, y gellid eu priodoli i gyllid y cynllun peilot VSM.

Mewn awdurdodau cyfrwng Saesneg mwyafrifol, roedd rhanddeiliaid arweiniol yn hyderus o'u gallu i ddarparu 'cynnig rhagweithiol' o ddarpariaeth Gymraeg i blant sy'n derbyn gofal ar draws eu gwasanaethau.

**Cynlluniau peilot**

Roedd dwy ardal beilot astudiaeth achos yn awdurdodau lleol lle mae darpariaeth Gymraeg yn cael ei nodi fel blaenoriaeth uwch. Yn Ynys Môn, gellid casglu bod y galw wedi dylanwadu ar natur cynllunio strategol; gan fod rhanddeiliaid wedi adrodd bod ymdrechion gwell yn cael eu gwneud i gadw plant sy'n derbyn gofal yn y sir, oherwydd cyffredinrwydd y Gymraeg ar lefel gymunedol. Y tu hwnt i gapasiti ar gyfer cymorth addysgol, roedd rhanddeiliaid hefyd wedi nodi'r heriau o ran paru lleoliadau maeth ar gyfer plant Cymraeg sy'n derbyn gofal, a chafodd eu cydnabod ar draws awdurdodau lleol Saesneg-mwyafrifol hefyd. Disgrifiodd Wrecsam gapasiti llawn i ddarparu cymorth i blant sy'n derbyn gofal yn Gymraeg, gan gynnwys hyfforddiant ac adnoddau, ond nid oedd yn ymddangos bod hyn yn cael ei briodoli i gyllid y cynllun peilot, ac roedd darpariaeth eisoes ar waith.

Mewn ardaloedd â 'galw is', roedd rhanddeiliaid yn cydnabod, er bod yr angen am ddarpariaeth Gymraeg yn fach iawn, na ddylai fod yn rhwystr ychwanegol i blant Cymraeg sy'n derbyn gofal sy'n cael mynediad at ddarpariaeth leol. Er enghraifft, yng Nghastell-nedd Port Talbot, teimlwyd bod swyddogaeth ddwyieithog y system Nexus (ePEP) yn bwysig i ddarparu dull dwyieithog, er gwaethaf absenoldeb plant Cymraeg iaith gyntaf sy'n derbyn gofal yn yr ardal. Fodd bynnag, cydnabuwyd rhai problemau gyda chapasiti ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg yng Nghasnewydd. Cefnogir y ddarpariaeth yng Nghasnewydd drwy GEMS (gwasanaeth cymorth iaith rhanbarthol) a nodir faint o gefnogaeth sydd ei hangen drwy gywirdeb PEPs, gyda dealltwriaeth o anghenion cymorth yn cael ei gydnabod fel elfen ganolog o gefnogi addysg cyfrwng Cymraeg.

Yn gyffredinol, gallai'r awdurdodau lleol hynny a oedd wedi datblygu prosesau PEP uwch ac wedi canolbwyntio ar reoli data sicrhau bod y llwyfannau a ddefnyddir yn ddwyieithog, a bod PEPs yn cofnodi dewisiadau iaith yn effeithiol.

Ym Mhowys, mae un o'r athrawon arbenigol yn siarad Cymraeg, a ystyriwyd yn ddefnyddiol gan weithiwr cymdeithasol a gyfwelwyd, gan y teimlwyd bod gan ysgolion cyfrwng Cymraeg yn yr ardal lai o brofiad o gefnogi plant sy'n derbyn gofal (yn debygol o fod o ganlyniad i'r niferoedd isel o ddysgwyr cyfrwng Cymraeg yn y sir).

Mewn awdurdod lleol peilot arall, cafwyd anawsterau wrth recriwtio ymarferydd ystyriol o drawma sy'n siarad Cymraeg, gan awgrymu rhai heriau wrth recriwtio gweithwyr proffesiynol sy'n siarad Cymraeg mewn rolau arbenigol.

**Ardaloedd heb fod yn y cynllun peilot**

Yr ardaloedd nad oeddent yn rhan o'r cynllun peilot â'r galw mwyaf am ddarpariaeth Gymraeg oedd Ceredigion a Sir Ddinbych. Mewn un ardal, mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn rhai cyfrwng Cymraeg, ac ni nododd rhanddeiliaid unrhyw broblemau o ran dewisiadau, lleoliadau na darpariaeth ar gyfer plant sy'n derbyn gofal sy'n siarad Cymraeg. Mewn ardal arall, tynnwyd sylw at y ffaith nad yw dewisiadau iaith plant sy'n derbyn gofal yn cael eu cofnodi, sydd o bosibl yn dangos lefel o angen heb ei olrhain am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg i blant sy'n derbyn gofal yn yr ardal.

Disgrifiodd awdurdod lleol arall nad oedd yn rhan o'r cynllun peilot ei ddull o gynllunio a darparu strategol yn Gymraeg fel un sy'n 'datblygu'. Nodwyd nad yw llawer o aelodau'r tîm yn dod o Gymru, ac nad ydynt yn siarad Cymraeg. Fodd bynnag, mae gan y tîm fynediad at 2 seicolegydd addysg sy'n siarad Cymraeg, sy'n gallu cefnogi dysgwyr.

Cyfeiriodd arweinydd addysg plant sy'n derbyn gofal mewn un awdurdod lleol nad yw'n rhan o'r cynllun peilot at bwysigrwydd sicrhau bod yr holl ddarpariaeth ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag, er bod y cynnig yn cael ei 'hyrwyddo'n fawr', mae'r galw am gymorth iaith Gymraeg yn isel, rhywbeth a briodolwyd i'w lleoliad fel awdurdod lleol sy'n ffinio â Lloegr.

Mewn 3 awdurdod lleol arall nad oeddent yn rhan o'r cynllun peilot, nododd rhanddeiliaid fod y galw am ddarpariaeth Gymraeg yn isel iawn ymysg plant sy'n derbyn gofal. Mae'r 3 awdurdod yn gallu darparu cymorth, a disgrifiodd ardaloedd sydd â phoblogaeth fach o siaradwyr Cymraeg yn unig (fel Merthyr Tudful), bolisïau dwyieithog a rôl eu hyrwyddwr cyfrwng Cymraeg. Mewn ardal arall, cyfeiriodd yr arweinydd addysg plant sy'n derbyn gofal at fynediad i'r ganolfan drochi Gymraeg, sy'n cefnogi teuluoedd yn yr ardal sy'n defnyddio'r Gymraeg.

**Ystyriaethau ehangach o ran yr iaith**

Y tu hwnt i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, roedd rhanddeiliaid mewn ardaloedd peilot ac ardaloedd nad oeddent yn rhan o'r cynllun peilot hefyd yn rhannu ystyriaethau o anghenion iaith ehangach plant sy'n derbyn gofal yn eu hardaloedd. Er enghraifft, yn Ynys Môn, nododd rhanddeiliaid fod plant ffoaduriaid a phlant ar eu pen eu hunain sy'n

ceisio lloches yn gallu defnyddio'r ganolfan trochi iaith. Mae hyn yn darparu hyd at 12 wythnos o ddarpariaeth. Ym Mro Morgannwg, tynnwyd sylw at bwysigrwydd llwyfan dwyieithog i gefnogi plant sy'n ffoaduriaid o Wcráin, yn ogystal â chefnogi anghenion iaith amrywiol cymunedau eraill yno.

Cyfeiriodd un awdurdod lleol hefyd at rolau eu Cydlynydd Dysgwyr Agored i Niwed a Chynghorydd Dysgu arbenigol ar gyfer plant EAL, plant Sipsiwn, Roma, Teithwyr a phlant sy'n derbyn gofal, o ran cefnogi dysgwyr sy'n ffoaduriaid ac yn fudwyr mewn addysg.

### 3.3.4. Defnyddio llais y dysgwr i siapio dulliau gweithredu

Roedd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol (rhai yn y cynllun peilot a rhai nad oeddent) yn gallu rhannu enghreifftiau o ddulliau a ddefnyddiwyd i gofnodi profiadau plant sy'n derbyn gofal mewn addysg a'u hadborth, gan lywio'r gwaith o ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol. Ni welwyd unrhyw dueddiadau sylweddol rhwng y dulliau o ran dulliau ymgysylltu, er bod rhai ardaloedd yn disgrifio mwy o arferion 'uniongyrchol' nag eraill. Yn gyffredinol, gwelwyd bod gan randdeiliaid a gyfwelwyd ar gyfer ardaloedd peilot astudiaethau achos lai i'w rannu ar gasglu llais dysgwyr, gan fod trafodaethau'n canolbwyntio ar yr hyn yr oedd cyllid peilot VSM wedi'i alluogi'n benodol, yn hytrach na mecanweithiau ymgysylltu a oedd eisoes yn bodoli.

Yn gyffredinol, fodd bynnag, cofnodwyd tystiolaeth o arfer da wrth ddatblygu dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar y plentyn ar draws y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, gyda llwyddiant amrywiol. Mynegodd dau o'r awdurdodau lleol (un yn ardal beilot, a'r llall yn ardal nad oedd yn ardal beilot) wendidau yn y maes hwn o'u dull gweithredu ac roeddent yn croesawu rhannu rhagor o arferion gorau er mwyn cryfhau eu cefnogaeth.

#### Llais y Dysgwr mewn ardaloedd peilot

Mewn ardaloedd peilot, roedd yr enghreifftiau cryfaf a rannwyd o gofnodi llais dysgwyr yn cynnwys rôl uwch PEPs (wedi'u cwblhau i safon well ac yn brydlon); rôl eiriolaeth well ar ran y dysgwr (sy'n golygu bod timau sy'n cefnogi plant sy'n derbyn gofal wedi'u hintegreiddio'n well); a newid ffocws i roi'r plentyn wrth galon y dull gweithredu.

Ym Mlaenau Gwent, teimlwyd bod gweithwyr cymorth yn y VSM yn gweithredu fel cyfrwng rhwng y dysgwr, yr awdurdod lleol, a'r lleoliad addysgol, a oedd yn galluogi gwell eiriolaeth ar ran y dysgwr. Rhannwyd enghraifft lle cefnogwyd dysgwr i gwblhau ei TGAU ochr yn ochr â'i gyfoedion, gan osgoi symud i ddarpariaeth arall. Yn yr achos hwn, cafodd gweithwyr cymorth eu cydnabod am eu gallu i gydlynu a chydweithio rhwng gwasanaethau i anrhydeddu dewis y dysgwr i aros mewn addysg brif ffrwd ochr yn ochr â chyfoedion cyfarwydd. Mae'r mentor addysg plant sy'n derbyn gofal ym Mlaenau Gwent hefyd wedi sefydlu grwpiau llais y dysgwr i helpu i gasglu adborth ar y cyd, yn ogystal ag ymatebion unigol.

Roedd rhanddeiliaid ym Mhowys yn gallu dweud bod y tîm VS, a oedd yn cael ei ariannu'n rhannol gan y cynllun peilot VS, wedi comisiynu'r sefydliad 'Bright Star', grŵp nid-er-elw sy'n defnyddio bocsio ac addysg i rymuso pobl ifanc i wneud newidiadau

cadarnhaol. Roeddent yn cynnal y rhaglen 'Dyfodol', darpariaeth addysg amgen i bobl ifanc, un diwrnod yr wythnos. Mae hyn wedi cyfuno chwaraeon, mentora ac addysg, i ysbrydoli pobl ifanc a'u hannog i ymgysylltu â dysgu drwy lwybr gwahanol.

Galluogodd cyllid VSM yn Rhondda Cynon Taf newid mwy diwylliannol tuag at gyd-gynhyrchu a chynyddu lleisiau pobl ifanc drwy arferion a gwneud penderfyniadau. Amlygwyd y teimlad ynghylch hyn yn sylwadau un rhanddeiliad:

“Nawr, mae'r person ifanc wedi dod yn ganolbwynt [i PEPs ac adolygiadau] ... yn hytrach na'n bod ni i gyd yn penderfynu beth allai fod yn dda iddyn nhw [...] mae'n rhywbeth cyffredin i ofyn nawr pwy sydd wedi cyfarfod â'r person ifanc i gofnodi eu barn.”

Nodwyd ffocws cynyddol hefyd ar bontio o’r cynradd i uwchradd mewn perthynas â newidiadau a oedd wedi digwydd o ganlyniad i gymryd rhan yn y cynllun peilot. Mae ysgolion bellach yn cael eu hannog i gynnal cyfarfodydd pontio i ystyried y ffordd orau o gefnogi dysgwyr. Mae Rhondda Cynon Taf bellach yn gweithio ar amserlen i sicrhau bod adborth dysgwyr yn cael ei gasglu'n rheolaidd, ar ôl cydnabod na fu integreiddiad digon cryf o lais dysgwyr ar y lefel strategol yn flaenorol.

Ym Mro Morgannwg, tynnodd rhanddeiliaid sylw at integreiddio adrannau 'popeth amdanaf fi' mewn PEPs, sydd wedi'u cynllunio i gasglu gwybodaeth o safbwynt y dysgwr. Nodwyd bod yr ePEP a gyflwynwyd gyda chyllid peilot VSM wedi galluogi plant sy'n derbyn gofal i gymryd mwy o ran yn y broses. Yn ogystal, mae'r strategaeth rhianta corfforaethol ar gyfer yr awdurdod lleol wedi cael ei hailysgrifennu, ac mae digwyddiadau ymgynghori wedi cael eu cynnal sy'n gwahodd dysgwyr, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol i rannu profiadau ar y cyd.

Dywedodd Ynys Môn ei bod wedi mabwysiadu dull mwy unigolyddol o ymgysylltu â dysgwyr. Disgrifir y PEP fel un sy'n canolbwyntio ar y plentyn, gyda staff yn cefnogi dysgwyr i fynd drwy bob adran gyda'i gilydd, “fel bod y plentyn yn gwybod bod y broses yn addas iddyn nhw”. Dywedodd y gweithwyr proffesiynol a gyfwelwyd mai un o'r “pethau mwyaf pwerus fu gwahodd dysgwyr CLA i'r panel rhianta corfforaethol”. Drwy hyn, darparwyd enghraifft lle'r oedd plentyn sy'n derbyn gofal yn siarad am brofiad negyddol yn ei addysg, gan egluro'r cymorth yr oedd yn dymuno ei gael, a'r rhwystrau yr oedd wedi dod ar eu traws mewn addysg cyn ymgysylltu â'r tîm VS. Roedd hyn yn helpu cydweithwyr i ddeall y gwahaniaethau; a wnaed drwy gymorth gwell wedi'i deilwra, ac i wella'r ddarpariaeth yn y dyfodol.

Oherwydd y nifer (gymharol) fach o blant sy'n derbyn gofal yn yr awdurdod lleol, penderfynodd dysgwyr ei bod yn well ganddynt beidio â chael eu nodi fel grŵp (e.e. drwy fforwm neu garfan plant sy'n derbyn gofal). Teimlwyd bod y capasiti a ddarparwyd drwy gyllid y cynllun peilot wedi galluogi lefel uwch o gymorth 1:1 i ddysgwyr, gan wella hyder y tîm eu bod yn deall anghenion cymorth plant sy'n derbyn gofal yn dda, a'u bod wedi'u harfogi i gefnogi'n briodol. Mae'r tîm VS bellach yn gweithio tuag at ddull mwy cydgynhyrchiol, lle mae gan ddysgwyr fwy o berchnogaeth weithredol dros y model.

Yn gyffredinol, gellir priodoli effeithiau cadarnhaol y cyllid peilot ar ddefnyddio llais y dysgwr ar gyfer siapio’r dull gweithredu i ddau brif ffactor: cyflwyno'r ePEP (neu broses

PEP uwch), a'r capasiti cynyddol i gefnogi dull darparu sy'n canolbwyntio mwy ar y plentyn. Yn aml, mae'r ffactorau hyn yn gysylltiedig, gan fod gwelliannau i'r broses PEP yn gofyn am fwy o amser a mewnbwn gan weithwyr proffesiynol i'w cwblhau i safon ystyrlon a chyson. Yn benodol, mae'n ymddangos bod yr ePEP yn cynnig manteision penodol i gynnwys plant sy'n derbyn gofal, fel mwy o dryloywder a pherchnogaeth o'r wybodaeth bersonol sy'n cael ei chadw am yr unigolyn, a'r mynediad uniongyrchol i gyfrannu at hyn.

Mae mwy o gapasiti i awdurdodau lleol, fel darparu athrawon arbenigol, rolau cynghori a mentora, wedi gwella'r amser a neilltuir ar gyfer 'gwaith uniongyrchol' gyda phlant sy'n derbyn gofal, sy'n golygu bod gan weithwyr proffesiynol ddealltwriaeth lawer cliriach o anghenion cymorth dysgwyr unigol.

**Llais y dysgwr mewn ardaloedd heb fod yn y cynllun peilot**

Ar gyfer ardaloedd nad ydynt yn rhan o'r cynllun peilot, roedd rhanddeiliaid yn rhannu profiadau tebyg ynghylch cynnwys dysgwyr yn eu prosesau PEP, a phwysigrwydd gweithwyr proffesiynol yn eiriol ar ran plant sy'n derbyn gofal.

Mewn un ardal, tynnodd cydweithwyr sylw at ymarfer 'dymuniadau a theimladau' y mae ysgolion yn ei gwblhau gyda'u plant sy'n derbyn gofal, ac mae'r rhain yn cael eu cynnwys yn y broses PEP, sy'n cael ei ystyried yn gyfarfod i'r plentyn. Cyfeiriodd gweithiwr cymdeithasol hefyd at bwysigrwydd ei rôl o ran 'darganfod' materion y gellid eu methu, fel ADY a materion rhyngbersonol, drwy sgyrsiau uniongyrchol â dysgwyr am eu profiadau. Mae'r awdurdod lleol penodol hwn hefyd yn cynnal fforwm cyfranogiad dysgwyr o leiaf ddwywaith y flwyddyn mewn gwasanaethau plant, lle mae swyddogion yn eistedd ac yn gwrando, sy'n darparu dolen adborth uniongyrchol ac sy’n sicrhau bod llais dysgwyr yn cael ei integreiddio wrth gynllunio ar gyfer y ddarpariaeth.

Ym Merthyr Tudful, rhannodd cydweithwyr nifer o fecanweithiau ar gyfer cynnwys llais y dysgwr, er nad oedd yn glir i ba raddau y mae'r rhain yn ymyriadau wedi'u targedu ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Roedd y mentrau'n cynnwys 'sgwad llesiant', a 'Senedd y Dysgwyr', sy'n rhoi cyfle i bawb rannu eu profiadau addysgol. Yn benodol, nodwyd bod llais y dysgwr wedi llywio dulliau recriwtio, a gwelliannau i'r rhaglen Llwybr at Waith ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

Adroddodd Sir Benfro am fecanweithiau ar gyfer cynnwys gofalwyr maeth neu lais lleoliadau preswyl, i ddarparu darlun mwy cyfannol o brofiadau pobl ifanc. Nodwyd hefyd bod llais dysgwyr ar gyfer plant sy'n derbyn gofal wedi dylanwadu ar ddyluniad gwasanaethau, gan fod y tîm comisiynu wedi cyfweld â phlant sy'n derbyn gofal am eu canfyddiadau a'u profiadau o therapïau. Defnyddiwyd yr adborth hwn fel sail i'w fframwaith therapi.

Mewn un ardal, dywedodd yr arweinydd addysg plant sy'n derbyn gofal fod ganddynt berthynas agos ag ysgolion unigol a bod athrawon dynodedig yn “trosglwyddo llais y dysgwr” ac yn “eiriolwyr rhyfeddol dros bobl ifanc sy'n derbyn gofal”. Fodd bynnag, fel awdurdod lleol, dydyn nhw “ddim yn gwneud dim byd dros lais y dysgwr ar y cyd.”

Mewn awdurdod lleol arall, maen nhw'n defnyddio ap 'Mind Of My Own' i gofnodi llais y dysgwr fel rhan o adolygiadau gofal plant sy'n derbyn gofal, ond dywedodd yr arweinydd addysg plant sy'n derbyn gofal bod cofnodi llais y dysgwr yn un o “wendidau'r system bresennol” ac oherwydd “nad ydyn nhw'n cael gweld y plant yn aml”, maen nhw'n “ddibynnol iawn ar athrawon dynodedig [plant sy'n derbyn gofal] o ysgolion”.

**Ar draws pob ardal, roedd enghreifftiau o arferion gorau yn cynnwys:**

- Cynnal digwyddiadau ymgynghori cydweithredol sy'n annog deialog rhwng plant sy'n derbyn gofal a gweithwyr proffesiynol sy'n eu cefnogi.
- Cynllun 'Llwybrau at Waith' sy'n integreiddio ffactorau lles, er mwyn sicrhau'r 'addasrwydd cywir' i'r unigolyn.
- Fforymau llais pobl ifanc (fformatau gwahanol ar draws awdurdodau lleol).
- Mentoriaid hyfforddedig sy'n ymwneud â PEPs i eiriol ar ran plant sy'n derbyn gofal, proses PEP electronig (sy'n cael ei hystyried yn fwy tryloyw) gan ddileu rhwystrau i blant sy'n derbyn gofal nad ydynt eisiau mynychu'n bersonol.
- Gwahodd plant sy'n derbyn gofal i ymuno â phaneli a phwyllgorau presennol, gan rannu eu profiadau o'r hyn sydd wedi gweithio iddyn nhw a'r hyn y gellid ei wella.
- Datblygu cynlluniau ymgysylltu i sicrhau bod llais y dysgwr yn cael ei ystyried yn strategol yn nulliau awdurdodau lleol o gefnogi plant sy'n derbyn gofal, gan greu dolen adborth bwrpasol.
- Digwyddiadau dathlu a gwobrau, lle mae'r gwaith o gynllunio a dylunio'r digwyddiadau hyn yn cael ei arwain a'i gydgynhyrchu gan blant sy'n derbyn gofal.

## 3.4. Gwerth ymddangosiadol y cynllun peilot VSM

### 3.4.1. Canfyddiadau a phrofiadau plant sy'n derbyn gofal o gefnogaeth yn eu hawdurdod lleol

Roedd y gwerthusiad yn ceisio cynnwys barn plant sy'n derbyn gofal fel rhan o'r gwaith maes, i driongli eu profiadau gyda'r gweithgareddau a ddisgrifiwyd gan awdurdodau lleol. Er bod y newidiadau a weithredwyd oherwydd cyllid peilot VSM yn seiliedig i raddau helaeth ar brosesau ac yn weithredol, dylid darparu tystiolaeth o effaith drwy brofiad bywyd, i benderfynu a yw plant sy'n derbyn gofal wedi elwa o gyflwyno'r model.

Fel y nodir yn Adran 3.3.4, mae pob awdurdod lleol wedi mabwysiadu dulliau gwahanol o gasglu ac integreiddio adborth plant sy'n derbyn gofal drwy eu harferion. Roedd cyfranogiad yn dibynnu i raddau helaeth ar natur y cysylltiadau a sefydlwyd rhwng arweinwyr addysg plant sy'n derbyn gofal, ac aelodau o staff sy'n goruchwylio fforymau llais y dysgwr yn uniongyrchol.

Ychydig iawn o ganfyddiadau a gafwyd ar ganfyddiadau plant sy'n derbyn gofal o effaith y cynllun peilot VSM gan na fyddent o reidrwydd yn ymwybodol o weithgarwch sydd wedi cael ei ariannu drwy'r cynllun peilot VSM. Fodd bynnag, mae mewnwelediadau cyffredinol a'r broses gyffredinol o wneud gwaith maes wedi helpu i lywio dealltwriaeth o brofiadau plant sy'n derbyn gofal mewn addysg, yn ogystal â darparu gwersi a ddysgwyd ynghylch unrhyw werthusiad o gyllid VSM a/neu PDG-CLA yn y dyfodol.

**Profiadau dysgwyr o gymorth addysgol**

Ym Mhowys (awdurdod lleol peilot), roedd y grŵp dysgwyr yn gyfarwydd â rôl y VSM drwy'r athro plant sy'n derbyn gofal arbenigol a oedd wedi gweithio gyda nhw. Gwahaniaethodd dysgwyr yn glir rhwng y rôl hon, a natur staff eraill sy'n ymwneud â'u haddysg. Nodwyd bod yr aelod hwn o staff yn darparu dull llawer mwy cyfannol, gan gefnogi nid yn unig gyrhaeddiad addysgol ond hefyd lles ac arweiniad emosiynol. Roedd un dysgwr yn priodoli hyn yn benodol i'w ddatblygiad a'i allu i symud ymlaen yn yr ysgol, oherwydd yr anogaeth drwy gyfnodau arholiadau a'r gefnogi i symud i'r chweched dosbarth (drwy ymweld â'r ysgol newydd y byddai angen iddo ei mynychu i fynd ar drywydd ei ddewisiadau Safon Uwch). Cadarnhaodd dysgwyr yng ngrŵp Powys hefyd eu bod yn cael eu cynnwys yn y broses PEP: “rydyn ni'n eu cael nhw'n eithaf aml mewn gwirionedd, i drafod sut mae pethau'n mynd ym myd addysg a beth yw'r cynlluniau”.

Ym Merthyr Tudful (awdurdod lleol nad yw'n rhan o’r cynllun peilot) roedd yn anoddach i ddysgwyr wahaniaethu rhwng eu profiad cyffredinol o addysg, ac unrhyw gymorth arbenigol a gafwyd mewn perthynas â’u statws fel plant sy’n derbyn gofal. Cyfeiriwyd at staff addysgu a staff cymorth yn gwrando ar yr hyn oedd gan ddysgwyr i'w ddweud. Cadarnhaodd un dysgwr yn y grŵp ei fod yn mynychu cyfarfodydd ac yn cymryd rhan mewn penderfyniadau a oedd yn effeithio ar ei addysg.

Roedd y grŵp hwn hefyd yn hŷn ac yn gysylltiedig drwy'r Rhaglen Llwybr at Waith. O'r herwydd, fe wnaethant rannu dealltwriaeth o'r heriau penodol y mae plant sy'n derbyn gofal yn eu hwynebu wrth benderfynu ar opsiynau ôl-16. Roedd eu hymatebion yn

cynnwys pasio TGAU (gan fod gorfod eu hail-wneud yn “gam yn ôl”), gadael ffrindiau i fynd i'r coleg neu'r chweched dosbarth, cefnogaeth gan ofalwyr (e.e. gofalwyr yn gefnogol o’r swyddi maen nhw eu heisiau) a gorfod “agor i fyny” i bobl newydd eto. Roedd perthnasoedd, pellter i golegau (oherwydd diffyg opsiynau trafnidiaeth) a chyfrifoldebau swyddi rhan amser i gyd yn ffactorau y nodwyd eu bod wedi dylanwadu ar eu dewisiadau ôl-16.

Roedd unigolion yn y grŵp yn cyfeirio'n gadarnhaol at fentor eu rhaglen mewn perthynas â'u heffaith ar bresenoldeb, “roedden nhw [y mentor] wedi fy helpu i ddod i'r ysgol ychydig yn amlach.” Roedd dysgwr arall yn benodol wedi priodoli rôl y mentor o ran dylanwadu ar ei ddyheadau i fod yn nyrs a'i fod wedi ei annog i wneud hynny: “Doeddwn i ddim yn gwybod a allwn i fod yn nyrs oherwydd doeddwn i ddim yn gwybod a fyddwn i'n gallu gwneud hynny. Dechreuais ddisgyblu fy hun ond fe ddywedoch chi [y mentor] wrthyf y gallwn i wneud hynny.”

Yn Sir Benfro (awdurdod lleol nad yw'n rhan o’r cynllun peilot), siaradodd dysgwyr am y ffurflenni adborth pwnc-benodol a ddefnyddir gan eu hathrawon ond nid oeddent yn ymddangos yn ymwybodol o bwrpas y ffurflen i integreiddio adborth gan blant sy'n derbyn gofal. Unwaith eto, roedd yr adborth yma'n canolbwyntio ar brofiadau yn yr ysgol yn hytrach na chymorth arbenigol. Roedd un dysgwr yn cyfeirio at gymorth emosiynol gan, “rhywun a oedd yn arfer fy helpu gyda phroblemau neu siarad amdanyn nhw er mwyn i mi allu ei gael oddi ar fy meddwl, mae fel athro llesiant neu gwnselydd dw i'n meddwl.”

Yn gyffredinol, mae'r profiadau a rannwyd yn tynnu sylw at yr heriau o ran gwahaniaethu cymorth yn yr ysgol oddi wrth gymorth ar lefel awdurdod lleol, o safbwyntiau plant sy'n derbyn gofal. Er bod hyn yn peri heriau o ran gwerthuso, gallai cydnabyddiaeth dysgwyr o gefnogaeth benodol i blant sy'n derbyn gofal hefyd fod wedi dangos canlyniadau anfwriadol cymorth y gellir ei adnabod; er enghraifft, mwy o risg o stigmateiddio plant sy'n derbyn gofal. Er bod y canfyddiadau'n pwysleisio'r anawsterau sy'n gysylltiedig â chasglu tystiolaeth o effaith o safbwynt y dysgwr, maent hefyd wedi rhoi cipolwg pwysig ar y rhwystrau y mae plant sy'n derbyn gofal yn eu hwynebu yn eu haddysg, a'r argymhellion sydd ganddynt ar gyfer gwella profiadau plant sy'n derbyn gofal.

**Heriau a rhwystrau i addysg ar gyfer plant sy'n derbyn gofal**

Gofynnwyd i blant a phobl ifanc, 'beth yw'r prif heriau rydych chi a phlant eraill sydd â phrofiad o ofal yn eu hwynebu o ran mynd i'r ysgol?' a rhannwyd yr atebion canlynol:

- ffitio i mewn a gwneud ffrindiau newydd h.y.: poeni am yr hyn y gallai ffrindiau newydd ei feddwl ac a oeddent yn gwybod eich bod mewn gofal
- gwahaniaethu a stigmateiddio - yn rhannol oherwydd eu bod yn cael eu hystyried yn 'blant sy'n derbyn gofal': 'weithiau maen nhw'n gallu gwneud i bobl deimlo'n wahanol i bobl eraill, gyda'r holl labeli hyn maen nhw'n eu rhoi iddyn nhw'
- atgofion gwael o'r ysgol
- gorbryder
- dim ymdeimlad o berthyn

- bwlio
- problemau dicter ac ymddygiad
- gwneud gweithgareddau a siarad o flaen pobl eraill
- diffyg dealltwriaeth ymysg athrawon a chyfoedion
- galluoedd gwahanol o fewn dosbarthiadau
- pwysau perfformiad (mewn perthynas ag arholiadau, er enghraifft).

Roedd eu hargymhellion ar gyfer gwella addysg i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yn cynnwys:

- addasu amseroedd gwersi ac egwyliau, gan ganiatáu mwy o le rhwng gwersi
- darparu gwiriadau wythnosol ar gyfer pobl mewn gofal (yn gyfrinachol)
- bod yn ymwybodol o'r ffordd mae'r cynigion o gymorth yn cael eu cyfleu - "Rydw i'n teimlo eu bod nhw'n rhuthro i mewn i bethau'n rhy gyflym ac maen nhw'n dweud bod ganddyn nhw gymaint o gefnogaeth i chi, ac maen nhw'n cynnig yr holl gyrsiau a phethau hyn, ond weithiau does dim angen y gefnogaeth arnoch chi hyd yn oed, ac maen nhw'n gwneud i chi deimlo, oherwydd eich bod chi mewn gofal, rydych chi'n wahanol"
- mwy o ymwybyddiaeth i'r rhai sy'n ymwneud ag addysg, o pam mae pobl mewn gofal
- ymdrechion i gysylltu â phobl ifanc mewn gofal a deall beth sy'n digwydd yn eu bywydau
- cymorth personol ychwanegol
- gwell lleoliadau (a chyfathrebu) wrth baru plant sy'n derbyn gofal â gofalwyr maeth
- gofyn sut mae'r dysgwr eisiau cael gwybod am benderfyniadau sy'n effeithio arno h.y. a yw eisiau gwybod dim ond pan fydd canlyniad pendant (er enghraifft ynghylch ysgol newydd), neu a fyddai'n hoffi cael yr wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd am sut mae sefyllfa'n dod yn ei blaen?

Yn gyffredinol, mae'r canfyddiadau'n atgyfnerthu pwysigrwydd bod gan blant sy'n derbyn gofal fynediad at weithwyr proffesiynol dibynadwy sy'n gallu cefnogi eu datblygiad addysgol yn gyfannol a darparu lefel o gymorth y tu hwnt i gyrhaeddiad addysgol.

Roedd trafodaethau gyda dysgwyr yn pwysleisio gwerth cefnogaeth emosiynol gan weithwyr proffesiynol a oedd yn gallu cynnig anogaeth, darparu atebion i'w hamgylchiadau unigryw eu hunain (a oedd yn cael ei ystyried yn amhrisiadwy o ran llywio cynnydd), cysylltu â gofalwyr a'u hysgol, a chael sgyrsiau dilynol, "gallwch ddweud bod y cyfathrebu wedi mynd yn dda oherwydd bod y canlyniad yn dda."

### 3.4.2. Canfyddiadau a phrofiadau rhanddeiliaid eraill o'r cymorth sydd ar gael yn eu hawdurdod lleol

Roedd canfyddiadau a phrofiadau rhanddeiliaid o gymorth yn eu hawdurdodau lleol yn gadarnhaol ar y cyfan ac yn aml roeddent yn rhannu themâu ac arferion cyffredin. Roedd y gefnogaeth i blant sy'n derbyn gofal yn ddefnyddiol ac fe'i disgrifiwyd fel cefnogaeth wedi'i thargedu. Tynnwyd sylw at arferion gorau fel meithrin cysylltiadau mwy uniongyrchol rhwng plant sy'n derbyn gofal a gwasanaethau; cefnogi eu presenoldeb yn

yr ysgol; cynyddu hyder; a hwyluso'r profiad o symud rhwng awdurdodau lleol neu leoliadau addysg.

Roedd ardaloedd yr astudiaethau achos yn edrych ar ganfyddiadau rhanddeiliaid o ansawdd y cymorth sydd ar gael yn eu hawdurdodau lleol. Mewn ardaloedd peilot, gofynnwyd yn benodol i randdeiliaid ystyried eu canfyddiadau o sut roedd y cyllid wedi cael ei ddefnyddio, ac unrhyw werth canfyddedig o gymryd rhan yn y cynllun peilot. Mewn ardaloedd nad oeddent yn rhan o'r cynllun peilot, gofynnwyd i randdeiliaid yn fwy cyffredinol am eu canfyddiadau a'u profiadau o'r cymorth sydd ar gael yn eu hawdurdodau lleol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

Roedd 'rhanddeiliaid' yn cynnwys amrywiaeth o rolau, a gofynnwyd i arweinwyr awdurdodau lleol ddarparu cyfweleion a allai gynrychioli orau eu dull o gefnogi canlyniadau addysgol plant sy'n derbyn gofal. Roedd rolau a swyddi'r rhai a gyfwelwyd yn cynnwys y canlynol (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt):

- Swyddogion arweiniol awdurdodau lleol (ar gyfer addysg a gwasanaethau plant)
- Arweinwyr/athrawon ysgolion (gan gynnwys CADY)
- Athrawon arbenigol, gweinyddwyr a swyddogion llesiant
- Gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr ieuenctid
- Gofalwyr maeth.

### Canfyddiadau rhanddeiliaid y cynllun peilot

Ym Mlaenau Gwent, roedd rhanddeiliaid yn hyderus mai'r penderfyniad i ariannu gweithwyr cymorth ac ehangu capasiti ar gyfer darpariaeth oedd y dewis priodol, yn hytrach na phenodi VSH. Disgrifiwyd hyn fel dull 'gwahanol' ond ystyriwyd ei fod yn fwy buddiol na gosod 'rhywun mewn rôl swyddfa gefn'. Ystyriwyd mai effaith uniongyrchol ac amlwg ar blant sy'n derbyn gofal oedd y flaenoriaeth briodol ar gyfer buddsoddi.

Ar y llaw arall, yng Nghaerdydd pwysleisiodd rhanddeiliaid werth rôl VSH, y teimlid ei bod yn rhan annatod o gydlynu gwasanaethau. Rhannwyd enghreifftiau o ymyriadau effeithiol, a gwell cefnogaeth i benaethiaid yn yr awdurdod lleol, yn ogystal â gofalwyr maeth. Roedd rhanddeiliaid yma yn cefnogi'r defnydd o gyllid ar gyfer penodi VSH, er gwaethaf cyd-destun heriau cyllidebol ehangach ym maes addysg:

'Dydw i ddim yn ymrwymo i lawer o wahanol fentrau... mae arian [mewn ysgolion] yn ddrwg iawn... fyddwn i ddim yn eiriol dros rôl y VSH oni bai fy mod i'n meddwl ei fod wedi bod yn ddefnyddiol iawn, ac mae wedi bod yn ddefnyddiol iawn.'

Cyfeiriodd rhanddeiliaid - gan gynnwys y rhai a ymatebodd mewn rhinwedd broffesiynol yn ogystal â gofalwyr maeth - at sgiliau rhyngbersonol amhrisiadwy'r VSH a'u penderfyniad i wneud popeth posibl i gefnogi plant sy'n derbyn gofal: “Fe wnaeth [y VSH] fy helpu i sylweddoli nad oedd yn rhaid i ni roi'r ffidil yn y to ... wyddoch chi, roedd opsiynau ar gyfer [plentyn] ... Felly, roedd y drws roeddwn i'n meddwl oedd ar gau, caniataodd [y VSH] iddo gael ei agor gyda'r cysylltiadau iawn a'r bobl iawn.”

Soniodd rhanddeiliaid hefyd am gyfyngiadau maint y cyllid yng Nghaerdydd, o ystyried eu poblogaeth uchel o blant sy'n derbyn gofal. Roeddent yn pwysleisio, yn ddelfrydol, y byddai adnodd ychwanegol wedi bod ar gael i alluogi 'tîm' VS mwy o faint, y gallai'r VSH ei gydlynu a'i reoli.

Rhannodd rhanddeiliaid yn RhCT ganfyddiadau cadarnhaol o'r defnydd o gyllid i ddarparu VSH, ac o egwyddorion y model ei hun. Roedd hyn yn amlwg mewn myfyrdodau fel 'mae'r [VSM] wedi cryfhau dull integredig rhwng addysg a gwasanaethau plant [gan gynhyrchu] dull amlasiantaeth mwy effeithiol.'

Yn Wrecsam, roedd sylwadau rhanddeiliaid yn cynnwys bod y cynllun peilot wedi galluogi mwy o gysondeb o ran cefnogaeth, cydweithio cryfach, a mwy o hyder o ganlyniad i sefydlu rolau cliriach drwy'r cynllun peilot. Er y teimlwyd bod strwythur y cynllun peilot yn effeithiol, yn enwedig o ran darparu cymorth ADY, awgrymwyd bod lle i wella o ran mireinio'r swyddi newydd a gyflwynwyd, ac fel y nododd un rhanddeiliad, ‘nid yw’n dal mor slic ag yr hoffwn iddo fod.’

Ar gyfer rhanddeiliaid ym Mhowys, gwelwyd bod y cyllid wedi galluogi ymdrech tîm fwy addas ar gyfer darparu. Gwelwyd bod y dull gweithredu a weithredwyd wedi'i deilwra'n benodol i anghenion awdurdodau lleol, o ystyried maint a natur wledig yr ardal. Ystyriwyd bod yr Arweinydd Cynhwysiant yn rôl werthfawr, gan gael effaith drawsnewidiol ar natur ac ansawdd y cymorth sydd ar gael, ond, dim ond yng nghyd-destun cydlynu â 3 gweithiwr arbenigol (a ariannwyd gan PDG-CLA).

### Cyfyngiadau

Roedd un rhanddeiliad yn rhannu canfyddiadau o'r cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â chyllid y cynllun peilot yn ehangach, a oedd yn cynnwys:

- cydnabod bod llwyddiant y cymorth sydd ar gael yn aml yn dibynnu'n fawr ar bersonoliaethau unigol ac ansawdd y perthnasoedd a ffurfiwyd
- roedd natur y cyllid yn golygu bod yn rhaid i VSM dargedu meysydd ymyrryd a oedd yn flaenoriaeth (a thybiwyd bod hyn yn fwy heriol i'r awdurdodau lleol mwy).

### Canfyddiadau ardaloedd nad oeddent yn rhan o'r cynllun peilot

Roedd rhanddeiliaid mewn un ardal nad oedd yn rhan o’r cynllun peilot yn dangos lefel uchel o hyder yn eu dull gweithredu ac yn teimlo bod llawer o'r egwyddorion sydd ar waith yn cyd-fynd yn naturiol â VSM, er nad oeddent wedi cymryd rhan yn y cynllun peilot. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys ymdrechion blaenorol i wella prosesau PEP; cysylltiadau cadarnhaol ac integreiddio â gwasanaethau ehangach e.e. darparu gweithiwr cymorth ieuenctid gyda chysylltiadau â gwasanaethau ieuenctid ehangach; ac wedi cyflogi seicolegydd addysgol i wella gofal a sefydlogrwydd tymor hir. Roedd tystiolaeth o waith amlasiantaeth yn cynnwys cysylltiadau effeithiol â Swyddogion Adolygu Annibynnol, gweithwyr cymdeithasol, gofalwyr maeth, ac arbenigwyr sy'n deall trawma.

Ym Merthyr Tudful, roedd rhanddeiliaid hefyd yn gadarnhaol ynghylch natur y cymorth a gynigiwyd, gan dynnu sylw at waith tîm cadarnhaol, cysylltiadau rhwng gwasanaethau, a dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar y dysgwr. Teimlai rhanddeiliaid na fyddai’r VSM yn debygol o fod wedi gwneud gwahaniaeth i ansawdd eu darpariaeth.

Mynegwyd y farn hon mewn dau awdurdod lleol nad oeddent yn rhan o'r cynllun peilot. Er bod y ddau eisiau cymryd rhan yn y cynllun peilot (roedd un wedi gwneud cais ond heb fod yn llwyddiannus, nid oedd y llall wedi gallu cynhyrchu cynnig mewn pryd), ni theimlwyd bod y diffyg cyfranogiad wedi llesteirio eu dulliau gweithredu.

Mynegodd rhanddeiliad ym Merthyr Tudful y farn na fyddai gweithredu VSM wedi newid gweithrediadau cymaint â hynny, ond gallai weld manteision bod yn rhan o ddull gweithredu sy'n fwy cenedlaethol. Mewn awdurdod lleol arall, eglurodd rhanddeiliad ei fod wedi ystyried gwneud cais am yr ail rownd o gyllid ond ei fod wedi penderfynu peidio â gwneud hynny oherwydd natur tymor byr y cylch cyllido, a phryderon ynghylch cynnal newidiadau yn y dyfodol. Mae'r safbwyntiau hyn yn tynnu sylw at gyfyngiadau canfyddedig y broses beilot ac yn helpu i egluro pam yr oedd rhai awdurdodau lleol yn ymddangos yn ansicr ynghylch gwerth cyllid VSM.

## 3.5. Effaith cyllid y cynllun peilot

### 3.5.1. Mesur effaith

Mesurwyd effaith y cynllun peilot VSM drwy gyfuniad o ddulliau meintiol ac ansoddol, gydag awdurdodau lleol peilot yn defnyddio amrywiaeth o ddata i asesu allbynnau'r timau VS a'r canlyniadau i blant sy'n derbyn gofal.

Mae mesurau allbwn wedi canolbwyntio'n bennaf ar nifer y llwythi achosion a gefnogwyd gan y timau VSH neu VS. Mae casglu data sy'n ymwneud â mesurau canlyniadau wedi cynnwys yr ystod ganlynol o fetrigau:

- newidiadau mewn cyfraddau presenoldeb a gwahardd (e.e. Blaenau Gwent)
- sgoriau asesu llesiant (fel drwy fframwaith Thrive y gall ysgolion optio i mewn iddo, i gefnogi datblygiad cymdeithasol ac emosiynol dysgwyr)
- canlyniadau cyrhaeddiad addysgol, gan gynnwys canlyniadau TGAU a dilyniant ôl-16 (e.e. Caerdydd)
- gwelliannau ymddygiad a chanlyniadau ymyriadau, fel atgyfeiriadau i CAMHS neu fynediad at hyfforddiant
- adborth ansoddol ar ymgysylltu ac ailintegreiddio mewn lleoliadau addysg (e.e. Blaenau Gwent).

Mae'r data a ddefnyddir i fonitro effaith y cynllun peilot yn amrywio ar draws awdurdodau lleol. Mae un awdurdod lleol (Blaenau Gwent), er enghraifft, wedi olrhain canlyniadau fel ailintegreiddio'n llwyddiannus i'r ysgol, ymgysylltiad parhaus ag addysg, a llai o waharddiadau, gan nodi bod y cynllun peilot wedi galluogi lefel fwy cyson o gymorth i bob plentyn. Mewn awdurdod lleol arall yn y cynllun peilot (Caerdydd), sefydlwyd meini prawf penodol i asesu a yw plant sy'n derbyn gofal yn bodloni disgwyliadau sy'n briodol i oedran mewn llythrennedd a rhifedd. Disgrifiwyd bod monitro effaith yn esblygu mewn trydydd awdurdod lleol yn y cynllun peilot (Powys). Er bod casglu data wedi bod yn gymharol gyfyngedig hyd yma, mae'r awdurdod yn bwriadu cyflwyno monitro mwy gweithredol a hydredol yn fuan. Bydd hyn yn cynnwys monitro ymyriadau unigol yn fanwl (fel atgyfeiriadau i CAMHS, y cymorth tiwtora a hyfforddi a gynigir, a chysylltu ag ysgolion) gan wella ansawdd yr wybodaeth a gofnodir.

Tynnodd rhai awdurdodau sylw hefyd at heriau mesur effaith yng nghyd-destun diwygiadau ehangach. Er enghraifft, mae gweithredu'r Cod ADY yn fras ar yr un pryd, a newidiadau cysylltiedig, fel cyflwyno system CDU ar-lein, yn ei gwneud yn anodd ynysu effeithiau'r cynllun peilot VSM. Yn yr un modd, er nad oedd un awdurdod peilot wedi adrodd ar ddata effaith penodol, mae yna dystiolaeth o brosesau sicrhau ansawdd gwell a gallu cryfach i fonitro cyrhaeddiad addysgol ymysg plant sy'n derbyn gofal sydd bellach angen ei gofnodi. Cynigiodd awdurdodau nad oeddent yn rhan o'r cynllun peilot awgrymiadau hefyd ar sut y gellid mesur effaith VSM gan gynnwys casglu data ar bresenoldeb, gwaharddiadau, lefelau ymgysylltu, canlyniadau TGAU, a chyrchfannau ôl-

16, gan gynnwys gostyngiadau yn nifer y plant sy'n derbyn gofal nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET).

Yn gyffredinol, mae'r dulliau monitro presennol yn cynnig rhywfaint o wybodaeth ddefnyddiol am weithredu'r cynllun peilot a'r canlyniadau sy'n dod i'r amlwg. Fodd bynnag, mae cyfyngiadau ynghlwm wrthynt. Her gyffredin yw priodoli newidiadau a arsylwyd yn uniongyrchol i'r cynllun peilot VSM, yn enwedig lle mae newidiadau polisi eraill, fel y Cod ADY, hefyd yn dylanwadu ar ymarfer a chanlyniadau. Mae symudedd y boblogaeth plant sy'n derbyn gofal yn cymhlethu ymhellach y gallu i olrhain effaith dros amser. Ar ben hynny, mae rhai mesurau canlyniadau, fel newidiadau mewn ymddygiad, yn dibynnu ar farn oddrychol sy'n anodd ei safoni ar draws lleoliadau. Mae'r amrywiad mewn dulliau monitro rhwng awdurdodau peilot hefyd yn cyfyngu ar gysondeb a chymharedd y data sy'n cael ei gasglu.

Mae lle i gryfhau'r gwaith o fesur effaith yn y dyfodol. Gallai awdurdodau lleol elwa o ddatblygu fframwaith ar y cyd ar gyfer casglu a dadansoddi data, gan alluogi dull gweithredu mwy cyson ledled Cymru. Byddai buddsoddi mewn systemau sy'n cefnogi olrhain canlyniadau plant sy'n derbyn gofal mewn amser real ac yn hydredol hefyd yn gwella ansawdd y dystiolaeth. Ar ben hynny, mae angen meithrin gallu i werthuso effeithiolrwydd ymyriadau penodol fel hyfforddi neu atgyfeiriadau CAMHS mewn ffordd fwy systematig. Yn olaf, byddai triongli data ansoddol a meintiol yn well yn cefnogi dealltwriaeth fwy cyflawn o gyfraniad y cynllun peilot at newidiadau ym mhrofiadau addysgol a chanlyniadau plant sy'n derbyn gofal.

### 3.5.2. Effeithiau tymor byr

Mae'r adran hon yn nodi effeithiau tymor byr y cynllun peilot VSM sydd eisoes yn amlwg mewn awdurdodau lleol peilot. Yn gyntaf, rydym yn ystyried yr effeithiau tymor byr ar y system a'r prosesau cyn troi i ystyried yr effeithiau tymor byr ar blant sy'n derbyn gofal.

**Effeithiau ar y system**

Roedd y prif effeithiau tymor byr a nodwyd gan awdurdodau lleol peilot sy’n ymwneud â'r broses yn cynnwys:

**Gwell systemau casglu a monitro data**

Dywedodd pedwar awdurdod lleol (Bro Morgannwg, Rhondda Cynon Taf, Casnewydd a Wrecsam) eu bod wedi cryfhau eu prosesau casglu data, gan ddarparu tystiolaeth fwy cadarn i fonitro canlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac asesu effeithiolrwydd eu hymyriadau. Ym Mro Morgannwg, cafodd systemau data gwell eu cydnabod fel rhai a oedd yn dileu'r risg o golli gwybodaeth a gofnodwyd â llaw, gan ganiatáu ar gyfer monitro cyrhaeddiad addysgol plant yn fwy cyson. Fel y dywedodd un rhanddeiliad:

“Maen nhw [y VSH] yn gwybod pan nad ydyn nhw yn yr ysgol...mae'n helpu i ddod â phroblemau i'r amlwg.”

Yn RhCT, roedd cyflwyno dangosfwrdd data yn galluogi'r tîm VSM i olrhain dangosyddion allweddol fel patrymau presenoldeb yn yr ysgol, cyfraddau gwahardd, a

nifer y plant sy'n derbyn gofal ar amserlenni cyfyngedig. Roedd y dulliau symlach hyn o gasglu data ac adrodd yn rhoi trosolwg cliriach a mwy cywir i'r tîm o'r boblogaeth plant sy'n derbyn gofal ledled y sir. Yn yr un modd, tynnodd rhanddeiliaid yng Nghasnewydd sylw at y ffaith bod systemau data newydd yn eu galluogi i fod yn fwy ymatebol i anghenion sy'n dod i'r amlwg. Arweiniodd y gallu hwn i addasu at ddull mwy cyfannol ac wedi'i deilwra o gefnogi plant sy'n derbyn gofal. Yn Wrecsam, cafodd y cynllun peilot y clod am wella'r broses o gasglu a rhannu data, gan arwain at fynediad mwy amserol at wybodaeth hanfodol, a fyddai yn ei dro yn helpu i atal problemau rhag gwaethygu. Gyda'i gilydd, credwyd bod y datblygiadau hyn yn galluogi awdurdodau lleol i ganolbwyntio mwy ar feysydd sydd angen sylw, fel y dywedodd un ohonynt:

> 'Rydw i wastad wedi bod o'r farn bod yr hyn sy'n cael ei fesur yn cael ei gyflawni.'

### Gwell ymwybyddiaeth ac uwchsgilio staff

Mae ymwybyddiaeth staff o'r materion sy'n wynebu plant sy'n derbyn gofal wedi gwella o ganlyniad i'r gwaith eiriolaeth a wneir drwy'r cynlluniau peilot VSM, ochr yn ochr â'r hyfforddiant sydd ar gael iddynt. Mewn 4 ardal awdurdod lleol, nododd cyfranwyr well dealltwriaeth ymysg staff o'r heriau a wynebir gan blant sy'n derbyn gofal, gyda llawer o weithwyr proffesiynol bellach mewn sefyllfa well i gefnogi'r garfan hon, gan gynnwys drwy fabwysiadu arferion sy'n ystyriol o drawma.

Yn Rhondda Cynon Taf, er enghraifft, roedd comisiynu a darparu hyfforddiant sy'n ystyriol o drawma i ysgolion a gwasanaethau eraill wedi dyfnhau dealltwriaeth ymarferwyr o brofiadau plant sy'n derbyn gofal. Arweiniodd hyn at fwy o empathi, mwy o ymwybyddiaeth o'r heriau a wynebir, a gwell dealltwriaeth o'u profiadau bywyd. Yn yr un modd, yn Ynys Môn, arweiniodd darparu hyfforddiant wedi'i dargedu at well ymwybyddiaeth a gwybodaeth ymysg ymarferwyr, gan eu galluogi i ymateb yn fwy effeithiol i anghenion plant sy'n derbyn gofal.

Ym Mhowys, nododd gweithwyr cymdeithasol fod y VSM yn eu hannog i rannu gwybodaeth gefndirol berthnasol am blant sy'n derbyn gofal gydag ysgolion. Mae hyn wedi gwella cydweithio ac wedi helpu staff ysgolion i gael dealltwriaeth gliriach o'r trawma a brofir gan y plant, gan ganiatáu i gymorth mwy sensitif a gwybodus gael ei roi ar waith. Mewn pedwerydd awdurdod (Casnewydd), arweiniodd hyfforddiant ystyriol o drawma a ddarparwyd i dîm LACE ac athrawon dynodedig at ddealltwriaeth gryfach o'r garfan plant sy'n derbyn gofal, gan atgyfnerthu pwysigrwydd cymorth addysgol wedi'i deilwra ac empathig.

### Gwell cydweithio a gweithio mewn partneriaeth

Roedd tystiolaeth bod prosiectau peilot VSM wedi helpu i wella cydweithio a gweithio mewn partneriaeth rhwng addysg a gwasanaethau eraill, yn enwedig gwasanaethau cymdeithasol mewn tri o'r awdurdodau lleol (Ynys Môn, Rhondda Cynon Taf, Casnewydd). Mewn un awdurdod lleol o'r fath (Casnewydd), ystyriwyd bod cyflwyno'r VSM yn allweddol o ran pontio'r bwlch rhwng gwasanaethau cymdeithasol ac addysg. Dywedodd pum rhanddeiliad fod sianeli cyfathrebu wedi dod yn gliriach ac yn fwy

strwythuredig, gyda chynnydd mewn cyfarfodydd ar y cyd yn hwyluso gwell cydlynu a chyd-ddealltwriaeth ar draws gwasanaethau.

**Un pwynt mynediad ar gyfer gwybodaeth am blant sy'n derbyn gofal**

Mewn un awdurdod lleol (RhCT), arweiniodd y cynllun peilot VSM at ddatblygu un pwynt mynediad canolog ar gyfer ysgolion, asiantaethau partner, gwasanaethau, rhieni/gofalwyr, a dysgwyr. Roedd y dull symlach hwn yn helpu i sefydlu sianeli cyfathrebu cliriach a mwy effeithiol. O ganlyniad, dywedodd ysgolion eu bod yn gwybod yn well â phwy i gysylltu ynghylch materion sy'n ymwneud â phlant sy'n derbyn gofal; nododd gwasanaethau cymdeithasol plant gyfarfodydd mwy rheolaidd gyda staff VSM i ddiweddaru CDUau; tynnodd gwasanaethau cymdeithasol sylw at well cysondeb ym mhrosesau'r ysgol a dealltwriaeth gliriach o'r gweithdrefnau disgwyliedig; a dywedodd gofalwyr maeth fod ganddynt lwybr symlach at gael gafael ar gymorth. Ym Mro Morgannwg, awgrymwyd bod gofalwyr maeth yn cael llai o negeseuon anghyson o ganlyniad i'r VSM a'u bod yn fwy tebygol o gael eu cynnwys mewn prosesau sy'n ymwneud â phlant sy'n derbyn gofal. Roedd rhywfaint o dystiolaeth hefyd bod gallu troi at un pwynt gwybodaeth a chyngor yn ymwneud â materion plant sy'n derbyn gofal yn helpu i leihau pryder ymysg staff ysgolion ynghylch gwneud y penderfyniadau cywir a chael y cymorth a'r wybodaeth iawn.

**Gwella ansawdd a phrydlondeb cynhyrchu Cynlluniau Addysg Personol**

Awgrymodd chwech o'r awdurdodau lleol (Bro Morgannwg, Powys, Rhondda Cynon Taf, Wrecsam, Ynys Môn, Caerdydd) fod PEPs yn cael eu hysgrifennu'n gynt ac i safon well ers cyflwyno'r cynlluniau peilot VSM, a oedd yn golygu y gellid rhoi darpariaeth ar waith yn gynt nag y byddai wedi digwydd fel arall. Er enghraifft, roedd staff o un awdurdod lleol (Ynys Môn) yn ei chael hi'n anodd cwblhau PEPs yn briodol yn y gorffennol, ond roedd uwchsgilio athrawon a chynnal perthnasoedd â staff wedi helpu i leihau'n sylweddol nifer y PEPs a oedd bellach yn cael eu sgorio'n 'goch' fel rhan o ymarfer sgorio RAG. Yn yr un modd, nododd awdurdod lleol arall fod cyfraddau cwblhau gwell wedi arwain at ostyngiad yn nifer y Cynlluniau Addysg Personol sy'n cael eu hasesu fel rhai problemus ar draws eu hardal.

> ‘Mae [PEPs nawr] yn digwydd bob tymor, ac nid oedd hynny yn arfer digwydd’

Gwelwyd yn aml hefyd fod PEPs bellach yn fwy realistig ac yn canolbwyntio ar anghenion ac amgylchiadau'r plentyn. Er enghraifft, eglurodd un gweithiwr cymdeithasol (Powys) fod ‘[PEPs] yn canolbwyntio llawer mwy ar y plentyn.’ Roeddent yn dangos hyn gydag enghraifft o blentyn awtistig ag anawsterau dysgu cymedrol. Arferid ‘gosod nodau hurt nad oedd modd eu cyflawni [er enghraifft] eistedd i lawr am dair awr.' Ond roedd y PEP bellach yn seiliedig ar ei ddiddordebau gyda nodau mwy cyraeddadwy fel dal bws gyda staff i ymweld â siop, i ymarfer defnyddio arian.

Dywedodd tri awdurdod lleol (Caerdydd, Bro Morgannwg, Powys) eu bod mewn sefyllfa well i fynd i'r afael â gwendidau neu fylchau yn y Cynlluniau Addysg Personol a baratowyd gan ysgolion o ganlyniad i brosesau sicrhau ansawdd gwell a gyflwynwyd fel

rhan o'u cynllun peilot VSM. Roedd mwy o gapasiti staff a phrosesau gwell yn golygu bod cynlluniau peilot VSM mewn sefyllfa well i ofyn i ysgolion gynnwys mwy o fanylion mewn Cynlluniau Addysg Personol os nad oeddent wedi'u cwblhau i'r safon ddisgwyliedig. Mewn un awdurdod lleol, (Casnewydd) lle defnyddiwyd cyllid peilot VSM i gyflogi mentoriaid a gymerodd ran mewn cyfarfodydd PEP, gwelwyd bod gwell gwybodaeth am y cynnydd a oedd yn cael ei wneud gan y plentyn bellach yn cael ei chasglu, a oedd yn cael ei defnyddio i helpu i hwyluso eu dysgu. Credid bod y dull gweithredu a fabwysiadwyd yn yr achos hwn yn gweithio'n dda gan fod gan blant sy'n derbyn gofal hyrwyddwr a oedd yn adolygu eu cynnydd ac yn eiriol dros eu hanghenion yn ystod cyfarfodydd PEP.

Dywedodd tri awdurdod lleol (Bro Morgannwg, Powys, Ynys Môn) fod cyflwyno PEP electronig (ePEPs) wedi symleiddio'r broses ac wedi'i gwneud yn haws adolygu a herio eu cynnwys. Nododd tri rhanddeiliad fod cael dogfen ddigidol fyw nid yn unig yn fwy effeithlon ond hefyd yn cymryd llai o amser i'w rheoli. O ganlyniad, roedd PEPs bellach yn cael eu cwblhau ar gyfer pob achos plant sy'n derbyn gofal, gydag un awdurdod yn adrodd bod y gyfradd ‘cwblhau PEP yn 100%'. Dywedodd awdurdod lleol arall fod mabwysiadu ePEP wedi gwella eu gallu i fonitro cynnydd pob plentyn sy'n derbyn gofal, gan ganiatáu i'r VSM fabwysiadu dull mwy cynhwysol, gan sicrhau bod sylw'n cael ei roi i bob dysgwr nid dim ond y rhai sy'n cael mwy o anawsterau yn yr ysgol.

'Gan ei fod yn ddysgwr sy'n ymgysylltu'n dda, gallai fod wedi mynd o dan y radar [oni bai am ePEPs].' (Bro Morgannwg)

Mewn un awdurdod lleol (RhCT) mabwysiadwyd templed PEP newydd ar draws ardal yr awdurdod, ac roedd y tîm VSM wedi gweithio gydag ysgolion i'w helpu i wella eu dealltwriaeth o sut i'w cwblhau. Yn yr achos hwn, roedd y tîm VS hefyd wedi cysylltu'n rhagweithiol ag ysgolion i wneud yn siŵr bod y Cynlluniau Addysg Personol yn cael eu cwblhau'n brydlon.

### Effeithiau ar blant sy'n derbyn gofal

Mae'r prif effeithiau tymor byr a nodwyd gan awdurdodau lleol peilot ar blant sy'n derbyn gofal wedi'u nodi isod, wedi'u hategu lle bo hynny ar gael gan enghreifftiau o astudiaethau achos dangosol.

### Presenoldeb unigolyn cyson a dibynadwy

Dadleuodd dau awdurdod lleol (Blaenau Gwent a Phowys) fod cyllid peilot VSM wedi bod yn allweddol o ran darparu 'person cyson, dibynadwy' i weithio gyda phlant sy'n derbyn gofal. Dywedodd un gweithiwr cymdeithasol (Powys) 'i'r dysgwr, staff VS [h.y. yr athrawon arbenigol] yw'r person cyson a dibynadwy' a oedd yn golygu bod 'pobl ifanc yn agor eu hunain i staff VS yn amlach'.

Astudiaeth achos: presenoldeb cefnogaeth gyson a dibynadwy

Roedd cyfranwyr a gyfwelwyd yn cofio profiadau un bachgen Blwyddyn 3, sydd wedi profi ansefydlogrwydd yn ei fywyd cartref a'i addysg ers ei blentyndod cynnar. Cafodd ei roi mewn gofal pan oedd yn ifanc, ac mae wedi wynebu newidiadau dro ar ôl tro mewn lleoliadau maeth. Bob tymor yr hydref ers iddo ddechrau yn yr ysgol, mae wedi symud ysgol. Symudodd i ysgol arbennig yn y pen draw, gyda'r bwriad o ddiwallu ei anghenion addysgol cynyddol a chymhleth. Er ei fod wedi ymdopi'n weddol dda yn ei flynyddoedd cynnar, dechreuodd yr ansefydlogrwydd gartref a'r diffyg gofal a darpariaeth addysgol gyson gael effaith. Cafodd ei achos ei reoli i ddechrau gan y tîm ardal ac yn ddiweddarach gan y tîm 14 oed a hŷn, ond erbyn hynny, roedd wedi datblygu gelyniaeth ddofn tuag at weithwyr proffesiynol, yn enwedig ei weithiwr cymdeithasol.

Daeth y trobwynt drwy gymorth wedi'i dargedu a ariannwyd gan y VSM. Roedd mentor a oedd wedi gweithio gydag ef o'r blaen yn gallu camu i fyny i rôl Gweithiwr Cymorth Addysg, gan ddod yr un ffigur cyson ar draws ei brofiad addysgol darniog. Roedd y dilyniant hwn yn hanfodol. Darparodd arweiniad tawel a dibynadwy - nid yn unig i'r plentyn ond i staff yr ysgol a oedd yn cael trafferth rheoli ei ymddygiad ac nad oeddent yn siŵr beth oedd y ffordd orau o ymateb ar adegau o argyfwng. Roedd y cymorth a roddwyd ar waith i'r bachgen yn hyblyg ac yn ymatebol, gan sicrhau ymyriadau amserol, cefnogaeth emosiynol, ac arweiniad addysgol.

Yn ogystal â darparu rôl Gweithiwr Cymorth Addysg, bu'r VSM yn cydweithio ar draws yr awdurdod lleol i ddarparu ymyriadau wedi'u teilwra pellach fel hyfforddiant wedi'i ariannu, hyfforddiant llesiant, a darpariaeth amgen. Roedd y canlyniad yn drawsnewidiol. Aeth y bachgen hwn, a oedd wedi cael chwe gwaharddiad cyfnod penodol yn ystod y flwyddyn cyn i'r cymorth hwn gael ei roi ar waith, ymlaen i gwblhau'r flwyddyn academaidd ganlynol heb unrhyw waharddiadau. Dechreuodd ail-ymgysylltu â dysgu, datblygu ymddiriedaeth mewn oedolion, ac ymgartrefu yn ei amgylchedd ysgol newydd. Rhoddwyd CDU ar waith, a symudodd yn llwyddiannus i leoliad ysgol arbennig a gynlluniwyd i ddiwallu ei anghenion unigol.

Yn anffodus, ar ôl i'r prosiect peilot VSM ddod i ben, nid oedd y staff allweddol a oedd yn gysylltiedig â'i gynnydd yn eu swyddi mwyach. Ystyriwyd bod colli'r ddau ffigur cyson hyn wedi cael effaith ar unwaith. Ers mis Medi, mae eisoes wedi cael dau waharddiad arall, y tybiwyd eu bod yn dangos y gwahaniaeth y gall perthnasoedd sefydlog a dibynadwy ei gael ar blant sy'n derbyn gofal.

**Gwell goruchwyliaeth ac eiriolaeth i blant sy'n derbyn gofal**

Credid bod y VSMs peilot wedi rhoi capasiti staff ychwanegol, penodol ar waith i 'hyrwyddo' plant sy'n derbyn gofal, eiriol dros eu hachos a 'chadw llygad ar blant' dros amser (RhCT). Teimlwyd bod hyn yn arbennig o bwysig i'r plant hynny sy'n derbyn gofal ac sy'n symud yn aml rhwng gwahanol leoliadau ac ysgolion. Roedd timau VSM yn aml yn cael eu canmol am eu rôl fel eiriolwyr dros blant agored i niwed sy'n derbyn gofal, yn enwedig o ran sefydlu darpariaeth addysgol a oedd yn addas iawn i'w hanghenion. Mewn un awdurdod lleol

(Caerdydd) nodwyd bod y cynllun peilot wedi cryfhau llais plant sy'n derbyn gofal yn ystod cyfarfodydd proffesiynol.

Astudiaeth achos: eiriol ar ran plant sy'n derbyn gofal

Yng Nghaerdydd, roedd plentyn sy'n derbyn gofal a oedd wedi bod mewn lleoliad diogel yn flaenorol ar ôl profi bywyd trawmatig iawn, yn cael ei gefnogi gan y VSM i gofleidio heriau newydd a chyflawni ei botensial mewn darpariaeth amgen, llai cyfyngedig:

“Felly, mae'r hyn y mae [VSH] yn ei wneud yn eithaf arloesol o ran hyrwyddo'r plentyn hwn ... gweithio gyda gwasanaethau plant, gweithio gydag addysg i sicrhau bod y plentyn penodol hwn yn cael yr union beth sydd ei angen arni, nid yw erioed wedi cael ei gynnig o'r blaen. Mae'n rhywbeth newydd ... dyna rywfaint o'r gwaith gorau mae hi wedi'i wneud. Rwy'n credu y bydd awdurdodau lleol eraill yn edrych ar yr hyn y mae hi a [enw'r awdurdod lleol] yn ei wneud er mwyn diwallu anghenion plant lle nad bod mewn [lleoliad] diogel yw'r ateb cywir iddyn nhw o reidrwydd. Maen nhw angen rhywbeth arall, rhywbeth newydd, rhywbeth gwahanol."

Astudiaeth achos: eiriol a chysylltu ag ysgolion a gofalwyr

Nododd gofalwr maeth (RhCT) fod VS wedi chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o gefnogi plentyn sy'n derbyn gofal yn ystod y cyfnod pontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Darparodd y VSH arweiniad gwerthfawr, gan helpu'r gofalwr i ddeall ei hawliau a'r hyn y dylai ei ddisgwyl gan ysgolion, gan ei alluogi i eirioli'n well dros y plentyn. Roedd y gefnogaeth hon yn hanfodol pan geisiodd yr ysgol leihau amserlen addysgol y plentyn, penderfyniad a heriwyd yn llwyddiannus gan y VSH, gan sicrhau blaenoriaethu lles gorau'r plentyn. Yn ogystal ag eirioli ar ran y plentyn, rhoddodd y VSH gymorth i'r ysgol hefyd, gan ei helpu i roi darpariaethau angenrheidiol ar waith er gwaethaf newidiadau staff. Disgrifiodd y gofalwr maeth y VSH fel un cadarn a chefnogol, yn helpu ysgolion i roi mesurau priodol ar waith ar yr un pryd â chynnig arweiniad pan oedd y gofalwr yn teimlo nad oedd ei bryderon yn cael sylw digonol. Roeddent yn teimlo bod cyngor yr Ysgol Rithwir yn amhrisiadwy wrth benderfynu a oedd eu disgwyliadau o'r ysgol yn rhesymol, gan werthfawrogi'r sicrwydd a'r eglurder a roddodd wrth lywio drwy'r system addysg:

“Mae'r Pennaeth Rhithwir wedi bod yn ddefnyddiol iawn i mi fesur a ydw i'n disgwyl gormod gan yr ysgol; rydw i'n teimlo'n rhwystredig gyda chymaint o bethau. Rwy'n gwrando ar eu cyngor am gylch gwaith ysgolion a'r hyn y dylent fod yn ei ddarparu.”

**Mynd i'r afael â heriau cymhleth sy'n wynebu plant sy'n derbyn gofal**

Credid bod cyflwyno'r prosiectau peilot wedi helpu i sicrhau bod plant sy'n derbyn gofal yn gallu cael gafael ar y gefnogaeth a'r ymyrraeth briodol yr oedd eu hangen arnynt. Dywedodd un cyfwelai o awdurdod lleol (Caerdydd) fod y VSM yn helpu i sicrhau bod plant sy'n derbyn gofal yn gallu cael gafael ar ymyriadau llesiant, fel y dull gweithredu 'Thrive', na fyddai efallai wedi digwydd yn absenoldeb y model. Mewn ardal awdurdod arall (RhCT), canmolwyd y VSM am ei ddull hyblyg a chreadigol o ddod o hyd i atebion addysg priodol ar

gyfer plant sy'n derbyn gofal, fel lleoliadau addysg amgen a phrofiad gwaith ar gyfer plant sy'n derbyn gofal sydd ag anghenion mwy cymhleth:

> “rydym wedi cael pobl ifanc yn cymryd rhan mewn gweithgareddau y tu allan i'r cwricwlwm arferol ... mae hynny'n well”.

Gwelwyd yn aml bod y cysondeb cynyddol hwn yn y cymorth sydd ar gael i blant sy'n derbyn gofal wedi'i gyflwyno o ganlyniad i well data monitro, a oedd yn caniatáu i'r VSM nodi a mynd i'r afael â materion yn fwy cyson ac amserol.

| |
|---|
| Astudiaeth achos: dod o hyd i ddarpariaeth amgen ar gyfer plant sy'n derbyn gofal sydd ag anghenion cymhleth<br><br>Ym Mhowys, darparodd y cynllun peilot VSM gefnogaeth wedi'i thargedu i blentyn a oedd yn profi anawsterau ymddygiad. Gan gydnabod cymhlethdod anghenion y plentyn, roedd staff VS yn eiriol dros amserlen addysg ran-amser, er gwaethaf gwrthwynebiad gan y gweithiwr cymdeithasol dynodedig. Roedd yr ymyriad hwn yn effeithiol iawn, gan arwain at welliant sylweddol: nid oedd y plentyn, a oedd wedi cael ei wahardd yn wythnosol yn flaenorol, wedi wynebu gwaharddiad am fis cyfan ac o ganlyniad i'r cynnydd hwn, cafodd amserlen y dysgwr ei hymestyn. |

**Mae problemau ymddygiad yn arwain at ganlyniadau llai difrifol**

Darparodd sawl awdurdod lleol enghreifftiau lle'r oedd plant sy'n derbyn gofal yn profi gostyngiad mewn problemau ymddygiad oherwydd gallu'r prosiectau peilot i roi ymyriadau cynharach a mwy teilwredig ar waith. Roedd hyn yn golygu bod pryderon ynghylch ymddygiad yn cael sylw cyn iddynt droi'n broblemau mawr. Er enghraifft, credai un awdurdod lleol o'r fath (Ynys Môn) fod ymyriadau cynnar, mwy ataliol gan swyddogion llesiant yn helpu i leihau problemau ymddygiad ymysg plant sy'n derbyn gofal.

| |
|---|
| Astudiaeth achos: Ymyriadau cynnar wedi'u teilwra i fynd i'r afael â materion ymddygiad<br><br>Roedd bachgen Blwyddyn 4 (Rhondda Cynon Taf) a oedd wedi bod mewn gofal am sawl blwyddyn i ddechrau yn ymddwyn yn gadarnhaol wrth ymuno ag ysgol newydd, ond dros y ddwy flynedd ddiwethaf, daeth ei ymddygiad yn aflonyddgar iawn, gan effeithio ar ei ddosbarth. Arweiniodd ei ymddygiad at straen eithafol, gyda'i athro dosbarth yn mynd ar absenoldeb salwch ac wyth athro cyflenwi yn gwrthod dychwelyd. Roedd hefyd wedi dylanwadu'n negyddol ar ei gyfoedion, ac er bod yr ysgol yn ysgol feithringar ac yn ysgol sy'n ystyriol o drawma, roedden nhw'n teimlo eu bod wedi defnyddio pob strategaeth i'w gefnogi. Gan ofyn am gymorth, cysylltodd yr ysgol â'r awdurdod lleol a chafodd ei chyfeirio at dîm yr Ysgol Rithwir, nad oeddent wedi dod ar ei draws o'r blaen.<br><br>Cysylltodd y pennaeth â Phennaeth yr Ysgol Rithwir, a drefnodd gymorth un-i-un i'r dysgwr dros ddau dymor. Penodwyd aelod ychwanegol o staff i weithio'n agos gydag ef, gan arwain at gynnydd anhygoel. Gwellodd ei ymddygiad, ailgydiodd mewn addysg, ac ailintegreiddiodd yn llwyddiannus i wersi prif ffrwd. Yn flaenorol, dim ond am tua 20 munud y gallai aros yn y dosbarth cyn tarfu, ond gydag ymyrraeth wedi'i thargedu, llwyddodd i adennill rheolaeth a dychwelyd i'w hunan arferol. Roedd y dysgwr ar fin cael ei wahardd, |

ond roedd ymyrraeth Pennaeth yr Ysgol Rithwir wedi atal y canlyniad hwn, gan leihau problemau ymddygiad a'i alluogi i ffynnu'n academaidd ac yn gymdeithasol.

### 3.5.3. Effeithiau hirdymor a ragwelir

Nodwyd amrywiaeth o effeithiau hirdymor gan brosiectau peilot, sydd wedi'u nodi yn yr adran hon.

**Gwell presenoldeb**

Er bod rhywfaint o dystiolaeth bod presenoldeb gwell gan blant sy'n derbyn gofal yn yr ysgol eisoes wedi digwydd ers cyflwyno'r prosiectau peilot ar draws pedair ardal awdurdod, yn y rhan fwyaf o achosion disgwylid y byddai'r newid hwn yn un hirdymor. Mewn un awdurdod lleol (Wrecsam) roedd arwyddion cynnar o well presenoldeb ymysg carfan benodol o ferched rhwng 9 ac 11 oed sy'n derbyn gofal. Ar draws 2 awdurdod lleol arall (Rhondda Cynon Taf ac Ynys Môn) roedd arwyddion cynnar hefyd o well presenoldeb. Yn y ddau achos hyn, nodwyd bod y tîm VSM yn gallu nodi absenoldeb yn gynt nag o'r blaen oherwydd prosesau monitro gwell. Ar ben hynny, teimlwyd bod ganddynt fwy o arbenigedd a gallu i fynd i'r afael â'r heriau cymhleth sy'n wynebu plant sy'n derbyn gofal, gan alluogi dysgwyr i ailafael yn eu haddysg yn gyflymach nag o'r blaen. Dywedodd awdurdod lleol arall (Powys) eu bod eisoes wedi gweld gwelliant mewn presenoldeb yn yr ysgol ymysg dysgwyr gyda'r gyfradd presenoldeb bellach yn agos at gyfartaledd y sir ac ar hyn o bryd dim ond tua ‘0.04 [y cant] y tu ôl i bresenoldeb cyffredinol y sir’. Roedd nifer o awdurdodau lleol yn hyderus y byddai'r ymyriad yn helpu i sicrhau y byddai plant sy'n derbyn gofal yn gallu aros yn yr ysgol yn hirach.

**Llai o waharddiadau**

Rhagwelwyd y byddai gostyngiad yn nifer y plant sy'n derbyn gofal sy'n cael eu gwahardd yn un o’r effeithiau hirdymor i’r awdurdodau lleol peilot. Fodd bynnag, nid oedd gan nifer o awdurdodau lleol fynediad at unrhyw ddata a fyddai'n eu galluogi i gymharu'r cyfraddau gwahardd ar gyfer plant sy'n derbyn gofal â phlant nad ydynt yn derbyn gofal, na monitro unrhyw effaith a wnaed gan eu hymyriadau. Roedd eraill (e.e.: Rhondda Cynon Taf) yn ymwybodol y bu cynnydd cyffredinol yn nifer y gwaharddiadau yn y boblogaeth o ddysgwyr a adroddwyd yn ystod y cyfnod peilot, a bod gwaharddiadau plant sy'n derbyn gofal yn gyson â'r duedd hon.

Darparodd rhai awdurdodau lleol dystiolaeth gychwynnol i gadarnhau bod prosiectau peilot yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar ostyngiadau mewn gwaharddiadau. Er enghraifft, dywedodd un awdurdod lleol (Powys) fod 'llawer o waharddiadau' eisoes wedi cael eu hosgoi ac na fu 'dim gwaharddiadau parhaol' ers cyflwyno'r VSM. Yn yr un modd, nododd awdurdod lleol arall (Wrecsam) fod gostyngiad wedi bod mewn gwaharddiadau ymysg plant sy'n derbyn gofal oherwydd gwell monitro ac ymyrraeth. Roedd hyn yn cynnwys un enghraifft o blentyn yn cael ei wahardd o'r ysgol am 10 diwrnod - yn yr achos hwn roedd cymorth (gwybodaeth a chyngor) wedi cael ei ddarparu i'w gweithiwr cymdeithasol i herio'r gwaharddiad cyfnod penodol yn llwyddiannus, gan arwain at ganlyniadau gwell i'r plentyn. Nododd awdurdod lleol arall fod y cymorth

ychwanegol a ddarperir i blant sy'n derbyn gofal yn helpu i liniaru problemau cymdeithasol ac emosiynol cychwynnol a allai arwain at waharddiadau.

**Mwy o blant sy'n derbyn gofal yn aros mewn addysg prif ffrwd neu'n ailintegreiddio i addysg brif ffrwd**

Ystyriwyd bod gan brosiectau peilot y potensial i gynyddu nifer y plant sy'n derbyn gofal sy'n aros mewn addysg prif ffrwd, neu sy'n cael eu hailintegreiddio mewn addysg brif ffrwd. Nodwyd bod plant sy'n derbyn gofal yn cael profiadau gwell yn yr ysgol oherwydd bod y ddarpariaeth yn fwy addas i ddiwallu eu hanghenion, a bod unrhyw broblemau a wynebir yn cael sylw'n gynt. Darparwyd rhai enghreifftiau gan awdurdodau lleol o blant sy'n derbyn gofal y credwyd eu bod yn fwy tebygol o fod wedi aros mewn addysg brif ffrwd o ganlyniad i'r ymyriad.

Er enghraifft, yn Ynys Môn, rhoddwyd un plentyn a oedd yn derbyn gofal ar amserlen fwy cyfyngedig er mwyn sicrhau rhai cymwysterau TGAU tra'n mynychu coleg paratoi milwrol am un diwrnod yr wythnos. Mewn ardal arall (Blaenau Gwent), adroddwyd bod plentyn sy'n derbyn gofal wedi mynd yn ôl i ddarpariaeth ysgol brif ffrwd o ganlyniad i'r VSM yn chwalu rhwystrau o ran mynediad ac addysg. Nid oedd y dysgwr hwn yn gallu manteisio ar ddarpariaeth prif ffrwd pan ddechreuodd y VSM gyfranogi ond llwyddodd i gwblhau ei TGAU gyda'i gyfoedion a pharhau i addysg ôl-16.

**Gwell cyrhaeddiad ac ennill cymwysterau ffurfiol**

Priodolwyd y canlyniad hirdymor hwn yn bennaf i'r ymyrraeth a'r cymorth wedi'u targedu a roddwyd ar waith gan y VSM i gynorthwyo plant sy'n derbyn gofal gyda gwaith academaidd, yn enwedig mewn achosion lle canfuwyd eu bod yn cael trafferth gyda'u hastudiaethau. Nododd un gweithiwr cymdeithasol (Powys) fod y VSM yn gweithio gyda dau blentyn sy'n derbyn gofal a gyflawnodd TGAU ac na fyddent wedi gwneud hynny heb y VSM. Yn yr achos hwn roedd y VSM wedi sefydlu canolfan arholi yn y cartref gofal ac wedi trefnu i staff yr ysgol a staff VS oruchwylio yn ystod arholiadau. Dywedodd awdurdod lleol arall (Caerdydd):

"Y llynedd, gadawodd dysgwr sy'n derbyn gofal gyda 5 cymhwyster A* - byddai hynny wedi bod yn wahanol heb y tîm VSM."

Tynnodd un awdurdod lleol (Wrecsam) sylw at ganlyniadau addysgol gwell i blant sy'n derbyn gofal sydd ag ADY cymhleth:

> "Chi'n gwybod, plant sy'n derbyn gofal yw'r [dysgwyr] mwyaf cymhleth, ac ychwanegwch ADY [at hynny], ond yn gyffredinol maen nhw'n gwneud cynnydd da nawr yn unol â'u gallu [...] a byddwn ni'n dadansoddi hynny ar ddiwedd y flwyddyn academaidd hon."

| |
|---|
| Cefnogi'r gwaith o ennill cymwysterau ffurfiol<br><br>Cysylltodd gofalwr maeth (RhCT), a oedd yn gweithredu ar awgrym gweithiwr cymdeithasol, â'r awdurdod lleol i ofyn am gymorth ychwanegol ar gyfer dysgwr Blwyddyn 10 a chafodd ei gyfeirio at y VSH, a eglurodd fod tiwtora un-i-un ar gael i ddysgwyr yn ystod eu hastudiaethau TGAU. Trefnodd y VSM sesiynau tiwtora, gan alluogi dau berson ifanc yng ngofal y gofalwr i dderbyn wyth gwers yr un mewn pynciau allweddol megis Mathemateg a Saesneg. Roedd y tiwtora'n effeithiol iawn i un dysgwr, a ymgysylltodd yn dda, a pherfformio’n gyson well yn ei arholiadau TGAU o'i gymharu â'i ganlyniadau ffug arholiadau, a rhagorodd ar y graddau angenrheidiol i symud ymlaen i astudio Safon Uwch. Fodd bynnag, roedd y gefnogaeth yn llai effeithiol i'r llall, a oedd wedi parhau i ymddieithrio oddi wrth waith academaidd ac a fyddai'n debygol o fod wedi elwa mwy o ddarpariaeth anacademaidd. |

**Cyfran is o blant sy'n derbyn gofal yn dod yn NEET ôl-16**

Roedd tystiolaeth anecdotaidd eisoes bod prosiectau peilot yn helpu i leihau nifer y plant sy'n derbyn gofal a allai ddod yn NEET ar ôl gadael yr ysgol orfodol. Dywedodd un gweithiwr cymdeithasol (Powys) fod un dysgwr wedi gwneud cais am gwrs hyfforddi'r fyddin ar ôl gadael yr ysgol, ac wedi cwblhau cam cyntaf ei hyfforddiant ers hynny. Yn yr achos hwn, dadleuwyd mai 'yr ysgol rithwir sy'n gyfrifol am hynny'. Mewn awdurdod lleol arall, roedd y gefnogaeth ychwanegol a'r ddarpariaeth amgen a ddarparwyd i blant sy'n derbyn gofal i ennill cymwysterau TGAU yn eu helpu i gael mynediad at addysg bellach ôl-16.

## 3.6. Cyflwyno'n genedlaethol

### 3.6.1. Barn rhanddeiliaid ar gyflwyno VSM yn genedlaethol

Er mwyn cyfrannu at ddatblygu polisi yn y dyfodol a darparu casgliadau pellach ar effeithiolrwydd y cynllun peilot, gofynnwyd i bob awdurdod lleol (gan gynnwys y rhai nad oeddent wedi cymryd rhan yn y cynllun peilot) am eu barn ar y posibilrwydd o roi VSM ar waith ar lefel genedlaethol.

**Barn awdurdodau lleol yn y cynllun peilot**

Gwelwyd cefnogaeth unfrydol bron i gyflwyno VSM ar ryw ffurf ymysg rhanddeiliaid mewn awdurdodau lleol peilot. Rhoddodd rhanddeiliaid arweiniol (h.y. cydlynwyr LACE / cyfatebol a VSHs) amrywiaeth o esboniadau i gefnogi eu barn, ac roedd darparu adnodd pwrpasol ar gyfer hyrwyddo plant sy'n derbyn gofal gydag awdurdodau lleol yn ffactor canolog. Ar y cyd â hyn, pwysleisiodd rhanddeiliaid bwysigrwydd eglurder i weithwyr proffesiynol ynghylch pwy i gysylltu â nhw mewn perthynas â materion addysgol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal - gan ddarparu pwynt cyswllt adnabyddadwy ac atebol.

Roedd eraill a oedd yn rhannu cefnogaeth i'r VSM yn poeni am gysondeb, gan awgrymu y byddai llawer o fanteision i lefel o safoni ledled Cymru. Byddai cyflwyno hyn yn

genedlaethol yn gwella statws cymorth i blant sy'n derbyn gofal a gallai yrru safonau mewn darpariaeth addysgol i blant sy'n derbyn gofal. Ystyriwyd bod cysondeb y prosesau sydd ar waith ar draws awdurdodau lleol hefyd yn rhan annatod o reoli symudiadau rhwng ardaloedd yn fwy effeithiol, gan gynnwys siroedd y gororau; “byddai'r VSM yn gweithio'n well pe bai'n cael ei gyflwyno ledled y wlad a byddai lleoliadau [plant sy'n derbyn gofal] y tu allan i'r wlad yn elwa”. O ran gwahaniaethau a welwyd rhwng awdurdodau lleol Cymru, nododd rhanddeiliaid y gallai safonau cyson liniaru problemau fel llywio gweithdrefnau a phrosesau derbyn gwahanol ar gyfer asesu ADY.

O'r rhai a rannodd ragor o adborth i gefnogi cyflwyno'r cynllun yn genedlaethol, roedd rhanddeiliaid ym Mhowys, Caerdydd a Bro Morgannwg yn arbennig o blaid y VSH fel egwyddor. Argymhellwyd hyn fel elfen 'sylfaenol iawn' o VSM, gyda chefnogaeth tîm ymroddedig, a phwysleisiwyd y farn nad yw “plant yn haeddu fersiwn 'wedi'i glastwreiddio' o Bennaeth Ysgol Rithwir.” Roedd rhanddeiliaid Casnewydd yn llai cefnogol i VSH yn benodol, ond yn cefnogi'r cysondeb a gynigir gan y VSH. Yma, yr wrth-farn yw bod perygl i VSH danseilio cyfrifoldebau penaethiaid ysgolion (ar gyfer plant sy'n derbyn gofal) drwy ychwanegu haen arall at y system, dyblygu rolau, a pheryglu atebolrwydd Uwch Dimau Arwain mewn ysgolion.

Roedd y rhesymau a rannwyd ‘yn erbyn’ cyflwyno VSM cenedlaethol yn ymwneud yn ganolog â'r cyfyngiadau y gellid eu gosod gan fodel anhyblyg neu anystwyth. Soniwyd am hyn wrth ei gymharu â thelerau'r cynllun peilot, ac roedd rhanddeiliaid yn credu ei fod yn annog dull gweithredu nad yw'n rhagnodol. Roedd yr esboniad ehangach yn cynnwys diffyg manylion neu esboniad (ar hyn o bryd) o'r hyn y gallai VSM cenedlaethol i Gymru ei gynnwys, gan gyfrannu at amharodrwydd i gefnogi cyflwyno heb wybod am y telerau a awgrymwyd. Mynegwyd pryderon hefyd ynghylch cynaliadwyedd VSM cenedlaethol yn y tymor hir, gan nad oedd gan randdeiliaid hyder mewn cyllid wedi'i neilltuo yn y maes hwn yn y dyfodol.

**Barn awdurdodau lleol nad oeddent yn rhan o’r cynllun peilot**

Gwelwyd bod y farn yn fwy cymysg a phryderus ynghylch cyflwyno'n genedlaethol ymysg rhanddeiliaid mewn awdurdodau lleol nad oeddent yn rhan o'r cynllun peilot, ac ni chafwyd consensws gwirioneddol rhyngddynt.

Roedd y rhesymau o blaid yn cynnwys cydnabod y gallai helpu i 'godi'r bar' i gefnogi plant sy'n derbyn gofal, drwy ganolbwyntio mwy ar fonitro eu canlyniadau addysgol. Byddai hyn yn adeiladu ar brofiadau gyda model tebyg ar gyfer Unedau Cyfeirio Disgyblion (PRU). Teimlwyd hefyd y byddai cyflwyno'n genedlaethol yn darparu cyfleoedd i safoni gwybodaeth sy'n cael ei chasglu mewn PEPs, gan gynnal lefelau ansawdd ar draws PEPs ar gyfer pob dysgwr a sicrhau eu bod yn cael eu cwblhau'n effeithiol. Yn ogystal, cydnabuwyd bod natur integredig y model yn creu cyfleoedd cadarnhaol ar gyfer gwella dealltwriaeth gweithwyr gofal cymdeithasol proffesiynol o addysg i blant sy'n derbyn gofal.

Yn olaf, adleisiwyd manteision cyflwyno model cyson, yn enwedig gan fod dysgwyr yn aml yn cael eu symud ar draws ffiniau awdurdodau lleol. Tynnodd rhanddeiliaid sylw at

ba mor gadarnhaol y byddai pe bai plant sy'n derbyn gofal yn cael mynediad at yr un systemau cymorth, lle bynnag y maent wedi'u lleoli yn y wlad. Gwnaed cymariaethau â chyflwyno model tebyg ar gyfer Unedau Cyfeirio Disgyblion, yr oedd arweinydd addysg plant sy'n derbyn gofal mewn un awdurdod lleol yn credu ei fod “yn sicr wedi helpu awdurdodau lleol i ddatblygu eu darpariaeth Unedau Cyfeirio Disgyblion.” Roedd yr un rhanddeiliad o'r farn y byddai “cael Pennaeth Ysgol Rithwir yn codi'r safon... cael [VSHs] i gyd yn cydlynu ledled Cymru, gan rannu'r hyn sy'n gweithio a'r hyn nad yw'n gweithio.”

Roedd y rhesymau a fynegwyd ‘yn erbyn’ cyflwyno yn adlewyrchu'r pryderon a rannwyd gan gyfranogwyr y cynllun peilot: ansicrwydd ynghylch yr hyn y gallai VSM i Gymru ei olygu; pryderon am fodel sy'n rhy gyfyngol; ac amheuaeth ynghylch fforddiadwyedd tymor hir cynnal y model.

Ar ben hynny, roedd rhanddeiliaid nad oeddent yn rhan o'r cynllun peilot yn poeni mwy am ddefnyddio (a theilyngdod) cyllid i gyflwyno rôl y VSH, ac yn awgrymu y gallai hyn beryglu defnyddio’r cyllid ar gyfer targedu cefnogi plant sy'n derbyn gofal yn ‘uniongyrchol’. Roedd y rheini a oedd yn teimlo y gellid gwario cyllid yn well mewn mannau eraill yn rhannu opsiynau buddsoddi amgen fel cryfhau capasiti mewn timau presennol; buddsoddi mewn system PEP newydd ledled Cymru; neu ddarparu cymorth uniongyrchol i blant sy'n derbyn gofal. Mae hyn yn awgrymu bod y rhanddeiliaid hyn o'r farn mai rôl VSH oedd yr unig nodwedd ddiffiniol o VSM.

Roedd rhai arweinwyr addysg plant sy'n derbyn gofal yn cwestiynu a fyddai VSM i Gymru yn creu unrhyw fanteision i Gymru yn ychwanegol at y rhai a ddarperir gyda modelau darparu presennol. Mynegwyd pryder hefyd - yn enwedig gan arweinydd addysg plant sy'n derbyn gofal gyda niferoedd cymharol isel o blant sy'n derbyn gofal yn eu hawdurdod lleol - ynghylch sut “gallai'r cyllid fod yn deg” os yw awdurdodau lleol i gyd yn cael yr un faint, ni waeth faint o blant sy'n derbyn gofal sydd yn eu gofal.

Yn unol â phryder a fynegwyd gan leiafrif o randdeiliaid y cynllun peilot, roedd arweinydd addysg plant sy'n derbyn gofal mewn un awdurdod lleol nad oedd yn rhan o'r cynllun peilot o'r farn ei bod yn “gamgymeriad [gadael] i’r awdurdod lleol gael rheolaeth dros blentyn ... cymryd awdurdod oddi wrth ysgol sy'n adnabod y plentyn.” Yn eu barn nhw, gellid ystyried bod rôl y VSH yn gwanhau cyfrifoldeb pennaeth enwebedig dysgwr sy'n derbyn gofal, gan ail-leoli atebolrwydd yr unigolyn sy'n gyfrifol am addysg y dysgwr.

### Barn ar gwmpas cyflwyno yn y dyfodol

Roedd y cyfweliadau'n ymhelaethu ar gwmpas a chylch gwaith posibl cyflwyno'r model yn genedlaethol, ac roedd rhanddeiliaid a oedd o blaid y VSM yn pwysleisio pwysigrwydd cyfleu'r model fel dull 'tîm', o'i gymharu â'r hen rôl cydlynydd LACE / cyfatebol. Teimlwyd bod tîm VSM pwrpasol yn rhan annatod o gefnogi'r VSH.

Roedd rhanddeiliaid yn nodi y dylai'r cyllid adlewyrchu nifer y plant sy'n derbyn gofal yn yr awdurdod lleol. Roedd hyn yn deillio o'r annhegwch canfyddedig o gynnig symiau cyllid sefydlog, ni waeth faint o blant sy'n derbyn gofal y mae pob awdurdod lleol yn gyfrifol am eu cefnogi. Er enghraifft, mae gan Gaerdydd bron i 10 gwaith yn fwy o blant

sy'n derbyn gofal (1040) o'i gymharu ag Ynys Môn (145)[18] a fyddai'n golygu pe bai cyllid VSM yn cael ei ddefnyddio i gyflogi VSH yn y ddau fodel, y byddai gan ddeiliad y swydd yng Nghaerdydd lai o allu i olrhain a chefnogi'r bobl ifanc yn eu gofal.

Awgrymwyd hefyd y dylai gynnwys dysgwyr hyd at 18 oed (yn unol â gwasanaethau plant) er mwyn sicrhau bod digon o gefnogaeth a chapasiti ar gyfer timau VSM. Teimlwyd bod angen sicrwydd hirdymor yn y cyllid i liniaru'r risg o gynnig cymorth anghyson i ddysgwyr.

Rhoddwyd pwyslais hefyd ar sicrhau staff o ansawdd uchel ar gyfer timau VSM effeithiol, gan fod rhanddeiliaid yn cydnabod mai'r rheini sydd â phrofiad hirdymor o gefnogi plant sy'n derbyn gofal a/neu addysg sydd yn y sefyllfa orau i ddatblygu perthnasoedd dibynadwy ar draws gwasanaethau. Tynnwyd sylw yn y dyfyniad canlynol at bwysigrwydd mynd i'r afael ag anghysonderau yn yr hyn y telir i unigolion am fod yr 'arweinydd cydnabyddedig' ar gyfer plant sy'n derbyn gofal mewn addysg a'r arbenigedd y maent yn ei gyfrannu at y rôl: “Mae angen i Lywodraeth Cymru ganolbwyntio ar y rôl, y raddfa gyflog a'r cymhwyster ... [mae gennym ni bobl] yn gwneud yr un rôl fwy neu lai o [cyflog o £25,000] i [gyflog o £65,000].” Yn ôl canfyddiadau rhanddeiliaid ynghylch hyn, mae anghysonderau a gwahaniaethau rhwng y rolau (a chyflogau cyfatebol) yn galw am ystyriaeth bellach.

### 3.6.2. Yr angen am ofynion sylfaenol a phrosesau safonol

Nid oedd consensws clir ynghylch safoni prosesau a datblygu gofynion sylfaenol ar gyfer VSM cenedlaethol. Ar y cyfan, roedd rhanddeiliaid yn amharod i roi atebion pendant pan ofynnwyd iddynt i ba raddau y dylai awdurdodau lleol fod yn 'rhydd i ddiffinio eu dull eu hunain' o weithredu’r VSM, gan fod yn ofalus wrth gydnabod cyd-destunau lleol.

Yn gyffredinol, roedd awdurdodau lleol yn fwy llafar ynghylch pwysigrwydd cyfarwyddyd gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r amodau sy'n gysylltiedig â chyllid, yn enwedig o ran safonau. Roedd rhai'n ffafrio dull gweithredu a oedd yn cynnwys 'elfennau craidd' cyfarwydd ar yr un pryd â chynnal lefel o hyblygrwydd ar gyfer gwahanol fodelau, gan ganiatáu i amrywiadau mewn adnoddau a chapasiti gael eu hystyried yn deg.

Teimlai'r rhai a oedd yn erbyn safoni prosesau sy'n gysylltiedig â'r VSM fod angen i'r Model gynnal rhyddid i adlewyrchu'r cyd-destun lleol (h.y. anghenion penodol ardal) yn ogystal â gweithredu yn y dirwedd gofal sydd eisoes wedi'i sefydlu. Cafodd y teimlad hwn ei grynhoi gan y farn ganlynol:

“Os yw'n mynd i fod yn anhyblyg iawn gyda llawer o gyfyngiadau o ran yr hyn y gellir ei wneud, yna byddwn yn llai tebygol o'i annog neu ei gefnogi”. (Rhanddeiliad o awdurdod lleol)

Er gwaethaf y pwyslais ar gynnal ymreolaeth awdurdodau lleol wrth bennu strwythur eu cefnogaeth, gwelwyd ymdeimlad cadarnhaol cyffredinol ynghylch safoni rhai elfennau

[18] Children looked after 31 March by local authority, age, and gender

allweddol o gefnogaeth i blant sy'n derbyn gofal ledled Cymru. Roedd hyn yn cynnwys safoni Cynlluniau Addysg Personol rhwng awdurdodau lleol, er mwyn sicrhau safon gyson o ran ansawdd, tryloywder a chynhwysiant i ddysgwyr.

Pe bai VSM cenedlaethol yn cael ei gyflwyno, awgrymwyd y dylai elfennau allweddol VSM effeithiol gynnwys:

- Mae angen i VSH (neu deitl cyfatebol) fod â phrofiad (diweddar) o fod yn bennaeth a gweithio gyda phlant sy'n agored i niwed: “Cryfder y model yw'r cydraddoldeb sydd gen i gyda phenaethiaid eraill, [lle mae] cefndir fel pennaeth ysgol gyda nifer fawr o blant sy'n derbyn gofal.”
- Set glir a dealladwy o egwyddorion yn sail i'r model.
- Strwythur llywodraethu: dylid mynegi rolau a strwythur pob model yn glir er mwyn galluogi atebolrwydd / llywodraethu (e.e.: Pwyllgor Rheoli)
- Angen “Partneriaeth go iawn gyda Gwasanaethau Plant” (h.y. dull gwirioneddol integredig o ddarparu)
- Rhannu data rhwng addysg, gwasanaethau plant a rhanddeiliaid eraill (e.e.: gofalwyr maeth): “drwy borth proffesiynol i gyfnewid data'n ddiogel.”
- System ddata hygyrch ac amser real ar gyfer monitro presenoldeb, gwaharddiadau ac ymyriadau yn 'fyw'
- Blaenoriaethu llais dysgwyr: “mae angen i lais plant sy'n derbyn gofal fod wrth galon y peth.”
- Pwyslais/gofyniad sylfaenol ar ddyrannu adnoddau i alluogi gwaith uniongyrchol gyda phlant sy'n derbyn gofal: dylai hyn sicrhau bod VS yn cael ei fabwysiadu fel Model cydweithredol cyflawn, ac yn mynd i'r afael â'r camsyniad mai VSH yw ei nodwedd unigryw
- Angen cynnig cymorth galwedigaethol: hwyluso mynediad at ddewisiadau amgen addas i ddarpariaeth prif ffrwd
- Aelod penodedig o dîm VSM sy'n gyfrifol am ADY
- Gofynion monitro wedi'u diffinio'n dda: mesur effaith cyllid mewn ffordd gadarn y gellir ei holrhain
- Cyfleoedd i hyrwyddo dysgu ar y cyd ar draws pob VSM

### 3.6.3. Nodweddion y gellir eu hefelychu mewn dulliau o gefnogi canlyniadau addysgol plant sy'n derbyn gofal

Gwahoddwyd yr holl awdurdodau lleol a gymerodd ran i rannu agweddau cadarnhaol ar eu dulliau gweithredu y teimlwyd eu bod yn hawdd eu hefelychu (h.y. trosglwyddadwy) mewn ardaloedd eraill. Roedd ardaloedd peilot yn rhannu'r nodweddion canlynol:

- Rolau gweithwyr cymorth ar draws pob awdurdod lleol (a rolau mwy sefydledig yn gyffredinol i wella canlyniadau)
- Cyflwyno'r ePEP (fformat safonol)

- Model ysgol sy'n canolbwyntio ar y gymuned
- Defnydd effeithiol o ddata ac asesu (gyda hyfforddiant wedi'i gysylltu i ddarparu dolen adborth effeithiol)
- Strategaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar (sy'n haws eu cyflawni pan fydd gwybodaeth am statws y dysgwr yn ddibynadwy ac yn hygyrch)
- Dull gweithredu sy'n ystyriol o drawma (ar draws yr holl wasanaethau)

Roedd ardaloedd nad oeddent yn rhan o'r cynllun peilot yn rhannu'r arferion canlynol, y nodwyd eu bod yn effeithiol o ran cefnogi dysgwyr ac y gellid eu hystyried o bosibl mewn model cenedlaethol ar gyfer cymorth addysg i blant sy'n derbyn gofal:

- Y model Llwybr at Waith ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, gan gefnogi llwybrau ôl-16 i gyflogaeth.
- Cysondeb yn y pecynnau hyfforddi a gynigir ar draws awdurdodau lleol (gan gynnwys cymorth sy'n seiliedig ar drawma a chymorth i oedolion ifanc).
- Rhannu gwybodaeth ynghylch sut bydd lleoliad ysgol yn edrych i helpu gyda derbyniadau a symudiadau, gan sicrhau sgyrsiau a diweddariadau ynghylch cynnydd.

# 4. Casgliadau

Cafwyd tystiolaeth o gynnydd ar y cyd yn erbyn bron pob maes effaith tymor byr a thymor hir arfaethedig, gan gynnwys:

- Mwy o ymrwymiad i'r dull gweithredu ar lefel leol (ar wahân i un awdurdod lleol sy'n cymryd rhan)
- Gwell cydweithio rhwng awdurdodau lleol a rhanddeiliaid perthnasol
- Data o ansawdd gwell
- Gwell hyder mewn ysgolion ac awdurdodau lleol wrth gefnogi plant sy'n derbyn gofal
- Gwell gweithio integredig ar lefel awdurdod lleol a rhanbarthol

Ni welwyd effeithiau ehangach yn gyson ar draws y modelau. Mae hyn yn ganlyniad naturiol i gyfyngiadau'r cyllid grant a ddarperir, a'r cymwysiadau wedi'u targedu a ddewiswyd gan awdurdodau lleol i ddatblygu eu dulliau gweithredu. O'r herwydd, nid oedd y cynlluniau peilot wedi'u harfogi i gyflawni yn erbyn yr holl effeithiau a fwriadwyd, ond yn hytrach i flaenoriaethu'r meysydd yr oedd angen eu datblygu.

Nid oedd y gwerthusiad yn ceisio cymharu cynnydd rhwng ardaloedd peilot ac ardaloedd nad oeddent yn rhan o'r cynllun peilot (a oedd yn gosod ardaloedd nad oeddent yn rhan o'r cynllun peilot fel grŵp rheoli) o ystyried diffyg data sylfaenol ar gyfer yr awdurdodau lleol, ac o ystyried yr amrywiad a welwyd ar draws arferion awdurdodau lleol. Nid yw'r dystiolaeth a gasglwyd drwy'r gwerthusiad yn ddigon cadarn i bennu a yw'r cyllid peilot wedi 'ychwanegu gwerth' at gefnogi canlyniadau addysgol i ddysgwyr, o'i gymharu â dulliau nad ydynt yn rhan o'r cynllun peilot. Ni soniodd rhanddeiliaid am effeithiau arbed costau ychwaith. Fodd bynnag, mae'r gwerthusiad wedi dod i gasgliadau am y 'gwerth ychwanegol' y mae'r cyllid wedi'i gynhyrchu ar gyfer yr awdurdodau lleol peilot, sydd wedi cael eu galluogi i brofi a gwella ymyriadau a gynigir i gefnogi plant sy'n derbyn gofal.

Mae'r casgliadau a ddarperir yn yr adran hon wedi'u llunio mewn ymateb i bedwar nod yr ymarfer gwerthuso ac maent yn helpu i ddarparu asesiad terfynol o i ba raddau y gellir ystyried bod y cynllun peilot yn llwyddiannus.

## 4.1. Cymwysiadau a’r defnydd o gyllid cynllun peilot VSM

Cyfeiriodd pedwar o'r awdurdodau lleol y rhan fwyaf o'u cyllid tuag at gyflwyno VSH neu rôl gyfatebol. Cyfranogodd pob un o'r rhain fel ardaloedd astudiaeth achos, ac atgyfnerthodd rhanddeiliaid a gyfwelwyd (cydweithwyr yn gweithio mewn partneriaeth) y farn mai'r ffordd orau o gefnogi VSH yw gyda thîm VSM, y mae'r VSH yn ei oruchwylio ar lefel strategol.

Creodd pedwar o'r awdurdodau lleol peilot swyddi gweithredol i gynyddu'r capasiti i gefnogi plant sy'n derbyn gofal. Roedd hyn yn eu galluogi i ystyried strwythur eu darpariaeth yn strategol, penodi rolau newydd, cyflwyno cyfarfodydd wedi'u cydlynu i

alluogi dull integredig o ddarparu, a chyflwyno neu wella ymarfer sy'n seiliedig ar drawma ar draws gwasanaethau.

Roedd tri o'r awdurdodau peilot (yr oedd gan ddau ohonynt VSH neu gyfatebol yn eu swydd cyn y cynllun peilot) wedi dyrannu'r rhan fwyaf o'u cyllid VSM i fuddsoddi mewn systemau data a chyflwyno ePEP. Roedd rhanddeiliaid yn y timau hyn yn cefnogi'r rhesymeg bod hwn yn fuddsoddiad ystyriol ar gyfer cronfa beilot, gan sicrhau newid parhaol a fyddai o fudd i'r ddarpariaeth ni waeth beth fo amrywiadau cyllido yn y dyfodol.

Roedd dau o'r derbynwyr yn bwriadu penodi VSH, ond ailgyfeiriwyd arian. Gwybodaeth gyfyngedig oedd ar gael ar gyfer un awdurdod lleol, lle mae newid staffio wedi golygu nad yw'r prif randdeiliad sy'n gyfrifol am blant sy'n derbyn gofal yn y swydd mwyach; ac felly nid oes modd ei gyrraedd. Yn yr achos arall, newidiwyd cwrs y cais cychwynnol am gyllid, o benodi VSH, i ddatblygu fframwaith i archwilio sut y gallai VSM edrych yn yr ardal. Yn absenoldeb VSH, rhoddwyd sylw i 'uwchsgilio' y tîm, fel y gallai aelodau hyfforddedig o'r tîm ffurfio bwrdd VSM cymwys, os neu pan gyflwynir VSH.

Yn gyffredinol, roedd y dulliau'n cyd-fynd yn dda ag egwyddorion ac elfennau VSM, fel y nodir yn egwyddorion, telerau ac amodau Llywodraeth Cymru ar gyfer y cynllun peilot. Yn y dadansoddiad effaith, daethpwyd i'r casgliad bod elfennau wedi'u cyflawni ar lefel y rhaglen, ond roedd swm y cyllid a oedd ar gael yn aml yn annigonol i wneud cynnydd ar draws pob maes.

Cafwyd rhywfaint o feirniadaeth, gan randdeiliaid strategol a hyd yn oed gan randdeiliaid arweiniol mewn awdurdodau lleol a oedd yn cefnogi'r model yn llawn, bod y cynllun peilot yn rhy hyblyg, a oedd, yn eu barn nhw, wedi atal gweithredu dull VS 'gwirioneddol'. Fodd bynnag, dywedodd awdurdodau lleol fod angen iddynt hefyd ddyrannu'r cyllid mewn ffordd a oedd yn addas i'w cyd-destun lleol, ac yn hollbwysig, roeddent yn ystyried canlyniadau tymor hwy, o ystyried natur dros dro'r cynllun peilot.

Er bod cylch gwaith y rhan fwyaf o ddulliau awdurdodau lleol, ac felly'r gwerthusiad, yn berthnasol i blant (sy'n derbyn gofal ar hyn o bryd); gwelwyd 'ardal lwyd' rhwng canllawiau cyllido PDG-CLA (sy'n cynnwys plant sydd â phrofiad o ofal) a dulliau gweithredu awdurdodau lleol yn ymarferol.

Roedd telerau ac amodau grant VSM yn datgan, 'Bydd hyn [y VSM] yn cynnwys plant sy'n derbyn gofal sydd wedi'u lleoli o fewn a'r tu allan i ffiniau'r awdurdod lleol ac, yn ddelfrydol, dylai hefyd gynnwys y rhai a oedd yn arfer derbyn gofal a'r rhai ar gyrion gofal, hyd at 25 oed.' Er bod hwn wedi'i ddarparu i ddisgrifio diben cyffredinol y VSM, nid oedd wedi'i gysylltu'n benodol â gofynion monitro ac adrodd, nac â'r dibenion cyllido.

Mae adborth ymhlyg yn awgrymu bod diffyg capasiti ym mhob awdurdod lleol (cynlluniau peilot a rhai nad ydynt yn gynlluniau peilot), ynghyd â rhwystrau i fynediad at ddata, yn atal canolbwyntio ar bob plentyn sydd â phrofiad o ofal. Fodd bynnag, oherwydd cyfeiriad PDG-CLA at bob plentyn sydd â phrofiad o ofal, dangosodd rhanddeiliaid amharodrwydd i nodi hyn yn glir.

Mae'r canfyddiadau hyn wedi cefnogi mewnwelediadau a gafwyd o gyfweliad cwmpasu cychwynnol gydag Adoption UK, a ddisgrifiodd y diffyg cymorth sydd ar gael i blant a fabwysiadwyd oherwydd diffyg mynediad tebyg at wybodaeth (e.e. y PEP, sydd ond yn ofyniad statudol ar gyfer plant sydd mewn gofal ar hyn o bryd) ar gyfer dysgwyr a fabwysiadwyd. Yn gyffredinol, ystyrir bod diffyg mynediad at ddata ac adnoddau cymaradwy wedi atal awdurdodau lleol rhag ehangu eu dulliau gweithredu i gynnwys darpariaeth a goruchwyliaeth ar gyfer pob plentyn sydd â phrofiad o ofal.

## 4.2. Sut mae ardaloedd nad oeddent yn rhan o'r cynllun peilot yn cymharu ag ardaloedd a dderbyniodd y cyllid peilot

Sylwyd bod themâu cyffredin yn hwyluso canlyniadau cadarnhaol ar draws ardaloedd y cynllun peilot a'r ardaloedd nad oeddent yn rhan o'r cynllun peilot; gan ddibynnu'n bennaf ar gyfathrebu a chydweithio effeithiol rhwng gwasanaethau, staff dibynadwy a phrofiadol, a rhannu gwybodaeth yn amserol. Cafodd egwyddorion gwreiddiol y VSM (a nodwyd gan Syr Alasdair Macdonald) ac a atodwyd fel telerau ariannu’r cynllun peilot, eu cydnabod a'u cefnogi mewn awdurdodau lleol yn y cynllun peilot a'r rhai nad oeddent yn rhan o'r cynllun peilot. Fodd bynnag, mewn ardaloedd peilot, gellir barnu bod y dulliau gweithredu'n effeithiol gan eu bod wedi targedu gwendidau penodol yn y ddarpariaeth ac wedi ceisio cryfhau'r priodoleddau hyn.

Gellir gweld bod llawer o'r rhwystrau i ymarfer effeithiol a nodwyd gan ardaloedd nad oeddent yn rhan o’r cynllun peilot yn feysydd a dargedwyd yn benodol gan gyllid y cynllun peilot, fel gwella cyfathrebu rhwng timau a goresgyn diffyg dealltwriaeth gwasanaethau eraill ynghylch y dirwedd addysg ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Fodd bynnag, mae rhwystrau systemig parhaus yn parhau ar draws awdurdodau peilot ac awdurdodau nad ydynt yn rhan o'r cynllun peilot, fel heriau o ran recriwtio a chadw staff ym maes gofal cymdeithasol ac anghysondebau o ran staffio gweithwyr cymdeithasol, a diffyg lleoliadau gofal maeth. Mae'r naill a'r llall yn cael effaith hollbwysig ar sefydlogrwydd addysg i blant sy'n derbyn gofal.

Ar ben hynny, mae'r graddau y mae'r dulliau peilot wedi mynd i'r afael â rhwystrau i ganlyniadau addysgol fel hwyluso pontio i ddysgwyr rhwng symud lleoliadau (ar draws awdurdodau lleol Cymru neu drawsffiniol) a gwella’r gallu i olrhain y dysgwyr hyn, yn dal yn aneglur. Er bod data cyfweliadau yn darparu tystiolaeth o gydweithio rhwng awdurdodau lleol (yn enwedig ar gyfer y cynlluniau peilot), mae'r amrywiaeth rhwng arferion ledled Cymru wedi ehangu'r gwahaniaethau rhwng y ddarpariaeth sydd ar gael i ddysgwyr, o sir i sir.

Ni ellid dod i gasgliadau uniongyrchol ynghylch effeithiolrwydd dulliau peilot o'u cymharu â dulliau nad ydynt yn rhai peilot, oherwydd diffyg data sylfaenol neu gynllun gwerthuso a monitro ar gyfer y peilot.

## 4.3. Effeithiau a gynhyrchwyd gan ddulliau peilot y VSM

Roedd y prif effeithiau a gynhyrchwyd drwy ddyrannu cyllid i rôl VSH yn cynnwys gwell integreiddio rhwng timau a gwasanaethau sy'n cefnogi dysgwyr mewn awdurdodau lleol; mwy o awdurdod yn gysylltiedig â'r rôl arweiniol; cydweithio strategol cryfach â'r cynlluniau peilot a oedd wedi mabwysiadu dull tebyg; a lefel fwy rhagweithiol o ddarpariaeth ataliol, gan liniaru'r heriau amrywiol a wynebir gan blant sy'n derbyn gofal.

Nododd rhanddeiliaid mewn awdurdodau lleol a benododd i swyddi gweithredol newydd ddull mwy cydgysylltiedig o gefnogi dysgwyr yn eu hardaloedd. Mewn tri o'r achosion hyn, roedd mwy o waith uniongyrchol gyda dysgwyr yn cael ei alluogi drwy rolau fel mentoriaid, swyddogion mynediad a swyddogion cynhwysiant. Roedd hyn hefyd yn caniatáu monitro ac olrhain presenoldeb yn well, a mesurau lliniaru i atal gwaharddiadau.

Ar gyfer cynlluniau peilot a oedd yn canolbwyntio buddsoddiad ar systemau data ac ePEPs, mae effaith tymor byr yn amlwg yn y newid tuag at ddull sy'n canolbwyntio ar y dysgwr o gofnodi cynnydd a datblygiad. Mae'r lefel uwch o ddata a gasglwyd wedi golygu y gall rhanddeiliaid arweiniol (VSH/rheolwyr gwasanaeth) flaenoriaethu a chynllunio eu darpariaeth yn fwy effeithiol, gan dargedu meysydd penodol o angen a nodwyd.

Gyda'i gilydd, roedd yr effeithiau a adroddwyd gan randdeiliaid allweddol ar draws awdurdodau lleol y cynllun peilot yn cynnwys:

- gwell systemau casglu a monitro data
- gwell ymwybyddiaeth ac uwchsgilio staff
- gwell cydweithio a gweithio mewn partneriaeth
- darparu un pwynt mynediad ar gyfer gwybodaeth am blant sy'n derbyn gofal
- gwell ansawdd a phrydlondeb wrth gynhyrchu Cynlluniau Addysg Personol

Yr effeithiau a welwyd ar blant sy'n derbyn gofal oherwydd y cynllun peilot oedd presenoldeb cymorth cyson y gellir ymddiried ynddo (gan dimau VSM, ond sy'n arbennig o effeithiol lle'r oedd mwy o gapasiti'n caniatáu ar gyfer gwaith uniongyrchol); gwell eiriolaeth i blant sy'n derbyn gofal (eu hanghenion, eu hawliau); a gwell gallu i liniaru problemau ymddygiad. Priodolir yr olaf i'r gefnogaeth emosiynol a chefnogaeth lles gyfannol a alluogir drwy VSM pwrpasol, sy'n mynd i'r afael â'r materion ehangach a allai fod yn effeithio ar gynnydd addysgol dysgwr.

Nid oedd amseriad y gwerthusiad yn caniatáu ar gyfer asesu'r effaith hirdymor, ond roedd y rhai a gyfwelwyd yn rhagweld effeithiau hirdymor gan gynnwys presenoldeb gwell, llai o waharddiadau, a mwy o blant sy'n derbyn gofal yn aros mewn addysg prif ffrwd neu'n cael eu hailintegreiddio mewn addysg brif ffrwd.

Ar draws pob awdurdod lleol mae angen gwella mecanweithiau ar gyfer mesur canlyniadau ac effaith, er enghraifft drwy ddatblygu fframwaith ar y cyd ar gyfer casglu a dadansoddi data, a fyddai'n galluogi dull gweithredu mwy cyson ledled Cymru.

## 4.4. Profiadau plant sy'n derbyn gofal mewn addysg

Mae'r dulliau peilot, eu hunain, wedi galluogi gwell dealltwriaeth o farn dysgwyr drwy wella PEPs sy'n canolbwyntio ar y dysgwr, cynyddu'r gallu i gefnogi, a mwy o gyfathrebu uniongyrchol â dysgwyr.

Ar draws awdurdodau lleol peilot a rhai nad oeddent yn rhan o'r cynllun peilot, cofnodwyd arferion da o ran integreiddio llais y dysgwr wrth gynllunio'r ddarpariaeth drwy'r gwerthusiad. Fodd bynnag, gellir gwneud mwy i gydgynhyrchu natur y ddarpariaeth, rhwng rheolwyr gwasanaethau, ysgolion a dysgwyr.

Roedd plant sy'n derbyn gofal yn argymell meithrin mwy o ymwybyddiaeth ymysg y rhai sy'n ymwneud ag addysg o pam mae pobl mewn gofal; darparu cymorth ychwanegol (e.e. archwiliadau pwyllog a chyfrinachol); a sicrhau nad yw'r camau a gymerir i gefnogi plant mewn gofal yn eu gwahaniaethu oddi wrth eu cyfoedion.

Yn gyffredinol, mae profiadau a myfyrdodau plant sy'n derbyn gofal yn atgyfnerthu pwysigrwydd dull sy'n canolbwyntio ar y disgybl, cyfathrebu cyson a mwy o ymwybyddiaeth ymysg gweithwyr proffesiynol ym maes addysg o amgylchiadau plant sydd â phrofiad o ofal.

## 4.5. Aliniad awdurdodau lleol ag egwyddorion VSM

Yn gyffredinol, canfu'r ymchwil hwn, pan ddarparwyd enghreifftiau o arfer llwyddiannus gan awdurdodau lleol (a oedd yn rhan o’r cynllun peilot neu beidio), y gallai pob un o'r rhain fod yn gysylltiedig ag egwyddorion VSM. Er enghraifft, cymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar gyfer plant sydd â phrofiad o ofal a chydweithio o fewn awdurdodau lleol. Nododd awdurdodau lleol peilot a rhai nad oeddent yn rhan o'r cynllun peilot rwystrau tebyg i gynnydd, a oedd yn cynnwys cyllid annigonol, ansicrwydd ynghylch cylchoedd cyllido, cyfathrebu aneffeithiol a rhannu data o fewn ac ar draws ardaloedd Awdurdodau Lleol.

Er bod yr awdurdodau lleol peilot yn amrywio o ran eu defnydd o gyllid peilot VSM, roeddent i gyd yn darparu enghreifftiau o sut roedd eu defnydd o'r cyllid yn gwella ymarfer ac yn bodloni egwyddorion VSM. Dangoswyd bod rhai awdurdodau lleol peilot yn gwneud newidiadau a oedd yn bodloni nifer o egwyddorion allweddol y VSM yn uniongyrchol. Er enghraifft, drwy benodi uwch arweinydd fel VSH, neu ddatblygu systemau data mwy datblygedig sy'n helpu i gynnal PEP ystyrlon.

Er y gallai arferion llwyddiannus ym mhob awdurdod lleol fod yn gysylltiedig ag egwyddorion VSM, ac efallai fod hyn hyd yn oed yn gliriach i awdurdodau lleol peilot, nid oedd yn bosibl penderfynu a ddylid cyflwyno'r VSM ai peidio. Y rheswm am hyn yw bod hyblygrwydd y cyllid grant yn golygu bod cymhwyso’r VSM yn amrywio ym mhob awdurdod lleol peilot ac roedd cyllid VSM yn gorgyffwrdd â ffynonellau cyllid eraill, yn ogystal â diffyg data monitro manwl o bob cynllun peilot.

O ganlyniad, mae'r adran argymhellion yn canolbwyntio ar y newidiadau y gellid eu gwneud i wella canlyniadau addysgol i bob plentyn sydd â phrofiad o ofal, ni waeth a yw'r VSM yn cael ei gyflwyno ai peidio.

# 5. Argymhellion

Argymhellir, cyn belled ag y bo modd, bod y camau gweithredu a awgrymir yn cael eu cymhwyso i'r boblogaeth ehangach o blant sydd â phrofiad o ofal i leihau'r anghydraddoldebau addysgol a brofir gan blant sy'n derbyn gofal ar hyn o bryd, a'r rhai sydd wedi cael profiadau aflonyddgar tebyg yn eu haddysg ond nad ydynt bellach yn y system ofal. Mae'r argymhellion hyn ar gyfer Llywodraeth Cymru, oni nodir yn wahanol.

## 5.1. Dylunio fframwaith ar y cyd ar gyfer monitro a chasglu data sy'n ymgorffori'r mesurau cynnydd mwyaf gwerthfawr ar gyfer cefnogi plant sy'n derbyn gofal

Mae'r amrywiaeth mewn dulliau monitro rhwng awdurdodau lleol yn cyfyngu ar gysondeb a chymharedd y data sy'n cael ei gasglu.

Mae lle i gryfhau'r gwaith o fesur effaith yn y dyfodol. Roedd awdurdodau lleol yn cydnabod gwerth casglu data'n gyson i wella'r gallu i olrhain a'r ddarpariaeth i ddysgwyr. Dylid edrych ar ddull gweithredu dwy haen sy'n cynnwys fframwaith cenedlaethol cyffredin, gan annog hyblygrwydd i awdurdodau osod eu nodau a'u targedau lleol eu hunain yn unol ag anghenion y boblogaeth. Byddai buddsoddi mewn systemau sy'n cefnogi olrhain canlyniadau plant sy'n derbyn gofal mewn amser real ac yn hydredol hefyd yn gwella ansawdd y dystiolaeth, gan ddod â dulliau gweithredu yng Nghymru yn nes at y rhai yn Lloegr, lle mae'n ymddangos bod dealltwriaeth 'fyw' o bresenoldeb plant sy'n derbyn gofal ar waith.

Fel rhan o'r gwaith hwn, dylid rhoi ystyriaeth bellach i'r mecanweithiau atebolrwydd sydd ar gael, er mwyn sicrhau bod monitro'n broses weithredol. Dylai'r Arolygiaeth (Estyn) a chyrff llywodraethu sicrhau bod canlyniadau unrhyw fodelau VS yn cael eu monitro i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r fframwaith yn ogystal â'r asesiad o leoliadau ysgol 'ffisegol'.

Os na weithredir VSM cenedlaethol, dylai gofynion safonol o dan fframwaith monitro cyffredin ar gyfer awdurdodau lleol gynnwys (o leiaf):

- Data presenoldeb
- Data gwaharddiadau
- Cyfraddau cwblhau PEP/IDP
- Gwybodaeth am lesiant/ymddygiad
- Tystiolaeth o 'bartneriaeth wirioneddol' rhwng gwasanaethau plant ac addysg (rhannu a chyfnewid data rhwng y ddau)
- Tystiolaeth o strwythur llywodraethu clir ar gyfer timau awdurdodau lleol sy'n cefnogi plant sy'n derbyn gofal mewn addysg
- Tystiolaeth o ddarparu gwasanaethau ac ymyriadau ataliol, ac ymarfer sy'n ystyriol o drawma

- Gofyniad sylfaenol ynghylch dyrannu adnoddau i alluogi gwaith uniongyrchol gyda phlant sy'n derbyn gofal: sicrhau bod dulliau gweithredu'n gydweithredol ac yn canolbwyntio ar y dysgwr, a'u bod wedi'u harfogi i gydbwyso nodweddion mwy biwrocrataidd ysgogi cymorth i blant sy'n derbyn gofal

### 5.2. Adolygu cyllid PDG-CLA gan ystyried effaith cynllun peilot VSM

Gan gydnabod bod y cynllun peilot wedi cael ei gynnal am gyfnod penodol, a'i fod yn dibynnu ar gymhwyso gan awdurdodau lleol, dylai'r cyllid PDG-CLA gael ei adolygu a'i lywio gan ganfyddiadau'r gwerthusiad hwn.

Os bydd VSM cenedlaethol yn cael ei roi ar waith, dylid diwygio'r trefniadau cyllido i sicrhau bod modd priodoli canlyniadau i bob elfen (cyllid PDG-CLA a VSM yn y drefn honno), neu eu cyfuno i sicrhau bod cyllid ynghlwm wrth set fwy cynhwysfawr o delerau.

Byddai hyn yn hanfodol er mwyn olrhain canlyniadau a briodolir i gyllid ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn fwy cywir, a byddai methu â gwneud hynny'n debygol o beryglu gwerthusiadau yn y dyfodol.

Drwy'r gwerthusiad, mynegodd rhanddeiliaid bryderon bod diffyg model cyllido 'fesul disgybl' ar gyfer cyllid VSM yn creu gwahaniaethau penodol rhwng canlyniadau mewn ardaloedd mwy poblog o'i gymharu ag ardaloedd â phoblogaeth is o blant sy'n derbyn gofal. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried rhinweddau a manteision dyraniad cyllid 'unffurf' ar gyfer VSM (fel y gwelwyd yn yr Alban), yn erbyn manteision honedig model premiwm disgybl fel sy'n bodoli yn Lloegr.

Pa bynnag fodel sy'n cael ei ffafrio, rhaid iddo gael ei gefnogi gan fframwaith monitro mwy cadarn (a ddisgrifir yn 5.1) i ddarparu sylfaen dystiolaeth gryfach ar gyfer gwerthuso a datblygu polisi yn y dyfodol.

### 5.3. Dylai awdurdodau lleol ddefnyddio'r NDG i gefnogi deialog genedlaethol ar gyfer rhannu arferion gorau a sefydlu safonau cyffredin

Gan weithredu fel fforwm cenedlaethol, byddai hwn mewn sefyllfa dda i hwyluso deialog agored gydag awdurdodau lleol am yr argymhellion hyn. Yn benodol, dylid cynnal trafodaethau ar safonau gofynnol a hawliau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal er mwyn sefydlu nodau unedig a dealltwriaeth gyffredin rhwng awdurdodau lleol. Argymhellir bod sefydliad annibynnol yn arwain y broses hon i oresgyn canfyddiadau o ddylanwad neu ragfarn, ac i sicrhau bod canfyddiadau'n cael eu hasesu o safbwynt mwy 'niwtral'.

Mae ymchwil eilaidd wedi tynnu sylw at ba mor hanfodol yw Cymdeithas Genedlaethol Penaethiaid Ysgolion Rhithwir (NAVSH) ar gyfer cyfleu a sbarduno arferion gorau ar gyfer cefnogi plant sy'n derbyn gofal mewn addysg yn Lloegr. Bydd angen cynllun cyfatebol tebyg yng Nghymru er mwyn cryfhau cyfathrebu ac ymrwymiad ymysg awdurdodau lleol, gan greu lle ar gyfer deialog ynghylch gwella.

## 5.4. Cynnwys cymorth i ddysgwyr sydd wedi'u mabwysiadu a phlant a arferai fod mewn gofal

Er mai bwriad y VSM a'r PDG CLA yw bod o fudd i bob plentyn sydd â phrofiad o ofal, nododd arweinwyr addysg plant sy'n derbyn gofal a rhanddeiliaid strategol y 'bwlch' canfyddiadol yn y cymorth sydd ar gael oherwydd bod cyfrifiadau cyllido yn seiliedig ar ffigurau plant sy'n derbyn gofal yn unig.

Roedd rhanddeiliaid yn Adoption UK wedi tynnu sylw'n benodol at yr angen am PEP (neu gyfatebol) ar gyfer dysgwyr sydd wedi cael eu mabwysiadu. Byddai hyn yn helpu i ganoli hanes y dysgwyr hyn yn eu cyd-destun addysg, yn ogystal â darparu tystiolaeth i gefnogi llacio mesurau disgyblu ysgolion (yn yr un modd ag y gwneir addasiadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal i liniaru tarfu pellach ar y dysgwr).

Tybir y byddai darparu cynllun dysgu cyfatebol, gyda chyllid cyfatebol i'w ariannu, yn helpu i sicrhau bod dysgwyr a fabwysiadwyd yn cael eu cefnogi drwy anghenion amrywiol gan gynnwys anghenion ymlyniad, materion synhwyraidd, ac anghenion ymddygiad.

Dylid sicrhau bod unrhyw gyllid VSM yn y dyfodol, neu addasiad i'r PDG-CLA, yn cyfleu'n glir y disgwyliadau i gefnogi plant a fabwysiadwyd a phlant a arferai dderbyn gofal, gan gynnwys monitro'r gofynion am dystiolaeth o gynnwys y grwpiau hyn.

## 5.5. Ffurfioli set o hawliau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal (ni waeth a roddir VSM cenedlaethol ar waith ai peidio)

Yn hytrach na gofyn i awdurdodau lleol safoni eu modelau darparu (sy'n cael ei gydnabod yn heriol o ystyried lefel yr amrywiad a welwyd yn y dulliau presennol); dylid canolbwyntio ar ddatblygu set o elfennau cyffredin **y dylai plentyn sy'n derbyn gofal ddisgwyl eu cael**, ni waeth ble yng Nghymru y caiff ei leoli.

O dan y system bresennol, mae anghysondeb y dulliau gweithredu a gyflwynir gan awdurdodau lleol yn peri risg o annhegwch pellach mewn addysg i blant sy'n derbyn gofal, a allent ddod ar draws lefelau amrywiol o gymorth yn dibynnu ar ble yn y wlad y maent wedi'u lleoli.

Mantais ganolog y dull seiliedig ar hawliau fyddai sicrhau bod llesiant plant sy'n derbyn gofal yn cael blaenoriaeth uwch na gwarchod systemau hanesyddol awdurdodau lleol. Gellid ffurfioli hyn fel set o hawliau - yn unol â CCUHP, y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a'r Siarter Rhianta Corfforaethol - y gall yr arweinydd addysg plant sy'n derbyn gofal / arweinydd VSM ei hyrwyddo.

Mae hyn yn cefnogi **dull gweithredu canlyniadau'n gyntaf**, ac yn anrhydeddu ymrwymiadau Llywodraeth Cymru i wneud y canlynol:

- Gwella canlyniadau addysgol i blant sy'n derbyn gofal yng Nghymru
- Cynnal dull sy'n canolbwyntio ar y dysgwr
- Sicrhau tegwch yn y ddarpariaeth, gan liniaru gwahaniaethau rhwng profiadau addysgol plant sy'n derbyn gofal ledled Cymru.

Yna gellir cefnogi awdurdodau lleol i benderfynu ar y ffordd orau o gyflawni'r hawliau hynny, mewn ffordd sy'n cyd-fynd yn realistig â'u strwythur presennol. Gellir defnyddio'r NDG i

hyrwyddo dysgu ar y cyd rhwng gweithwyr proffesiynol. Dylai'r fframwaith cyffredin ar gyfer monitro data, yn ogystal â'r telerau sydd ynghlwm wrth drefniadau cyllido, helpu i ddarparu gwell atebolrwydd.

Ar sail adborth gan randdeiliaid, gallai enghreifftiau o **safonau gofynnol** ar gyfer plant sydd â phrofiad o ofal a phlant sy'n derbyn gofal mewn addysg gynnwys:

- Mae gan bob dysgwr ePEP (safonedig, hygyrch, sy'n cofnodi canlyniadau cyffredin)
- Mae pob dysgwr yn cyfranogi at ei PEP ei hun, ac mae ganddo fynediad at ei gofnodion
- Mae pob dysgwr (a'u gofalwyr) yn cael gwybod am ei gydlynydd LACE (neu gyfatebol) ac yn deall y gellir cysylltu ag ef i gael cymorth gyda'i addysg
- Mae pob dysgwr yn cael ei gefnogi gan dîm LACE sy'n ystyriol o drawma
- Mae pob dysgwr yn cael ei gefnogi gan weithwyr proffesiynol sydd â dealltwriaeth integredig (gan gyfuno cofnodion gofal cymdeithasol ac addysg) o'u hamgylchiadau
- Mae gan bob dysgwr hawl i newidiadau ac addasiadau priodol sy'n gwneud ei brofiad addysgol yn fwy cadarnhaol, a chynnydd yn haws ei gyflawni

## 5.6. Cyflwyno rôl Pennaeth statudol i hyrwyddo hawliau plant sy'n derbyn gofal, ym mhob awdurdod lleol

Dylai'r hawliau (5.5) gael eu gorfodi a'u hyrwyddo gan arweinydd statudol yr awdurdod lleol ar gyfer plant sydd â phrofiad o ofal a phlant sy'n derbyn gofal mewn addysg. Mae tystiolaeth a rannwyd fel rhan o'r gwerthusiad hwn, yn ogystal â thystiolaeth eilaidd o bob rhan o'r DU [troednodyn[19]] [troednodyn[20]], wedi tynnu sylw at werth rôl uwch o ran sicrhau gwell darpariaeth i blant sy'n derbyn gofal mewn addysg.

Pwysleisiodd rhanddeiliaid fod yn rhaid i'r VSH (neu deitl arweinydd cyfatebol) fod â phrofiad amlwg (diweddar) fel pennaeth neu mewn rôl arwain uwch, yn ogystal â phrofiad o weithio gyda phlant agored i niwed.

Mae manteision canfyddedig ac adroddedig sefydlu rôl 'arweinydd' yn cynnwys mwy o brofiad ac awdurdod, buddsoddi mewn meithrin perthnasoedd, a gwell atebolrwydd mewn perthynas ag olrhain, sefydlogrwydd a chynnydd plant sy'n derbyn gofal mewn addysg. Mae'n hanfodol bod y rôl arweiniol yn cael ei chefnogi gan dîm aml-asiantaeth integredig sy'n gallu pontio canlyniadau addysgol gyda chanlyniadau ehangach i blant sy'n derbyn gofal.

Mae'r hyn a ddysgwyd o weddill y DU yn awgrymu, er bod y rôl yn gallu dangos gwerth, y dylid ei gweithredu ochr yn ochr â safonau cadarn ar gyfer profiad (yr unigolyn yn y swydd), sy'n fwy cyraeddadwy lle mae cyllid ar gyfer y swydd yn parhau.

[[19]] Mae hyn yn cynnwys: Improving the Effectiveness of Virtual Schools (2023) Neil Harrison, Judy Sebba, Marc Wigley, Rachael Pryor a Fay Blyth
[[20]] Virtual Schools for Care Experienced Learners in Scotland: Reflections on an Emerging Concept in a New Context (2024) Leanne McIver, Michael Bettencourt

Bydd mwy o sicrwydd swydd ynghlwm wrth y rôl hefyd yn ehangu cyfleoedd i sicrhau bod y rôl yn cael ei chyflwyno ochr yn ochr â mecanweithiau adrodd ac atebolrwydd, y gellir eu monitro i sbarduno gwelliant dros amser.